





# Panel Unigolion
# 2005
## Canlyniadau o'r don 2

## ADRODDIAD CRYNO

Strategaeth Ymchwil Cwsmeriaid – Adroddiad 7

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

# PANEL UNIGOLION 2005

© Llywodraeth Cynulliad Cymru Ebrill 2006. Fe all detholion o'r cyhoeddiad hwn gael eu hatgynhyrchu at ddibenion anfasnachol, addysgol neu hyfforddiant ar yr amdol bod y ffynhonnell yn cael ei chydnabod ac nad yw'r darganfyddion yn cael eu camliwio. Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael trwy wefan Llywodraeth Cynulliad Cymru yn (www.cymru.gov.uk).



GfK NOP

Grŵp ymchwil NOP yw cangen y DU o NOP World, y nawfed o'r asiantaethau ymchwil mwyaf yn y byd. Yn y DU cyflogir tua 600 o staff gan NOP sydd wedi'i rannu yn adrannau arbenigol.

Mae'r tîm sy'n gweithio ar Panel Unigolion yn rhan o'r adran sy'n arbenigo mewn Ymchwil Cymdeithasol a mae 20 o ymchwilwyr yn gweithio yn y maes hwn. Mae gan y tîm brofiad perthnasol o arolygon ymchwil cymdeithasol ar raddfa fawr ac o wneud ymchwil i fodlonrwydd cwsmeriaid.

## CYNNWYS


| | |
|---|---|
| Cyflwyniad a Chefndir | 1 |
| Crynodeb Gweithredol | 4 |
| Dysgu Ffurfiol | 7 |
| Gweithgarwch Dysgu Anffurfiol | 19 |
| Cymhellion i Ddysgu ac Effeithiau | 61 |
| Agweddau tuag at Ddysgu | 44 |
| Rhwystrau i Ddysgu | 83 |
| Cynlluniau am y Dyfodol | 90 |
| Atodiad A | 106 |
| Atodiad B | 107 |


Mae'r adroddiad hwn yn rhan o raglen ymchwil ar gwsmeriaid a gafodd ei chomisiynu'n wreiddiol gan ELWa. ELWa oedd y corff statudol a oedd yn gyfrifol am gynllunio, cyllido, hyrwyddo ac ehangu mynediad at addysg a hyfforddiant ôl-16 yng Nghymru (ac eithrio Addysg Uwch). Ers Ebrill 2006, cafodd y swyddogaethau hyn eu trosglwyddo i'r Adran Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau sydd yn Llywodraeth Cynulliad Cymru.

# 1 CYFLWYNIAD A CHEFNDIR







## 1.1 Cyflwyniad

ELWa oedd y Corff a Noddwyd gan y Cynulliad a sefydlwyd yn 2001 o dan Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000, ac roedd yn gyfrifol am gynllunio, cyllido a hyrwyddo darpariaeth dysgu ôl-16 yng Nghymru, ac eithrio Addysg Uwch. Ar 1 Ebrill 2006, ymunodd ELWa â Llywodraeth Cynulliad Cymru (LICC). Mae ei weithgareddau ymchwil a gwerthuso wedi mynd i mewn i'r Adran Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (AADGOS), ac fe'u hestynnwyd i gwmpasu pob dysgu gydol oes.

Ym mis Awst 2003, comisiynodd ELWa arolwg o unigolion 16 oed a throsodd er mwyn deall yn well eu barn am ddysgu, a'u profiad ohono, yn ogystal â'r hyn sy'n eu cymell yn y maes hwn. Prif nodau'r Panel Unigolion yw:

- Sefydlu dull o olrhain newidiadau mewn canfyddiad a phrofiadau o ddysgu
- Rhoi darlun llawn a thrawsadrannol o ymddygiad ac agweddau mewn perthynas â dysgu
- Darparu data meintiol ar oedolion o oedran gweithio
- Darparu data meintiol am y rhai nad ydynt yn dysgu

Fel rhan o'r ymchwil gychwynnol hon, yn 2004 gofynnwyd i'r holl ymatebwyr a fuasent yn cymryd rhan mewn panel, gan adael i gyfwelwyr ddod yn ôl atynt o fewn blwyddyn. Gan weithio gyda GfK NOP, aeth ELWa yn ôl at yr holl ymatebwyr o arolwg 2004 a gytunodd i gymryd rhan eto. Comisiynwyd ail 'gam' yr ymchwil er mwyn i ELWa (LICC bellach) gael edrych ar newidiadau mewn ymddygiad ymysg rhai grwpiau penodol o unigolion ac archwilio'r hyn a allai sbarduno mwy o gyfranogiad mewn dysgu neu newidiadau mewn agweddau. Roedd mantais i fabwysiadu'r dull hwn, sef y gellid mesur newidiadau mewn barn yn llawer mwy cywir na chyfres o arolygon unigol. Roedd yr ymarfer hwn yn rhan o Strategaeth Ymchwil Cwsmeriaid ELWa, a oedd yn rhan o'r ymdrech gyffredinol yn ELWa i:

- Annog polisi ar sail tystiolaeth a chynllunio ar sail galw
- Canolbwyntio ar y cwsmer

Mae'r Strategaeth ei hun yn cwmpasu tair prif gangen gweithredu:

- Deall yr hyn sy'n cymell cwsmeriaid i ddysgu er mwyn ehangu a dwysáu cyfranogiad mewn dysgu
- Deall yr hyn y mae cwsmeriaid yn meddwl am y gwasanaethau addysg a dysgu a gânt
- Olrhain a deall cyfranogiad o fewn y grwpiau cwsmeriaid (unigolion, busnesau a chymunedau)

Mae arolwg y Panel Unigolion wedi'i gynnwys yn y llinyn cyntaf a'r trydydd llinyn hyn. Mae'r Arolwg Panel Unigolion wedi'i gynnwys yn y llinyn cyntaf a'r trydydd llinyn hyn. Mae gwaith arall a wnaed eisoes neu sydd yn yr arfaeth o dan y Strategaeth Ymchwil ar Gwsmeriaid i'w weld yn nhabl 1.

Roedd Panel Unigolion 2005 (neu Cam II, fel y'i gelwir weithiau) yn cynnwys 1,309 o gyfweliadau wyneb-yn-wyneb ag unigolion yn eu cartrefi. Cynhaliwyd y cyfweliadau rhwng mis Rhagfyr 2004 a mis Ionawr 2005 (yr un adeg o'r flwyddyn â'r arolwg blaenorol) ac roeddent yn para 24 munud ar gyfartaledd.

Bwriad yr adroddiad hwn yw tynnu sylw at y newidiadau mwyaf arwyddocaol mewn agweddau ac ymddygiad ymysg y panel dros gyfnod o flwyddyn, a hefyd unrhyw newidiadau o ran cymhelliant ac effeithiau dysgu. Newidiadau sy'n berthnasol i'r *1,309 o ymatebwyr y cyfwelwyd â hwy yn y ddau gam* yw'r newidiadau yn y data. Gan hynny, mae rhai pwyntiau pwysig i'w cofio:

- Cynlluniwyd y panel cyntaf yn 2004 i nodi gwahanol fathau o ddysgwyr yng Nghymru ac i roi ffigur o'r amcangyfrif gorau am gyfranogiad mewn dysgu ledled Cymru.

**Table 1: Crynodeb o'r Strategaeth Ymchwil Cwsmeriaid**

| Ymarfer Ymchwil | Nodau |
|---|---|
| Arolwg Cenedlaethol o Foddhad Dysgwyr i Gymru 2003 | Drwy arolwg ffôn o 6,000 o ddysgwyr mewn Addysg Bellach (AB), Dysgu yn y Gwaith (DYYG) ac Addysg Barhaol i Oedolion (ABE) achrededig, galluogwyd ELWa i bennu mesurau o foddhad dysgwyr mewn darpariaeth a gyllidir gan ELWa ar draws Cymru, a phennwyd meincnodau a fydd, o'u holrhain dros amser, yn dangos tueddiadau ym moddhad dysgwyr. |
| Arolwg Cenedlaethol o'r Chweched Dosbarth i Gymru 2004 | Ychwanegiad at yr Arolwg Bodlonrwydd Dysgwyr Cenedlaethol yw'r arolwg hwn a oedd yn edrych yn fanwl ar sylwadau barn y dysgwyr chweched dosbarth a pha mor fodlon oeddent ar eu profiad dysgu. Cynhaliwyd 12 grŵp ffocws mewn 8 ysgol yng Nghymru ac anfonwyd holiaduron i'r myfyrwyr eu llenwi eu hunain i'r holl ysgolion a gyfrannodd i ddeall yr hyn sy'n cymell myfyrwyr chweched dosbarth i ddysgu ac a ydynt yn fodlon ar y broses ddysgu. |
| Astudiaethau Achos Cyflogwyr 2004 | Cynhaliwyd 28 astudiaeth achos unigol ymhlith amrywiaeth o gyflogwyr ar draws Cymru, er mwyn deall pa ddysgu roedd sefydliadau'n ymgymryd ag ef a sut i annog cyflogwyr i gymryd rhan mewn dysgu, a'i gynnig yn fwy helaeth ar draws y gweithlu. Cynhaliwyd cyfweliadau manwl â pherchnogion/cyfarwyddwyr ac mewn sefydliadau mwy, cynhaliwyd cyfweliadau â rheolwyr llinell, tra dosbarthwyd holiaduron i'r gweithwyr eu llenwi eu hunain. |
| Arolwg y Panel Cyflogwyr 2005 | Sefydlwyd panel o 2,000 o gyflogwyr ledled Cymru er mwyn cadw golwg ar sylwadau barn ynghylch dysgu a hyfforddiant yn eu busnesau dros amser. Edrychodd yn benodol ar lefelau gweithgarwch hyfforddi a cheisiodd adborth ynghylch y gwahanol ffyrdd o ehangu a dwysáu'r gweithgarwch hwn. |

Y rhesymeg a oedd yn sail i ddyluniad y panel oedd yr angen am sampl a gynrychiolai'r wlad gyfan o oedolion 16 oed a throsodd o ran rhyw, oedran a statws gwaith.

- Nid yw'r newidiadau na'r patrymau mewn ymddygiad a ddisgrifir yn yr adroddiad hwn yn rhai ar draws "Cymru gyfan" ond yn berthnasol i newid mewn ymddygiad ac agweddau ymysg y grŵp penodol rydym wedi'i olrhain (y rhai a gytunodd i fod ar y panel yn 2004 ac a gytunodd wedyn i'w hailgyfweld yn 2005).
- Felly, bydd y canlyniadau o 2004 (Cam I) a ddisgrifir yn yr adroddiad hwn yn wahanol i'r hyn y cyfeirir ato yn yr adroddiad a gyhoeddwyd yn 2004 am eu bod yn cyfeirio at yr 1,309 o ymatebwyr a gymrodd ran yng Ngham II yn unig.

Bu rhai datblygiadau diddorol dros amser, sydd â goblygiadau i:

- Deall hirhoedledd diddordeb a gweithredu o ran ymgymryd â dysgu.
- Asesu unrhyw symud rhwng dysgu ar sail cymwysterau a dysgu heb gymwysterau dros amser.
- Edrych ar lefelau dysgu anffurfiol dros amser.
- Archwilio'r newidiadau mewn bwriadau/dyheadau yn y dyfodol yn gyffredinol dros amser a sut mae hyn yn effeithio ar ymgymryd â dysgu/rhwystrau i ddysgu.





- Deall sut gall agweddau at ddysgu newid a'r gydberthynas rhwng hyn a phrofiadau eraill.
- Edrych ar sut mae agweddau at gyfleoedd a gynigir gan gyflogwyr yn newid i rai grwpiau penodol o bobl sy'n gweithio ac a yw hyn yn annog ymgymryd â dysgu.
- Archwilio segmentiad cychwynnol data Cam I ac edrych ar sut mae ymddygiad wedi newid i unigolion ym mhob clwstwr. Mae'r adroddiad yn archwilio'r cyfrannau ym mhob clwstwr lle mae eu hagweddau, eu cymhelliannau a'u hymddygiad yr un peth â'r llynedd.

## 1.2 Cwmpas Yr Arolwg

Yng ngham cyntaf yr ymchwil, seiliwyd y rhesymeg a oedd yn sail i ddyluniad y panel ar yr angen am sampl a oedd yn cynrychioli'r wlad gyfan ledled Cymru. Fodd bynnag, am na fyddai sampl a gynrychiolai'r wlad gyfan yn rhoi sampl cadarn mewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf, penderfynwyd chwyddo'r ardaloedd hyn yn y sampl terfynol. Er y chwyddwyd yr ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf yn y sampl, fe'u pwysolwyd yn ôl ar gyfer y dadansoddiad terfynol.

Yn yr ail gam, pennwyd y sampl gan bawb a ddywedodd y buasent yn cymryd rhan yn yr arolwg dilynol ac a gytunodd wedyn i'w hailgyfweld yn 2005. Pwysolwyd y data i gyd-fynd â phroffil demograffig ymatebwyr Cam I ar gyfer y dadansoddiad terfynol.

## 1.3 Meysydd Holi

Roedd y pynciau roedd y Panel Unigolion 2005 yn eu cwmpasu fel a ganlyn (caiff y cwestiynau craidd hyn eu hailddefnyddio yng nghamau'r Panel yn y dyfodol);

- hyfforddiant a wnaed yn ystod y flwyddyn ddiwethaf
- cyrsiau a chymwysterau a gyflawnwyd
- dull dysgu h.y. amser llawn neu ran-amser
- darparwyr cyrsiau
- rhesymau dros ddysgu
- effeithiau ymgymryd â dysgu
- rhesymau dros beidio ag ymgymryd ag unrhyw ddysgu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf neu yn y dyfodol
- y tebygolrwydd yr ymgymerir â dysgu yn y flwyddyn nesaf
- cyfleoedd i ddysgu yn y gwaith
- dyheadau am y dyfodol
- canfyddiadau o sut y gallai dysgu eu helpu i gyflawni dyheadau
- cynlluniau i ddysgu yn y dyfodol

Ym Mhanel Unigolion 2005, ychwanegwyd cwestiynau arolwg i archwilio dylanwad yr amserlen ar ymgymryd â dysgu a pharodrwydd i deithio at y darparwr. Hefyd, cynhwyswyd cwestiynau yn ymwneud ag agweddau tuag at ymgymryd â her dysgu.

## 1.4 Methodoleg a samplu

Cynhaliwyd yr arolwg drwy gyfrwng cyfweliad wyneb-yn-wyneb, a barodd 24 munud ar gyfartaledd, gyda 1,309 o unigolion yn eu cartrefi. Cynhaliwyd y cyfweliadau rhwng mis Rhagfyr 2004 a mis Ionawr 2005.

### 1.4.1 Peilot

Cynhaliwyd arolwg peilot er mwyn rhoi'r holiadur ar brawf o ran eglurder, llif a hyd. Cynhaliwyd 20 o gyfweliadau peilot i gyd gan 3 chyfwelydd o fewn un diwrnod. Adroddwyd y sylwadau yn ôl i ELWa, a gwnaed sawl newid i'r holiadur o ganlyniad.

### 1.4.2 Cyfweliadau Cymraeg

Gofynnwyd i'r ymatebwyr ar ddechrau'r cyfweliad a fyddai'n well ganddynt i'w cyfweliad gael ei gynnal yn y Gymraeg. Fodd bynnag, ni ofynnodd yr un o'r ymatebwyr am hyn.

# 2 NEWIDIADAU MEWN AMGYLCHIADAU

## 2.1 Cyflwyniad

Rydym wedi cymharu'r data demograffig sy'n gysylltiedig â statws economaidd ac iechyd o'r naill flwyddyn i'r llall. Er i'r data ddangos nad oedd unrhyw newidiadau yng nghyfansoddiad cartrefi o fewn blwyddyn, bu rhai newidiadau diddorol o ran statws gwaith.

## 2.2 Statws economaidd

Ar y cyfan, ni fu newid yn statws economaidd yr ymatebwyr ar draws y ddau gam. Fodd bynnag:

- Ymatebwyr a oedd yn ddi-waith ond ar gael i weithio yn 2005 oedd y grŵp lle bu'r newid mwyaf rhwng categorïau statws gwaith. Yn gadarnhaol, roedd hanner y grŵp hwn wedi dod o hyd i gyflogaeth naill ai amser llawn (39%) neu ran-amser (13%).
- Roedd ychydig yn llai na hanner (48%) o'r rhai a oedd mewn addysg amser llawn yn 2004 mewn addysg amser llawn o hyd yn 2005. Fodd bynnag, roedd pedwar o bob deg ohonynt (41%) bellach mewn cyflogaeth ac roedd 5% yn ddi-waith ac ar gael i weithio.
- Roedd un o bob chwech (16%) a oedd wedi'u cyflogi mewn swyddi amser llawn â thâl yn 2004 bellach yn gwneud rhywbeth gwahanol yn 2005. Roedd ychydig yn fwy nag un o bob deg (12%) wedi dod yn naill ai weithwyr rhan-amser (4%), yn hunangyflogedig (4%), wedi ymddeol (2%) neu'n anabl i weithio oherwydd salwch hirdymor neu anabledd (2%).
- Roedd ychydig yn fwy na chwarter (27%) y rhai a oedd yn gofalu am y teulu/cartref yn 2005 mewn cyflogaeth (12% yn amser llawn a 15% yn rhan-amser).

Roedd peth symud yn y data yn amlwg hefyd yn y categori wedi ymddeol, gyda 2% yn dychwelyd i weithio.

## 2.3 Iechyd a digwyddiadau bywyd a brofwyd

Arhosodd iechyd yr ymatebwyr fwy neu lai yr un fath rhwng 2004 a 2005, gydag oddeutu saith o bob deg yn adrodd nad oes unrhyw broblemau iechyd nag anableddau ganddynt a fyddai'n para dros flwyddyn (71% yn 2004 a 69% yn 2005). O'r rhai â phroblem iechyd neu anabledd y disgwylid iddi bara dros flwyddyn, bu gostyngiad arwyddocaol yn y gyfran a adroddodd ei bod yn effeithio ar y math neu'r swm o waith â thâl y gallant ei wneud (61% yn 2004 a 57% yn 2005).

Mae Tabl 3 yn edrych yn fanwl ar digwyddiadau bywyd a oedd wedi digwydd yn y 12 mis diwethaf. Os edrychwn ar y gwahaniaethau rhwng data 2004 a 2005, yr unig wahaniaethau arwyddocaol oedd i ychydig yn llai adrodd:

- eu bod yn awyddus i helpu eu plant i ddysgu (18% a 14% yn y drefn honno)
- Rydw i wedi dechrau teulu (7% a 4% yn y drefn honno)
- Rydw i wedi symud tŷ/wedi symud i ardal arall (11% a 4% yn y drefn honno)

Mae'n werth nodi y rhoddodd rhai o'r ymatebwyr yr un atebion yn 2004 a 2005, sy'n awgrymu bod y digwyddiad yn mynd rhagddo o hyd neu'n ddiweddar iddyn nhw (e.e. priodas yn chwalu yn rhychwantu'r ddau gam).





## Tabl 2: Statws economaidd (2004 a 2005)

| Sylfaen: yr holl ymatebwyr | Statws economaidd yn 2004 | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cyfanswm | Cyflogai mewn swydd amser llawn â thâl | Cyflogai mewn swydd ran-amser â thâl | Di-waith ac ar gael i weithio | Yn derbyn addysg amser llawn | Gofalu am y teulu/y cartref | Wedi ymddeol o waith â thâl |
| Heb ei phwysoli | 1,309 | 407 | 158 | **69 | **54 | 127 | 328 |
| Wedi'i phwysoli | 1,309 | 493 | 161 | 67 | 64 | 92 | 283 |
| | % | % | % | % | % | % | % |
| Cyflogai mewn swydd amser llawn â thâl | 38 | 84 | 15 | 39 | 20 | 11 | 1 |
| Cyflogai mewn swydd ran-amser â thâl | 12 | 4 | 64 | 11 | 20 | 14 | – |
| Hunangyflogedig amser llawn | 5 | 3 | 2 | – | 1 | 1 | – |
| Hunangyflogedig rhan-amser | 2 | 1 | 3 | 1 | – | 1 | 1 |
| Yn gwneud gwaith gwirfoddol | * | – | – | – | 2 | 1 | – |
| Ar raglen hyfforddiant yn y gwaith | * | – | – | – | – | – | – |
| Ar gynllun hyfforddi lleol neu gynllun y llywodraeth sy'n golygu gwaith â thâl | * | – | – | 3 | – | – | – |
| Di-waith ac ar gael i weithio | 3 | 3 | 1 | 28 | 5 | 4 | – |
| Heb gofrestru'n ddi-waith ond yn chwilio am waith | * | * | – | 2 | – | – | – |
| Yn derbyn addysg amser llawn | 3 | * | 3 | 4 | 48 | – | – |
| Yn derbyn addysg ran-amser | * | – | – | – | 2 | 1 | – |
| Yn gofalu am y teulu/y cartref | 6 | 1 | 6 | 6 | – | 58 | 2 |
| Wedi ymddeol o waith â thâl | 23 | 2 | 5 | – | – | 6 | 94 |
| Yn anabl i weithio oherwydd salwch hirdymor, anaf neu anabledd | 6 | 2 | * | 6 | 2 | 3 | 2 |
| Gweithgaredd arall | * | * | * | – | – | * | * |

Nodyn: cwestiwn un ymateb. Ni chynhwyswyd 'ddim yn gwybod' yn y tabl. Mae * yn dynodi llai na 0.5% ond mwy na sero.
Mae – yn dynodi sero. Mae ** yn dynodi sylfaen fach (sylfaen heb ei phwysoli yn llai na 100).

**Tabl 3: Digwyddiadau bywyd y mae'r ymatebwyr wedi'u profi, y canran sy'n cytuno â phob gosodiad**

| | 2004 | 2005 |
|---|---|---|
| Sylfaen heb ei phwysoli: Pawb | 1,309 | 1,309 |
| Sylfaen wedi'i phwysoli: Pawb | 1,309 | 1,309 |
| | % | % |
| Roeddwn i/Rydw i'n awyddus i helpu fy mhlant i ddysgu | 18 | 14 |
| Rydw i wedi dechrau swydd newydd/wedi cael dyrchafiad | 12 | 14 |
| Cefais salwch difrifol | 6 | 8 |
| Mae gennyf anabledd newydd/sy'n gwaethygu | 7 | 8 |
| Roeddwn i/Rydw i'n awyddus i gael dyrchafiad yn fy ngwaith | 7 | 7 |
| Rydw i bellach yn gofalu am fy wyrion | 5 | 7 |
| Bu'n rhaid i mi ddechrau gofalu am berthynas sâl/methedig | 4 | 6 |
| Dioddefais brofedigaeth o fewn y teulu agos | N/a | 6 |
| Rydw i wedi dechrau teulu | 7 | 4 |
| Rydw i wedi symud tŷ/ wedi symud i ardal arall | 11 | 4 |
| Mae fy mhriodas wedi chwalu/mae fy nghymar a minnau wedi ymwahanu | 4 | 4 |
| Rydw i wedi colli fy swydd | 4 | 3 |
| Rydw i wedi derbyn ymddeoliad cynnar/wedi ymddeol | 5 | 2 |
| Nid yw'r un o'r rhain yn berthnasol | 40 | 40 |

Nodyn: Cwestiwn amlymateb.

# 3 DYSGU FFURFIOL





## 3.1 Cyflwyniad

At ddibenion yr adroddiad, rydym wedi pennu dysgu ffurfiol ac anffurfiol fel a ganlyn:

- Roedd dysgu ffurfiol wedi'i hwyluso, gallai fod yn y gwaith neu'n ddysgu a ddigwyddodd gyda darparwr, ond y nodweddion gwahaniaethol oedd bod athro/tiwtor/mentor neu aseswr yn cymryd rhan yn y digwyddiad dysgu.
- Roedd dysgu anffurfiol yn sefyllfa lle byddai'r ymatebwr yn helpu ei hun neu'n helpu eraill (plant er enghraifft) i ddysgu. Nid oedd unrhyw rôl sylweddol i athro/tiwtor/mentor neu aseswr.

Mae'r bennod hon yn rhoi cymhariaeth o'r naill flwyddyn i'r llall o weithgarwch dysgu. Er bod y data'n dangos nad oedd llawer o newidiadau o ran y mathau o ddysgu neu hyfforddiant a gynhaliwyd, mae'n amlwg bod cyfran arwyddocaol o'r rhai a oedd mewn dysgu yn 2004 ddim yn dysgu mwyach erbyn yr arolwg yn 2005.

## 3.2 Ymgymryd â hyfforddiant neu ddysgu yn y 12 mis diwethaf

Roedd ychydig yn llai na hanner (49%) yr ymatebwyr heb ymgymryd ag unrhyw ddysgu, naill ai'n ffurfiol neu'n anffurfiol, ers arolwg 2004. Drwy groesdablu'r data ar gyfer 2005 yn erbyn 2004 (tabl 9, yr ail res o'r gwaelod), dangosir bod y rhai na wnaeth unrhyw ddysgu yn y tair blynedd diwethaf yn arwyddocaol fwy tebygol yn 2004 o ddweud nad oeddent wedi ymgymryd ag unrhyw ddysgu yn 2005 na'r rhai a oedd wedi dysgu yn y flwyddyn ddiwethaf neu'r tair blynedd diwethaf (78% o'i gymharu â 29% a 33% yn y drefn honno).

Roedd y math o ddysgu roedd ymatebwyr wedi cyfranogi ynddo'n amrywio'n fawr, ac roedd y gweithgaredd dysgu a nodwyd amlaf yn gysylltiedig â swydd. Mae'r rhestr ganlynol yn rhoi crynodeb o'r cyfrannau o ymatebwyr a nododd yr holl weithgareddau dysgu sy'n gysylltiedig â swydd:

- Wedi bod ar gyrsiau i'ch helpu i ddatblygu sgiliau y byddech chi'n eu defnyddio mewn swydd (24%)
- Wedi treulio amser yn dysgu am ddatblygiadau diweddaraf yn eich maes e.e. darllen llyfrau, llawlyfrau neu fynychu seminarau (17%)
- Wedi bod ar gyrsiau cyffredinol yn y gweithle e.e. sefydlu, iechyd a diogelwch neu hyfforddiant cymorth cyntaf (15%)
- Wedi derbyn hyfforddiant dan arolygiaeth wrth wneud swydd (12%)

Ymhlith y gweithgareddau dysgu eraill roedd:

- Wedi bod ar gyrsiau a addysgwyd oedd i fod i arwain at gymwysterau (18%)
- Wedi bod ar unrhyw gwrs, hyfforddiant arall a addysgwyd e.e. dosbarthiadau nos (10%)
- Unrhyw gwrs neu hyfforddiant arall nas addysgwyd e.e. e-ddysgu (7%)
- Wedi ennill credyd/cam tuag at gymhwyster (6%)
- Wedi astudio am gymwysterau heb fod ar gwrs a addysgwyd (3%)

Pan ddadansoddwyd y data yn ôl newidynnau demograffig allweddol, roedd rhai gwahaniaethau arwyddocaol yn amlwg.

- Roedd ymatebwyr dan 24 oed (47%) yn arwyddocaol fwy tebygol na'r rhai 25 oed a throsodd (14%) o fod wedi bod ar gwrs a addysgwyd a oedd i fod i arwain at gymhwyster.
- Roedd ymatebwyr 55 oed a throsodd yn llai tebygol na'r rhai dan 55 oed o fod wedi bod ar gyrsiau a addysgwyd i'w helpu i ddatblygu sgiliau y byddent efallai yn eu defnyddio mewn swydd (8% a 33% yn y drefn honno), o fod wedi bod ar gwrs cyffredinol yn y gweithle e.e. sefydlu, iechyd a diogelwch neu hyfforddiant cymorth cyntaf (4% ac 21% yn y drefn honno), o fod wedi derbyn hyfforddiant dan arolygiaeth wrth wneud swydd (5% a 17%

**Tabl 4: A ydych wedi ymwneud ag unrhyw un o'r mathau hyn o hyfforddiant neu ddysgu yn y deuddeng mis diwethaf? Yn ôl gweithgaredd dysgu yn 2004**

| Sylfaen: Pawb | Gweithgaredd dysgu yn 2004 | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Cyfanswm | Dysgu yn y flwyddyn ddiwethaf | Dysgu yn y 3 blynedd diwethaf | Dim dysgu yn y 3 blynedd diwethaf |
| Sylfaen heb ei phwysoli | 1,309 | 634 | 767 | 542 |
| Sylfaen wedi'i phwysoli | 1,309 | 698 | 833 | 476 |
| | % | % | % | % |
| Wedi bod ar gyrsiau a addysgwyd oedd i fod i arwain at gymhwystern | 18 | 30 | 27 | 3 |
| Wedi bod ar gyrsiau a addysgwyd a luniwyd i'ch helpu i ddatblygu sgiliau y gallech eu defnyddio mewn swydd efallai | 24 | 39 | 35 | 5 |
| Wedi bod ar gyrsiau cyffredinol yn y gweithle e.e. sefydlu, iechyd a diogelwch | 15 | 23 | 21 | 3 |
| Wedi bod ar unrhyw gyrsiau hyfforddiant eraill a addysgwyd, e.e. dosbarthiadau nos | 10 | 15 | 13 | 3 |
| Wedi astudio am gymwysterau heb gymryd rhan mewn cwrs a addysgwyd | 3 | 5 | 4 | 1 |
| Wedi derbyn hyfforddiant dan arolygiaeth wrth wneud swydd | 12 | 18 | 18 | 3 |
| Wedi treulio amser yn dysgu am ddatblygiadau yn eich maes e.e. darllen llyfrau ayb | 17 | 25 | 23 | 7 |
| Unrhyw gwrs neu hyfforddiant arall nas addysgwyd e.e. e-ddysgu | 7 | 11 | 10 | 3 |
| Wedi cael credyd/cam tuag at gymhwyster | 6 | 11 | 10 | * |
| Dim un o'r rhain | 49 | 29 | 33 | 78 |
| Ddim yn gwybod | * | – | – | * |

Nodyn: Cwestiwn amlymateb. Mae * yn dynodi llai na 0.5% ond mwy na sero. Mae – yn dynodi sero.





yn y drefn honno), ac o fod wedi ennill credyd/cam tuag at gymhwyster (2% a 9% yn y drefn honno).

- Roedd ymatebwyr hŷn, h.y. y rhai 55 oed a throsodd (67%) yn fwy tebygol na'r rhai dan 55 oed (39%) o fod heb ymgymryd ag unrhyw ddysgu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.
- Roedd galwedigaeth hefyd yn ffactor dylanwadol ymysg proffesiynolion gyda rheolwyr/galwedigaethau proffesiynol/technegol cysylltiol yn arwyddocaol fwy tebygol o gymryd rhan mewn hyfforddiant a oedd yn gysylltiedig â swydd.
- Yn yr un modd, effeithiodd statws gwaith ar a oedd yr ymatebwyr wedi ymgymryd ag unrhyw ddysgu; yr ymatebwyr a oedd wedi ymddeol (76%) oedd leiaf tebygol o fod wedi gwneud hynny.
- Roedd y tebygolrwydd y byddai ymatebwr yn nodi nad oedd wedi ymgymryd ag unrhyw ddysgu, naill ai'n ffurfiol neu'n anffurfiol, yn cynyddu ar hyd grwpiau'r dosbarthiadau cymdeithasol. Ychydig yn fwy na chwarter (27%) y rhai yn y grŵp AB oedd heb wneud unrhyw ddysgu ers y cam diwethaf, o'i gymharu â thros ddau o bob tri (67%) yn y grŵp DE.
- Roedd lefel y cymhwyster yn ffactor dylanwadol hefyd. Roedd yr ymatebwyr yr oedd eu lefel cymhwyster uchaf yn 2005 yn Lefel 3 i 5 yn debycach na'r rhai a chanddynt lefel cymhwyster is o fod wedi ymgymryd â hyfforddiant cysylltiedig â gwaith (naill ai drwy fynd ar gwrs a addysgwyd i'w helpu i ddatblygu sgiliau y byddent efallai yn eu defnyddio mewn swydd neu dreulio amser yn dysgu am y datblygiadau diweddaraf yn eu maes).

### 3.2.1 Cymharu canfyddiadau 2004 a 2005

O ran y mathau o ddysgu neu hyfforddiant roedd yr ymatebwyr wedi bod yn ymwneud â nhw, ni fu llawer o newid rhwng 2004 a 2005. Fodd bynnag, roedd nifer arwyddocaol lai o ymatebwyr wedi bod ar gyrsiau cyffredinol yn y gweithle e.e. sefydlu, iechyd a diogelwch neu hyfforddiant cymorth cyntaf (15% o'i gymharu â 22% yn 2004), neu wedi treulio amser yn dysgu am y datblygiadau yn y math o waith roeddent yn ei wneud (17% o'i gymharu ag 21% yn 2004).

Fodd bynnag, roedd rhai gwahaniaethau'n amlwg rhwng is-grwpiau rhwng 2004 a 2005:

- Roedd mwyfwy o ymatebwyr a oedd yn gweithio'n amser llawn yn mynychu cyrsiau a addysgwyd a luniwyd i'w helpu i ddatblygu sgiliau ar gyfer eu swydd (45% o'i gymharu â 35% yn 2004). Fodd bynnag, roedd llai yn mynychu cyrsiau, hyfforddiant eraill a addysgwyd e.e. dosbarthiadau nos (9% o'i gymharu â 14% yn 2004).
- O ran dosbarth cymdeithasol, roedd ymatebwyr yn y grŵp AB wedi cymryd llai o gyrsiau a addysgwyd a oedd i fod i arwain at gymhwyster (20% o'i gymharu â 29% yn 2004). I'r gwrthwyneb, bu cynnydd arwyddocaol yn y nifer a gymerodd gyrsiau a luniwyd i'w helpu i ddatblygu sgiliau y gallent eu defnyddio mewn swydd (36% o'i gymharu ag 28% yn 2004).
- O ran ymatebwyr a nododd nad oeddent wedi ymwneud ag unrhyw ddysgu, roedd y canlyniadau'n amrywio – ni fu unrhyw newid ymysg y rhai yn y grŵp C2 a DE. Fodd bynnag, roedd newid yn amlwg ymysg y grwpiau AB ac C1. Roedd y rhai yn y grŵp AB yn arwyddocaol lai tebygol o nodi nad oeddent wedi gwneud unrhyw ddysgu (27% o'i gymharu â 33% yn 2004) tra bo'r rhai yn y grŵp C1 yn arwyddocaol fwy tebygol o fod heb gyfranogi mewn unrhyw ddysgu yn y flwyddyn ddiwethaf (47% o'i gymharu â 39% yn 2004).

## 3.3 Pynciau a astudiwyd yn 2005

Gofynnwyd i'r ymatebwyr a nododd eu bod yn gwneud cwrs y llynedd a oeddent yn dal i ddilyn y cwrs hwn. Dywedodd pedwar o bob deg (40%) eu bod yn dal yn cyfranogi mewn cwrs roeddent wedi ei grybwyll yn y flwyddyn flaenorol. (Dylid nodi na ofynnwyd i

**Tabl 5: Cymryd rhan mewn hyfforddiant neu ddysgu yn ystod y deuddeng mis diwethaf, fesul galwedigaeth**

| Sylfaen: Pawb | | Galwedigaeth | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cyfanswm | Galwedigaethau proffesiynol | Rheolwyr/ galwedigaethau proffesiynol/ technegol cysylltiol | Gweinyddol/ ysgrifenyddol | Crefftau medrus | Gwasanaethau personol/ gwerthu | Lled-fedrus/ gweithredwyr |
| Sylfaen heb ei phwysoli | 1,309 | 102 | 106 | **74 | **89 | 124 | 111 |
| Sylfaen wedi'i phwysoli | 1,309 | 133 | 128 | 86 | 108 | 147 | 119 |
| | % | % | % | % | % | % | % |
| Wedi bod ar gyrsiau a addysgwyd oedd i fod i arwain at gymhwyster | 18 | 29 | 26 | 21 | 21 | 19 | 17 |
| Wedi bod ar gyrsiau a addysgwyd a luniwyd i'ch helpu i ddatblygu sgiliau y gallech eu defnyddio mewn swydd efallai | 24 | 58 | 48 | 42 | 27 | 28 | 22 |
| Wedi bod ar gyrsiau cyffredinol yn y gweithle e.e. sefydlu, iechyd a diogelwch | 15 | 27 | 26 | 22 | 17 | 25 | 19 |
| Wedi bod ar unrhyw gwrs, hyfforddiant arall a addysgwyd e.e. dosbarthiadau nos | 10 | 16 | 11 | 12 | 4 | 4 | 4 |
| Wedi astudio am gymwysterau heb fod ar gwrs a addysgwyd | 3 | 8 | 8 | 3 | 2 | 1 | 3 |
| Wedi derbyn hyfforddiant dan arolygiaeth wrth wneud swydd | 12 | 24 | 17 | 22 | 11 | 25 | 21 |
| Wedi treulio amser yn dysgu am ddatblygiadau, e.e. darllen llyfrau ayb | 17 | 46 | 39 | 18 | 16 | 21 | 7 |
| Unrhyw gwrs neu hyfforddiant arall nas addysgwyd e.e. e-ddysgu | 7 | 10 | 14 | 13 | 7 | 9 | 6 |
| Wedi ennill credyd/cam tuag at gymhwyster | 6 | 11 | 13 | 8 | 10 | 7 | 5 |
| Dim un o'r rhain | 49 | 16 | 25 | 31 | 50 | 39 | 43 |
| Ddim yn gwybod | * | – | – | – | – | – | – |

Nodyn: Cwestiwn amlymateb. Mae * yn dynodi llai na 0.5% ond mwy na sero. Mae – yn dynodi sero. ** sylfaen heb ei phwysoli yn llai na 100.



ymatebwyr a oedd ond yn parhau â'r cyrsiau neu'r dysgu a gychwynnwyd yn y cam blaenorol pa bwnc roeddent yn ei astudio).

Roedd yr ymatebwyr a oedd wedi ymgymryd â dysgu ychwanegol neu newydd wedi astudio amrywiaeth eang o byncciau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Y mwyaf poblogaidd oedd technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (28%) ac iechyd, gwasanaethau cyhoeddus a gofal (24%).

Y pynciau eraill a astudiwyd gan o leiaf 5% o'r ymatebwyr a oedd wedi ymgymryd ag unrhyw hyfforddiant neu ddysgu yn y 12 mis diwethaf oedd:

- y celfyddydau, y cyfryngau a chyhoeddi (8%)
- addysg a hyfforddiant (7%)
- peirianneg a thechnolegau gweithgynhyrchu (7%)
- busnes, gweinyddiaeth a'r gyfraith (7%)
- ieithoedd eraill, llenyddiaeth a diwylliant (6%)

Pan ddadansoddwyd y data yn ôl newidynnau demograffig allweddol, roedd rhai gwahaniaethau arwyddocaol i'w nodi:

- Roedd menywod yn arwyddocaol fwy tebygol na dynion o fod wedi astudio iechyd, gwasanaethau cyhoeddus a gofal (33% ac 16% yn y drefn honno), y celfyddydau, y cyfryngau a chyhoeddi (12% a 4% yn y drefn honno) ac addysg a hyfforddiant (10% a 4% yn y drefn honno).
- Roedd dynion (12%) yn arwyddocaol fwy tebygol na menywod (1%) o fod wedi astudio peirianneg a thechnolegau gweithgynhyrchu.
- Roedd pobl 55 oed a throsodd (26%) yn debycach o astudio'r celfyddydau, y cyfryngau a chyhoeddi na'r rhai o dan 55 oed (3%).

## 3.4 Mathau o gymwysterau yr ymgymerwyd â nhw yn y 12 mis diwethaf

Ymgymerodd dros chwech o bob deg (62%) o'r rhai a wnaeth unrhyw fathau ychwanegol neu newydd o hyfforddiant neu ddysgu yn y 12 mis diwethaf â chyrsiau a luniwyd i arwain at gymhwyster neu dystysgrif. Cymerodd ymatebwyr amrywiaeth eang o gymwysterau, ac adroddodd bron i ddau o bob deg (18%) y lluniwyd eu cwrs i arwain at CGC ac adroddodd ychydig yn fwy nag un o bob deg (12%) y'i lluniwyd i arwain at gymhwyster proffesiynol galwedigaethol. Yn yr un modd, cafodd un o bob deg (10%) dystysgrif gyffredinol i ddangos presenoldeb/cyflawniad.

Ymhlith y cymwysterau eraill yr ymgymerodd o leiaf 4% o'r ymatebwyr â nhw roedd:

- Gradd (e.e. BA, BSc) (8%)
- Cymhwyster City and Guilds (5%)
- TGAU (4%)
- Safon Uwch (4%)
- Diploma mewn addysg uwch (4%)
- Cymhwyster proffesiynol academaidd arall (4%)
- Cymhwyster RSA/OCR (4%)

Ar y cyfan, roedd yr isgrwpiau'n rhy fach i gynnal dadansoddiad cadarn, ond mae'n deg dweud bod menywod yn sylweddol fwy tebygol na dynion o fod wedi ymgymryd â chwrs dysgu a fyddai'n arwain at:

- Gymwysterau proffesiynol academaidd eraill (7% o'i gymharu â 2%)
- RSA/OCR (7% o'i gymharu ag 1%)

Gofynnwyd hefyd i'r ymatebwyr hynny a ddilynodd gwrs a luniwyd i arwain at gymwysterau pa gymhwyster roeddent wedi'i ennill. Nododd pedwar o bob deg (40%) o'r ymatebwyr nad oeddent wedi ennill y cymhwyster roeddent am ei ennill drwy'r cwrs. Mae'n werth nodi, er y gallai hynny, mewn rhai achosion, fod oherwydd iddynt fethu'r cwrs, gallai hefyd fod yn wir nad oedd yr ymatebwyr wedi cwblhau'r cwrs eto. Roedd o leiaf un o bob pump ar hugain (4%) wedi ennill y cymwysterau canlynol:

- CGC (10%)
- Tystysgrif gyffredinol i ddangos presenoldeb/cyflawniad (8%)

## Tabl 6: Cymryd rhan mewn hyfforddiant neu ddysgu yn ystod y deuddeng mis diwethaf fesul lefel cymhwyster

| Sylfaen: Pawb | | Lefel Cymhwyster (CGC neu gyfwerth) | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cyfanswm | Dim cymwysterau | Lefel 1 | Lefel 2 | Lefel 3 | Lefel 4/5 | Arall |
| Sylfaen heb ei phwysoli | 1,309 | 251 | 195 | 227 | 108 | 352 | 176 |
| Sylfaen wedi'i phwysoli | 1,309 | 199 | 195 | 235 | 120 | 400 | 160 |
| | % | % | % | % | % | % | % |
| Wedi bod ar gyrsiau a addysgwyd oedd i fod i arwain at gymhwyster | 18 | 6 | 11 | 29 | 34 | 22 | 4 |
| Wedi bod ar gyrsiau a addysgwyd a luniwyd i'ch helpu i ddatblygu sgiliau y gallech eu defnyddio mewn swydd efallai | 24 | 5 | 16 | 25 | 29 | 43 | 7 |
| Wedi bod ar gyrsiau cyffredinol yn y gweithle e.e. sefydlu, iechyd a diogelwch | 15 | 5 | 11 | 16 | 23 | 23 | 4 |
| Wedi bod ar unrhyw gwrs, hyfforddiant arall a addysgwyd e.e. dosbarthiadau nos | 10 | 5 | 9 | 8 | 11 | 14 | 8 |
| Wedi astudio am gymwysterau heb fod ar gwrs a addysgwyd | 3 | 1 | 1 | 2 | 2 | 6 | 1 |
| Wedi derbyn hyfforddiant dan arolygiaeth wrth wneud swydd | 12 | 5 | 11 | 13 | 22 | 16 | 7 |
| Wedi treulio amser yn dysgu am ddatblygiadau, e.e. darllen llyfrau ayb | 17 | 3 | 9 | 12 | 22 | 34 | 7 |
| Unrhyw gwrs neu hyfforddiant arall nas addysgwyd e.e. e-ddysgu | 7 | 4 | 4 | 2 | 7 | 16 | 2 |
| Wedi ennill credyd/cam tuag at gymhwyster | 6 | 2 | 3 | 6 | 7 | 11 | 1 |
| Dim un o'r rhain | 49 | 81 | 57 | 46 | 32 | 28 | 72 |
| Ddim yn gwybod | * | – | – | – | – | – | 1 |

Nodyn: Cwestiwn amlymateb. Mae * yn dynodi llai na 0.5% ond mwy na sero. Mae – yn dynodi sero. ** sylfaen heb ei phwysoli yn llai na 100.





**Tabl 7: Cymryd rhan mewn hyfforddiant neu ddysgu yn ystod y deuddeng mis diwethaf fesul statws gwaith**

| Sylfaen: Pawb | Cyfanswm | | Statws gwaith | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Gweithio'n amser llawn | | Gweithio'n rhan amser | | Hunangyflogedig | | Ddim yn gweithio | | Wedi ymddeol | |
| | 2004 | 2005 | 2004 | 2005 | 2004 | 2005 | 2004 | 2005 | 2004 | 2005 | 2004 | 2005 |
| Sylfaen heb ei phwysoli | 1,309 | 1,309 | 407 | 406 | 158 | 147 | **59 | **71 | 291 | 277 | 328 | 345 |
| Sylfaen wedi'i phwysoli | 1,309 | 1,309 | 490 | 497 | 175 | 159 | 74 | 91 | 207 | 203 | 304 | 300 |
| | % | % | % | % | % | % | % | % | % | % | % | % |
| Wedi bod ar gyrsiau a addysgwyd oedd i fod i arwain at gymhwyster | 19 | 18 | 26 | 26 | 18 | 17 | 11 | 10 | 10 | 8 | 4 | 4 |
| Wedi bod ar gyrsiau a addysgwyd a luniwyd i'ch helpu i ddatblygu sgiliau y gallech eu defnyddio mewn swydd efallai | 21 | 24 | 35 | 45 | 26 | 28 | 13 | 8 | 11 | 7 | 2 | 3 |
| Wedi bod ar gyrsiau cyffredinol yn y gweithle e.e. sefydlu, iechyd a diogelwch | 22 | 15 | 40 | 28 | 26 | 16 | 14 | 7 | 9 | 4 | 1 | – |
| Wedi bod ar unrhyw gwrs, hyfforddiant arall a addysgwyd e.e. dosbarthiadau nos | 12 | 10 | 14 | 9 | 7 | 5 | 6 | 7 | 8 | 7 | 13 | 14 |
| Wedi astudio ar gyfer cymwysterau heb fod ar gwrs a addysgwyd | 4 | 3 | 9 | 5 | 2 | 3 | – | – | 3 | * | * | 1 |
| Wedi derbyn hyfforddiant dan arolygiaeth wrth wneud swydd | 14 | 12 | 26 | 24 | 21 | 19 | 2 | 3 | 4 | 2 | 1 | * |
| Wedi treulio amser yn dysgu am ddatblygiadau, e.e. darllen llyfrau ayb | 21 | 17 | 37 | 30 | 25 | 17 | 20 | 13 | 8 | 5 | 4 | 5 |

**Tabl 7: Cymryd rhan mewn hyfforddiant neu ddysgu yn ystod y deuddeng mis diwethaf fesul statws gwaith (Parhad)**

| Sylfaen: Pawb | Cyfanswm | | Statws gwaith | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Gweithio'n amser llawn | | Gweithio'n rhan amser | | Hunangyflogedig | | Ddim yn gweithio | | Wedi ymddeol | |
| | 2004 | 2005 | 2004 | 2005 | 2004 | 2005 | 2004 | 2005 | 2004 | 2005 | 2004 | 2005 |
| Sylfaen heb ei phwysoli | 1,309 | 1,309 | 407 | 406 | 158 | 147 | **59 | **71 | 291 | 277 | 328 | 345 |
| Sylfaen heb ei phwysoli | 1,309 | 1,309 | 490 | 497 | 175 | 159 | 74 | 91 | 207 | 203 | 304 | 300 |
| | % | % | % | % | % | % | % | % | % | % | % | % |
| Unrhyw gwrs neu hyfforddiant arall nas addysgwyd e.e. e-ddysgu | 5 | 7 | 8 | 11 | 2 | 3 | 8 | 11 | 4 | 5 | 1 | 5 |
| Wedi ennill credyd/cam tuag at gymhwyster | 6 | 6 | 11 | 11 | 7 | 5 | – | 4 | 2 | 1 | 1 | 1 |
| Dim un o'r rhain | 48 | 49 | 31 | 28 | 35 | 39 | 49 | 61 | 66 | 74 | 79 | 76 |
| Ddim yn gwybod | – | * | – | – | – | – | – | – | – | – | – | * |

Cwestiwn amlymateb. Mae * yn dynodi llai na 0.5% ond mwy na sero. Mae – yn dynodi sero. ** sylfaen heb ei phwysoli yn llai na 100.

- Cymhwyster proffesiynol galwedigaethol arall (6%)
- Cymhwyster City and Guilds (4%)

### 3.4.1 Cymharu darganfyddiadau 2004 a 2005

O ran y mathau o gymwysterau a astudiwyd, bu gostyngiad sylweddol rhwng 2004 a 2005 yn nifer yr ymatebwyr a astudiai am TGAU (9% o'i gymharu â 4%) a thrwyddedau gyrru (6% o'i gymharu ag 1%).

Roedd gwahaniaethau rhwng y ddau ryw yn amlwg:

- Roedd dynion yn llai tebygol yn 2005 nag yn 2004 o fod wedi ymgymryd â chyrsiau a luniwyd i arwain at lefel UA (1% o'i gymharu â 5%), Safon Uwch (3% o'i gymharu â 7%), graddau (6% o'i gymharu â 10%) a chymwysterau City and Guilds (7% o'i gymharu ag 11%).
- Ar y llaw arall, roedd menywod yn llai tebygol yn 2005 o fod wedi ymgymryd â chwrs a fyddai'n arwain at CGC (14% o'i gymharu â 25%) ond yn fwy tebygol o fod wedi ymgymryd â chymhwyster proffesiynol academaidd arall (7% o'i gymharu â 3%).





**Tabl 8: Cymryd rhan mewn hyfforddiant neu ddysgu yn ystod y deuddeng mis diwethaf fesul dosbarth cymdeithasol**

| Sylfaen: Pawb | Cyfanswm | | Grŵp dosbarth cymdeithasol | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | AB | | C1 | | C2 | | DE | |
| | 2004 | 2005 | 2004 | 2005 | 2004 | 2005 | 2004 | 2005 | 2004 | 2005 |
| Sylfaen heb ei phwysoli | 1,309 | 1,309 | 232 | 231 | 306 | 314 | 307 | 299 | 464 | 464 |
| Sylfaen wedi'i phwysoli | 1,309 | 1,309 | 271 | 264 | 335 | 347 | 320 | 313 | 383 | 384 |
| | % | % | % | % | % | % | % | % | % | % |
| Wedi bod ar gyrsiau a addysgwyd oedd i fod i arwain at gymhwyster | 19 | 18 | 29 | 20 | 20 | 21 | 16 | 20 | 12 | 13 |
| Wedi bod ar gyrsiau a addysgwyd a luniwyd i'ch helpu i ddatblygu sgiliau y gallech eu defnyddio mewn swydd efallai | 21 | 24 | 28 | 36 | 25 | 28 | 23 | 26 | 11 | 12 |
| Wedi bod ar gyrsiau cyffredinol yn y gweithle e.e. sefydlu, iechyd a diogelwch | 22 | 15 | 30 | 19 | 27 | 19 | 24 | 15 | 11 | 7 |
| Wedi bod ar unrhyw gwrs, hyfforddiant arall a addysgwyd e.e. dosbarthiadau nos | 12 | 10 | 16 | 15 | 14 | 11 | 11 | 10 | 7 | 4 |
| Wedi astudio ar gyfer cymwysterau heb fod ar gwrs a addysgwyd | 4 | 3 | 7 | 6 | 5 | 3 | 3 | 3 | 3 | 1 |
| Wedi derbyn hyfforddiant dan arolygiaeth wrth wneud swydd | 14 | 12 | 16 | 14 | 14 | 13 | 18 | 15 | 8 | 8 |
| Wedi treulio amser yn dysgu am ddatblygiadau, e.e. darllen llyfrau ayb | 21 | 17 | 40 | 35 | 26 | 16 | 16 | 15 | 7 | 8 |

**Tabl 8: Cymryd rhan mewn hyfforddiant neu ddysgu yn ystod y deuddeng mis diwethaf fesul dosbarth cymdeithasol (Parhad)**

| Sylfaen: Pawb | Cyfanswm | | Grŵp dosbarth cymdeithasol | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | AB | | C1 | | C2 | | DE | |
| | 2004 | 2005 | 2004 | 2005 | 2004 | 2005 | 2004 | 2005 | 2004 | 2005 |
| Sylfaen heb ei phwysoli | 1,309 | 1,309 | 232 | 231 | 306 | 314 | 307 | 299 | 464 | 464 |
| Sylfaen wedi'i phwysoli | 1,309 | 1,309 | 271 | 264 | 335 | 347 | 320 | 313 | 383 | 384 |
| | % | % | % | % | % | % | % | % | % | % |
| Unrhyw gwrs neu hyfforddiant arall nas addysgwyd e.e. e-ddysgu | 5 | 7 | 8 | 12 | 5 | 8 | 3 | 6 | 3 | 5 |
| Wedi ennill credyd/cam tuag at gymhwyster | 6 | 6 | 10 | 8 | 8 | 7 | 6 | 9 | 2 | 2 |
| Dim un o'r rhain | 48 | 49 | 33 | 27 | 39 | 47 | 49 | 50 | 67 | 67 |
| Ddim yn gwybod | – | * | – | – | – | * | – | – | – | – |

Nodyn: Cwestiwn amlymateb. Mae * yn dynodi llai na 0.5% ond mwy na sero. Mae – yn dynodi sero.

## 3.5 Crynodeb

Mae ychydig yn llai na hanner yr ymatebwyr (49%) heb ymwneud ag unrhyw fath o ddysgu ers arolwg 2004. Roedd bron i dri o bob deg (29%) o'r rhai a gymerodd ran mewn rhyw fath o ddysgu yn 2004 ddim yn dysgu mwyach yn 2005.

Prif ffocws y dysgu yr ymgymerwyd ag ef oedd dysgu sy'n gysylltiedig â swydd, ond roedd bron i ddau o bob deg (18%) wedi bod ar gwrs a addysgwyd oedd i fod i arwain at gymhwyster. Yn ôl y disgwyl, roedd y rhai dan 55 oed yn arwyddocaol fwy tebygol na'r rhai dros 55 oed o fod wedi ymgymryd â dysgu sy'n gysylltiedig â gwaith.

Ni fu llawer o newid rhwng 2004 a 2005 yn y mathau o ddysgu neu hyfforddiant yr ymgymerodd yr ymatebwyr â nhw. Fodd bynnag, ar y cyfan bu gostyngiad arwyddocaol yn nifer yr ymatebwyr a fynychodd gyrsiau cyffredinol yn y gwaith neu a dreuliodd amser yn dysgu am ddatblygiadau rhwng 2004 a 2005. Roedd gwahaniaethau'n amlwg rhwng isgrwpiau, gyda'r rhai a oedd yn gweithio'n amser llawn a'r rhai yn y grŵp AB yn fwyfwy tebygol o fod yn mynychu cyrsiau a addysgwyd a luniwyd i'w helpu yn eu swydd.





**Tabl 9: Y pynciau a astudiwyd yn y flwyddyn ddiwethaf**

| Sylfaen: Pawb | | Rhyw | | Oedran | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cyfa-nswm | Dynion | Menywod | Dan 24 | 25 – 34 | 35 – 44 | 45 – 54 | 55+ |
| Sylfaen heb ei phwysoli | 446 | 205 | 241 | **69 | **77 | 103 | **96 | 101 |
| Sylfaen wedi'i phwysoli | 490 | 245 | 244 | 90 | 113 | 95 | 87 | 106 |
| | % | % | % | % | % | % | % | % |
| Technoleg gwybodaeth a chyfathrebu | 28 | 32 | 24 | 32 | 30 | 21 | 39 | 21 |
| Iechyd, gwasanaethau cyhoeddus a gofal | 24 | 16 | 33 | 21 | 27 | 32 | 27 | 16 |
| Y celfyddydau, y cyfryngau a chyhoeddi | 8 | 4 | 12 | 5 | 2 | 1 | 4 | 26 |
| Addysg a hyfforddiant | 7 | 4 | 10 | 7 | 15 | 4 | 7 | – |
| Peirianneg a thechnolegau gweithgynhyrchu | 7 | 12 | 1 | 14 | 2 | 7 | 11 | 2 |
| Busnes, gweinyddiaeth a'r gyfraith | 7 | 7 | 7 | 9 | 2 | 8 | 6 | 8 |
| Ieithoedd eraill, llenyddiaeth a diwylliant | 6 | 4 | 7 | 7 | 3 | 6 | 8 | 6 |

Nodyn: Cwestiwn amlymateb. ** sylfaen heb ei phwysoli yn llai na 100. Mae – yn dynodi sero.

Roedd y cymwysterau yr ymgymerwyd â hwy yn amrywio'n fawr, gyda bron i ddau o bob deg (18%) yn ymgymryd ag CGC a rhyw un o bob deg yn ymgymryd â chymhwyster proffesiynol galwedigaethol (12%) neu radd (8%). Fodd bynnag, mae'n werth nodi bod pedwar o bob deg (40%) o'r ymatebwyr a oedd yn ymgymryd â chwrs a oedd yn arwain at gymhwyster heb ennill y cymhwyster hwnnw eto.

Ar y cyfan, mae'r mathau o gymwysterau yr ymgymerwyd â hwy rhwng 2004 a 2005 wedi aros yr un peth, ond bu gostyngiad arwyddocaol yn y nifer sy'n ymgymryd â TGAU (9% o'i gymharu â 4%) ac yn astudio ar gyfer eu trwydded yrru (6% o'i gymharu ag 1%).

## Tabl 10: Math o gymhwyster yn ôl rhyw

| Pawb a wnaeth gwrs a luniwyd i arwain at gymhwyster | Cyfanswm | | Dynion | | Menywod | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2004 | 2005 | 2004 | 2005 | 2004 | 2005 |
| Sylfaen heb ei phwysoli | 261 | 283 | 114 | 129 | 147 | 154 |
| Sylfaen wedi'i phwysoli | 259 | 306 | 127 | 159 | 133 | 147 |
| | % | % | % | % | % | % |
| CGC | 21 | 18 | 22 | 22 | 25 | 14 |
| Cymhwyster proffesiynol galwedigaethol arall | 11 | 12 | 13 | 13 | 9 | 10 |
| Gradd | 10 | 8 | 10 | 6 | 9 | 9 |
| TGAU | 9 | 4 | 9 | 2 | 8 | 5 |
| Safon Uwch | 8 | 4 | 7 | 3 | 8 | 5 |
| Cymhwyster City and Guilds | 8 | 5 | 11 | 7 | 5 | 3 |
| Trwydded Yrru | 6 | 1 | 8 | 1 | 5 | 1 |
| Diploma mewn Addysg Uwch | 5 | 4 | 4 | 5 | 6 | 3 |
| UA | 4 | 2 | 5 | 1 | 2 | 2 |
| Cymhwyster proffesiynol academaidd arall | 4 | 4 | 4 | 2 | 3 | 7 |

Nodyn: Cwestiwn amlymateb. ** sylfaen heb ei phwysoli yn llai na 100. Mae – yn dynodi sero.

# 4 GWEITHGARWCH DYSGU ANFFURFIOL





## 4.1 Cyflwyniad

I'ch atgoffa, at ddibenion yr adroddiad hwn, pennwyd dysgu ffurfiol ac anffurfiol fel a ganlyn:

- Roedd dysgu ffurfiol wedi'i hwyluso, a gallai fod yn y gwaith neu'n ddysgu a ddigwyddodd gyda darparwr, ond y nodweddion gwahaniaethol oedd bod athro/tiwtor/mentor neu aseswr yn cymryd rhan yn y digwyddiad dysgu.
- Roedd dysgu anffurfiol yn sefyllfa lle byddai'r ymatebwr yn helpu ei hun neu'n helpu eraill (plant er enghraifft) i ddysgu. Nid oedd unrhyw rôl sylweddol i athro/tiwtor/mentor neu aseswr.

Mae'r adran hon yn ymchwilio i ddysgu anffurfiol, sef yr ail o'r diffiniadau hyn.

Ceisiodd yr holiadur ymchwilio i'r modd y mae unigolion yn helpu eraill i ymgymryd â dysgu (gofynnwyd i'r ymatebwyr a oeddent wedi ymgymryd â gweithgareddau gyda'u plant a oedd yn gysylltiedig â dysgu) ac a oeddent wedi ceisio gwella'u gwybodaeth eu hunain neu ddysgu sgiliau i'w hunain.

## 4.2 Gweithgareddau a wnaed gyda phlant rhwng tair a saith oed

### 4.2.1 Canfyddiadau: 2005

Gofynnwyd i'r ymatebwyr a chanddynt blant pa weithgareddau, os o gwbl, a wnaethant gyda'u plant rhwng 3 a 7 oed yn y 12 mis diwethaf. Roedd pob ymatebwr ond un wedi gwneud rhai gweithgareddau.

Roedd y mwyafrif helaeth o rieni wedi edrych ar lyfrau/darllen straeon gyda'u plant neu wedi chwarae gyda'u plant (96% a 94% yn y drefn honno). Roedd bron i naw ym mhob deg wedi:

- ei helpu i ddarllen (88%)
- ei helpu wrth dynnu lluniau, paentio neu grefftau (88%)
- ei helpu i adnabod/dysgu am lythrennau, rhifau neu siapiau (86%)

Roedd ychydig yn fwy na tri chwarter wedi helpu eu plentyn gyda gwaith ysgol arall (79%) ac wedi dysgu eu plentyn am fyd natur e.e. drwy ymweld â sw, cefn gwlad neu fferm (78%). Roedd nifer arwyddocaol lai wedi mynd â'u plentyn i amgueddfa, oriel neu adeilad hanesyddol (48%), wedi helpu fel gwirfoddolwr ym meithrinfa, cylch chwarae neu ysgol eu plentyn (25%) neu wedi mynychu cwrs gyda'u plentyn e.e. cwrs llythrennedd (7%).

Roedd gwahaniaethau rhwng y ddau ryw yn amlwg, gyda menywod yn arwyddocaol fwy tebygol na dynion o fod wedi helpu eu plentyn wrth dynnu lluniau, paentio neu grefftau (93% ac 82% yn y drefn honno) ac wedi'u helpu i adnabod neu ddysgu am lythrennau, rhifau neu siapiau (93% a 78% yn y drefn honno).

### 4.2.2 Cymharu'r data: 2004 a 2005

Ar y cyfan, ni fu newid yn y gyfran o ymatebwyr a wnaeth weithgareddau gyda'u plant rhwng 3 a 7 oed o'r naill flwyddyn i'r llall. Fodd bynnag, roedd rhai gwahaniaethau'n amlwg o ran rhyw rhwng 2004 a 2005. Roedd mwyfwy o fenywod wedi gwneud y gweithgareddau canlynol gyda'u plant o'r naill flwyddyn i'r llall:

- edrych ar lyfrau neu ddarllen straeon (94% yn 2004 a 99% yn 2005)
- helpu eu plentyn i adnabod neu ddysgu am lythrennau, rhifau neu siapiau (87% yn 2004 a 93% yn 2005)
- helpu fel gwirfoddolwr ym meithrinfa, cylch chwarae neu ysgol eu plentyn (27% yn 2004 a 31% yn 2005)

Ar y cyfan, ymddengys bod dynion yn llai tebygol o fod wedi gwneud y gweithgareddau canlynol gyda'u plant ar hyd y ddau gam..

- chwarae gyda'u plentyn (97% yn 2004 a 90% yn 2005)

**Tabl 11: Gweithgareddau a wnaed gyda'r plentyn (plant) yn ystod y deuddeng mis diwethaf i ategu ei ddysgu ef/hi (3 – 7), fesul rhyw**

| Sylfaen: Pawb â phlant rhwng 3 a 7 oed | Cyfanswm | | Dynion | | Menywod | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2004 | 2005 | 2004 | 2005 | 2004 | 2005 |
| Sylfaen heb ei phwysoli: | 194 | 201 | **76 | **78 | 118 | 123 |
| Sylfaen wedi'i phwysoli: | 194 | 208 | 94 | 97 | 101 | 111 |
| | % | % | % | % | % | % |
| Wedi chwarae gydag ef/hi | 97 | 94 | 97 | 90 | 97 | 97 |
| Wedi edrych ar lyfrau neu ddarllen straeon iddo/i | 95 | 96 | 96 | 93 | 94 | 99 |
| Wedi ei helpu with dynnu lluniau, paentio neu waith crefft | 91 | 88 | 92 | 82 | 90 | 93 |
| Wedi ei helpu i ddarllen | 86 | 88 | 87 | 87 | 85 | 89 |
| Wedi ei helpu i adnabod/ dysgu am lythrennau, rhifau neu siapiau | 87 | 86 | 87 | 78 | 87 | 93 |
| Wedi ei (d)dysgu am fyd natur e.e. drwy ymweld â sw, cefn gwlad neu fferm | 81 | 78 | 79 | 75 | 83 | 81 |
| Wedi ei helpu gyda gwaith ysgol arall | 81 | 79 | 84 | 77 | 79 | 82 |
| Wedi mynd ag ef/hi i amgueddfa, oriel neu adeilad hanesyddol | 45 | 48 | 47 | 49 | 44 | 46 |
| Wedi helpu fel gwirfoddolwr yn ei f/meithrinfa, cylch chwarae neu ysgol | 22 | 25 | 17 | 18 | 27 | 31 |
| Wedi mynychu cwrs gydag ef/hi e.e. llythrennedd | 5 | 7 | 1 | 4 | 8 | 9 |
| Arall | 1 | – | – | – | 2 | – |
| Dim un o'r rhain | 1 | * | – | – | 1 | 1 |

Nodyn: Cwestiwn amlymateb. Mae * yn dynodi llai na 0.5% ond mwy na sero. Mae – yn dynodi sero
Mae ** yn dynodi sylfaen fach (sylfaen heb ei phwysoli yn llai na 100). Ni chynhwyswyd 'ddim yn gwybod' yn y tabl



- helpu eu plentyn wrth dynnu lluniau, paentio neu grefftau (92% yn 2004 ac 82% yn 2005)
- helpu eu plentyn i adnabod/dysgu am lythrennau, rhifau neu siapiau (87% yn 2004 a 78% yn 2005)
- helpu eu plentyn gyda gwaith ysgol arall (84% 2004 a 77% yn 2005)
- dysgu eu plentyn am fyd natur (79% yn 2004 a 75% yn 2005)

### 4.2.3 Gweithgareddau yr hoffai rhieni wneud mwy ohonyn nhw (data 2005 yn unig)

Gofynnwyd i ymatebwyr a chanddynt blant rhwng 3 a 7 oed ac a oedd wedi gwneud un neu fwy o'r gweithgareddau gyda nhw, pa rai o'r gweithgareddau, os o gwbl, yr hoffent wneud mwy ohonynt. Dywedodd bron i ddau o bob deg (19%) na hoffent wneud mwy o'r un o'r gweithgareddau a grybwyllwyd. Fodd bynnag, roedd rhyw bedwar o bob deg am wneud mwy o'r canlynol:

- dysgu'u plentyn am fyd natur (46%)
- helpu eu plentyn i ddarllen (46%)
- edrych ar lyfrau neu ddarllen straeon i'w plentyn (45%)
- chwarae gydag ef/hi (45%)
- helpu eu plentyn wrth dynnu lluniau, paentio neu grefftau (40%)
- helpu eu plentyn i adnabod/dysgu am lythrennau, rhifau neu siapiau (39%)
- helpu eu plentyn gyda gwaith ysgol arall (38%)

Roedd nifer arwyddocaol is am fynd â'u plentyn i amgueddfa, oriel neu adeilad hanesyddol yn amlach (26%) neu wirfoddoli ym meithrinfa, cylch chwarae neu ysgol eu plentyn yn amlach (14%). Roedd menywod (19%) yn arwyddocaol fwy tebygol na dynion (8%) o ddymuno gwirfoddoli ym meithrinfa, cylch chwarae neu ysgol eu plentyn yn amlach.

Gofynnwyd i'r rhieni a nododd yr hoffent wneud mwy o weithgareddau gyda'u plentyn 3 – 7 oed beth oedd yn eu hatal rhag gwneud mwy o'r mathau hyn o weithgareddau. Nododd ychydig yn fwy nag un o bob tri (34%) nad oedd unrhyw beth yn eu hatal rhag gwneud mwy, ond nododd nifer debyg (35%) fod ganddynt ormod o ymrwymiadau eraill yn y gwaith. Roedd dynion (46%) yn arwyddocaol fwy tebygol na menywod (24%) o nodi bod gormod o ymrwymiadau yn y gwaith yn rheswm dros beidio â gwneud rhagor o weithgareddau gyda'u plant.

Ymhlith y rhesymau eraill a roddwyd gan o leiaf 5% o'r ymatebwyr roedd:

- mae gen i ormod o gyfrifoldebau gartref (25%)
- mae'n rhy ddrud (13%)
- dim llawer o leoedd i ymweld â nhw (7%)
- does gan y plentyn/plant fawr o ddiddordeb (6%)
- mae angen i mi wybod mwy fy hun am y gweithgareddau hyn (5%)

## 4.3 Gweithgareddau a wnaed gyda phlant wyth oed a throsodd

### 4.3.1 Canfyddiadau: 2005

Gofynnwyd i rieni a chanddynt blant 8 oed neu'n hŷn yn y cartref a wnaethant unrhyw rai o'r gweithgareddau mewn rhestr benodol yn y 12 mis diwethaf i gefnogi dysgu eu plentyn. Lleiafrif (6%) oedd heb wneud yr un o'r gweithgareddau a grybwyllwyd gyda'u plentyn. Fodd bynnag, roedd dros chwech o bob deg wedi:

- helpu eu plentyn gyda'u gwaith ysgol (82%)
- trafod y newyddion neu raglen ddogfen gyda'u plentyn (70%)
- helpu eu plentyn i chwilio am wybodaeth ar gyfrifiadur neu ar y rhyngrwyd (67%)
- helpu eu plentyn i ddarllen neu gyfeirio at lyfrau, cylchgronau neu bapurau newydd (63%)

## Tabl 12: Gweithgareddau a wnaed gyda'r plentyn (plant) yn ystod y deuddeng mis diwethaf i ategu ei ddysgu ef/hi (8+), fesul rhyw

| Sylfaen: Pawb a chanddynt blant 8 oed a throsodd | Cyfanswm | | Dynion | | Menywod | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2004 | 2005 | 2004 | 2005 | 2004 | 2005 |
| Sylfaen heb ei phwysoli | 337 | 332 | 133 | 131 | 204 | 201 |
| Sylfaen wedi'i phwysoli | 320 | 310 | 157 | 148 | 163 | 162 |
| | % | % | % | % | % | % |
| Wedi mynychu digwyddiad chwaraeon gydag ef/hi | 59 | 56 | 56 | 59 | 62 | 53 |
| Wedi mynd ag ef/hi i amgueddfa, oriel neu adeilad hanesyddol | 47 | 52 | 46 | 52 | 47 | 52 |
| Wedi trafod y newyddion neu raglen ddogfen gydag ef/hi | 63 | 70 | 54 | 63 | 71 | 75 |
| Wedi trafod crefydd gydag ef/hi | 47 | 47 | 43 | 43 | 52 | 50 |
| Wedi ei helpu i ddarllen neu gyfeirio at lyfrau, cylchgronau neu bapurau newydd | 64 | 63 | 58 | 59 | 70 | 67 |
| Wedi ei helpu i chwilio am wybodaeth ar gyfrifiadur neu'r rhyngrwyd | 60 | 67 | 59 | 68 | 60 | 65 |
| Wedi ei helpu gyda gwaith ysgol | 80 | 82 | 78 | 82 | 82 | 82 |
| Wedi helpu fel gwirfoddolwr yn ei (h)ysgol | 18 | 15 | 14 | 12 | 23 | 18 |
| Wedi mynychu cwrs gydag ef/hi e.e. cwrs llythrennedd | 6 | 2 | 7 | 2 | 4 | 2 |
| Wedi rhoi cyngor iddo/i ynghylch opsiynau dysgu neu swydd | 39 | 39 | 36 | 37 | 41 | 40 |
| Arall | 1 | – | 1 | – | 1 | – |
| Ddim yn gwybod | * | 1 | – | 1 | 1 | – |
| Dim un o'r rhain | 8 | 6 | 9 | 7 | 7 | 5 |

Nodyn: Cwestiwn amlymateb. Mae * yn dynodi llai na 0.5% ond mwy na sero. Mae – yn dynodi sero.





Roedd rhyw hanner wedi mynychu digwyddiad chwaraeon gyda'u plentyn (56%), wedi mynd â nhw i amgueddfa, oriel neu adeilad hanesyddol (52%) neu wedi trafod crefydd gyda'u plentyn (47%). Roedd llai wedi rhoi cyngor i'w plentyn ynghylch dysgu, hyfforddiant neu ddewisiadau o ran swydd (39%), wedi helpu fel gwirfoddolwr yn ysgol eu plentyn (15%) neu wedi mynychu cwrs gyda'u plentyn (2%).

Ar y cyfan, roedd y sylfeini'n rhy fach i gymharu ar draws y mwyafrif o isgrwpiau, ond roedd menywod (75%) yn arwyddocaol fwy tebygol na dynion (63%) o fod wedi trafod y newyddion neu raglen ddogfen gyda'u plentyn. Yn yr un modd, roedd y rhai yng ngrŵp dosbarth cymdeithasol AB (90%) yn arwyddocaol fwy tebygol o fod wedi trafod y newyddion neu raglen ddogfen na'r rhai yng ngrŵp C1 (71%), C2 (65%) a DE (58%).

### 4.3.2 Cymharu'r data: 2004 a 2005

Bu rhai codiadau arwyddocaol yng ngweithgarwch rhieni gyda phlant rhwng 8 a 17 oed rhwng 2004 a 2005. Ar y cyfan, roedd y gyfran o rieni yn y panel a helpai eu plentyn wedi codi rhwng 2004 a 2005 yn y gweithgareddau canlynol:

- helpu eu plentyn i chwilio am wybodaeth ar gyfrifiadur neu ar y rhyngrwyd (60% a 67% yn y drefn honno)
- mynd â'u plentyn i amgueddfa, oriel neu adeilad hanesyddol (47% a 52% yn y drefn honno)

Fodd bynnag, bu gostyngiad yn y ganran o rieni a fynychodd gwrs gyda'u plentyn, e.e. cwrs llythrennedd (6% a 2% yn y drefn honno).

Pan ddadansoddwyd y data yn ôl rhyw, gwelwyd gwahaniaethau arwyddocaol.

- Roedd y ganran o ddynion yn helpu eu plentyn gyda'u gwaith ysgol wedi codi o ychydig o dan wyth o bob deg (78%) yn 2004 i dros wyth o bob deg (82%) yn 2005. Mae hyn yn eu cysoni â nifer y menywod (82%) sy'n helpu eu plant yn y ffordd hon.
- Mae nifer y menywod sy'n mynychu digwyddiad chwaraeon gyda'u plentyn wedi gostwng o ychydig yn fwy na chwech o bob deg (62%) yn 2004 i ychydig dros hanner (53%) yn 2005.
- Hefyd, yn 2005 mae menywod (18%) yn llai tebygol o helpu fel gwirfoddolwr yn ysgol eu plentyn nag oeddent yn 2004 (23%).

### 4.3.3 Y gweithgareddau yr hoffai rhieni wneud rhagor ohonynt (2005 data yn unig)

Yn 2005, gofynnwyd i rieni plant rhwng 8 a 17 oed pa rai o'r gweithgareddau, os o gwbl, yr hoffent wneud mwy ohonynt. Nododd ychydig yn fwy na chwarter (27%) nad oeddent am wneud mwy o'r un o'r gweithgareddau a grybwyllwyd. Fodd bynnag, byddai rhwng dau a phedwar o bob deg wedi hoffi gwneud mwy o'r canlynol:

- helpu eu plentyn gyda gwaith ysgol (38%)
- helpu eu plentyn i chwilio am wybodaeth ar gyfrifiadur neu'r rhyngrwyd (32%)
- mynychu digwyddiad chwaraeon gyda'u plentyn (26%)
- trafod y newyddion neu raglen ddogfen gyda'u plentyn (26%)
- mynd â'u plentyn i amgueddfa, oriel neu adeilad hanesyddol (26%)
- helpu eu plentyn i ddarllen, cyfeirio at lyfrau, cylchgronau neu bapurau newydd (24%)

Roedd llai na dau o bob deg am roi cyngor i'w plentyn ynghylch dysgu, hyfforddiant neu opsiynau swydd (17%), trafod crefydd gydag ef/hi (15%), helpu fel gwirfoddolwr yn ysgol eu plentyn (5%) neu fynychu cwrs gyda'u plentyn (2%) yn amlach nag y gwnaethant adeg y cyfweliad.

**Tabl 13: Yn ystod y pedair wythnos ddiwethaf, ydych chi wedi gwneud ymgais i wella'ch gwybodaeth am unrhyw beth neu i ddysgu sgil i chi eich hun heb gymryd rhan mewn cwrs wedi'i addysgu (2005)? Yn ôl rhyw, statws gwaith a dosbarth cymdeithasol**

| Sylfaen: yr holl ymatebwyr | Sylfaen heb ei phwysoli | Sylfaen wedi'i phwysoli | Ydw | Nac | Ddim yn gwybod |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | % | % | % |
| Cyfanswm | 1,309 | 1,309 | 42 | 58 | * |
| Rhyw | | | | | |
| Dynion | 614 | 658 | 46 | 54 | * |
| Menywod | 694 | 650 | 38 | 62 | * |
| Statws gwaith | | | | | |
| Gweithio'n amser llawn | 406 | 497 | 48 | 52 | * |
| Gweithio'n rhan-amser | 147 | 159 | 37 | 63 | – |
| Hunangyflogedig | **77 | 91 | 50 | 50 | – |
| Ddim yn gweithio | 277 | 203 | 37 | 62 | 1 |
| Wedi ymddeol | 345 | 300 | 32 | 68 | – |
| Dosbarth cymdeithasol | | | | | |
| AB | 231 | 264 | 64 | 36 | – |
| C1 | 314 | 347 | 41 | 59 | – |
| C2 | 299 | 313 | 39 | 60 | 1 |
| DE | 464 | 384 | 30 | 70 | * |

Nodyn: Cwestiwn un ymateb. Mae * yn dynodi llai na 0.5% ond mwy na sero. Mae – yn dynodi sero.
** sylfaen fach (sylfaen heb ei phwysoli yn llai na 100)





Eto, roedd gwahaniaethau'n amlwg o ran rhyw, gyda dynion yn debycach o eisiau gwneud mwy o'r gweithgareddau canlynol na menywod:

- helpu eu plentyn gyda gwaith ysgol (45% o ddynion a 31% o fenywod)
- helpu eu plentyn i chwilio am wybodaeth ar gyfrifiadur neu'r rhyngrwyd (39% a 26% yn y drefn honno)
- mynychu digwyddiad chwaraeon gydag ef/hi (33% ac 20% yn y drefn honno)

Gofynnwyd i rieni a chanddynt blant 8 oed neu'n hŷn ac a oedd am wneud mwy o weithgareddau beth sy'n eu hatal rhag gwneud hynny. Nododd chwarter (24%) nad oedd dim yn eu hatal. Fodd bynnag, nododd bron i bedwar o bob deg (39%) fod gormod o ymrwymiadau eraill yn y gwaith yn rheswm; nododd swm tebyg (32%) fod gormod o ymrwymiadau yn y cartref. Dywedodd un o bob deg arall ei fod yn rhy ddrud (12%) neu nad oedd diddordeb gan eu plant (12%).

Mae'n werth nodi bod menywod (42%) yn arwyddocaol fwy tebygol na dynion (21%) o nodi bod ganddynt ormod o ymrwymiadau yn y cartref. I'r gwrthwyneb, roedd dynion (47%) yn arwyddocaol fwy tebygol na menywod (31%) o nodi bod ganddynt ormod o ymrwymiadau eraill yn y gwaith.

## 4.4 Gwella gwybodaeth/addysgu sgil newydd i'ch hun (data 2005 yn unig)

### 4.4.1 Canfyddiadau: 2005

Gofynnwyd i'r holl ymatebwyr 'yn ystod y pedair wythnos diwethaf, ydych chi wedi gwneud ymgais i wella'ch gwybodaeth am unrhyw beth neu i ddysgu sgil i chi eich hun heb gymryd rhan mewn cwrs wedi'i addysgu?'. Roedd ychydig yn fwy na phedwar o bob deg (42%) wedi gwneud. Mae'n werth nodi bod dynion (46%) a naill ai'r rhai mewn galwedigaethau proffesiynol (67%) neu reolwyr/galwedigaethau proffesiynol/technegol cysylltiol (62%) yn arwyddocaol fwy tebygol o fod wedi gwneud nag eraill. Yr ymatebwyr a oedd wedi ymddeol (68%) a'r rhai yng ngrŵp dosbarth cymdeithasol DE (70%) oedd leiaf tebygol o fod wedi gwneud y math hwn o ddysgu yn y pedair wythnos diwethaf.

Gofynnwyd i ymatebwyr a oedd wedi ceisio gwella'u gwybodaeth neu ddysgu sgil newydd iddynt eu hunain heb gymryd rhan mewn cwrs beth roeddent yn ei wneud fel rhan o'u dysgu. Roedd dros hanner naill ai wedi darllen deunydd printiedig fel llyfrau, cyfnodolion neu lawlyfrau (78%) neu wedi defnyddio gwybodaeth o'r Rhyngrwyd (51%).

Roedd dros ddau o bob deg wedi dysgu sgiliau newydd drwy:

- profi a methu/arbrofi (28%)
- ceisio cyngor/cymorth gan gydweithwyr (26%)
- gwylio rhaglenni teledu, fideos neu ddefnyddio CD ROM (24%)
- ymweld â rhywle lle darperir gwybodaeth, fel llyfrgell (22%)

Pan ystyriwyd demograffeg allweddol, daeth gwahaniaethau arwyddocaol i'r amlwg:

- Roedd menywod (29%) yn arwyddocaol fwy tebygol na dynion (16%) o fod wedi ymweld â rhywle lle darperir gwybodaeth, fel llyfrgell.
- Roedd ymatebwyr dan 55 oed yn arwyddocaol fwy tebygol na'r rhai dros 55 oed o ddefnyddio gwybodaeth ar y Rhyngrwyd (64% a 32% yn y drefn honno) neu o geisio cyngor neu gymorth gan gydweithiwr (30% a 17% yn y drefn honno).
- Y rhai a oedd wedi ymddeol oedd leiaf tebygol o fod wedi defnyddio gwybodaeth o'r Rhyngrwyd (24%).

Gofynnwyd y cwestiynau hyn yn 2004, ond oherwydd y newidiwyd geiriad y cwestiwn, ni ddylid cymharu'r canlyniadau'n uniongyrchol.

## 4.5 Crynodeb

Ar y cyfan, ni fu newid yn lefel a mathau'r gweithgareddau a wnaed gyda phlant rhwng 3 a 7 oed rhwng 2004 a 2005. Fodd bynnag, roedd rhieni'n llai tebygol o fod yn helpu eu plant wrth dynnu lluniau, paentio neu grefftau yn 2005. O ystyried rhyw, ar y cyfan roedd mwy o fenywod yn gwneud gweithgareddau fel darllen straeon/edrych ar lyfrau, helpu eu plant i adnabod neu ddysgu am lythrennau, rhifau neu siapiau neu'n helpu fel gwirfoddolwr ym meithrinfa, cylch chwarae neu ysgol eu plant. I'r gwrthwyneb, roedd nifer y dynion a wnâi rhai gweithgareddau wedi gostwng; roedd canran is o ddynion yn chwarae gyda'u plant, yn eu helpu wrth dynnu lluniau, paentio neu grefftau, i adnabod/dysgu am lythrennau, rhifau neu siapiau, yn eu helpu gyda gwaith ysgol, neu'n dysgu eu plant am fyd natur.

Gofynnwyd i rieni a hoffent wneud mwy o'r gweithgareddau hyn gyda'u plant:

### Pa gyfran o rieni?

Roedd bron i ddau o bob deg (19%) ddim am wneud ond roedd y mwyafrif am wneud.

### Pa fathau o ddysgu?

Byddai dros bedwar o bob deg wedi hoffi dysgu'u plant am fyd natur (46%), helpu eu plant i ddarllen (46%), edrych ar lyfrau neu ddarllen straeon i'w plant (45%), chwarae gyda nhw (45%) neu eu helpu gyda thynnu lluniau, paentio neu grefftau (40%).

### Rhwystrau

Dywedodd dros draean (34%) nad oedd unrhyw beth yn eu hatal rhag gwneud mwy o'r gweithgareddau hyn, ond nododd nifer debyg (35%) fod ymrwymiadau yn y gwaith yn rhwystr.

Os ystyriwn nawr y rhai a chanddynt blant rhwng 8 a 17 oed, roedd canran fwy o rieni nag yng Ngham I yn helpu eu plant i chwilio am wybodaeth ar gyfrifiadur (60% yn 2004 a 67% yn 2005) neu'n mynd â'u plentyn i amgueddfa, oriel neu adeilad hanesyddol (47% yn 2004 and 52% yn 2005). Roedd parodrwydd i gyfranogi mewn mwy o ddysgu gyda phlant 8 oed a throsodd ac i hwyluso hynny:

### Pa ganran o rieni?

Pan ofynnwyd i rieni a hoffent wneud mwy o unrhyw rai o'r gweithgareddau hyn, roedd dros chwarter (27%) ddim am wneud ond roedd y mwyafrif am wneud.

### Pa fathau o ddysgu?

Roedd dros dri o bob deg naill ai am helpu eu plentyn gyda gwaith ysgol (38%) neu helpu eu plentyn i chwilio am wybodaeth ar gyfrifiadur neu'r rhyngrwyd (32%). Roedd dynion yn arbennig o debygol o nodi yr hoffent wneud mwy o'r gweithgareddau hyn.

### Rhwystrau

Eto, pan ofynnwyd i rieni beth oedd yn eu hatal rhag gwneud mwy o'r gweithgareddau hyn gyda'u plant, nododd cyfran sylweddol (24%) nad oedd dim yn eu hatal. Fodd bynnag, ymrwymiadau yn y gwaith (39%) a'r cartref (32%) oedd y rhwystrau mwyaf.

Mae'n ddiddorol cymharu oedran plant ymysg y rhai a hoffai wneud mwy o weithgareddau. Er bod ychydig dros draean (34%) o'r rhai a chanddynt blant 3 – 7 oed wedi dweud nad oedd dim yn eu hatal rhag gwneud mwy, gostyngodd hyn i ychydig dros chwarter (27%) yn achos y rhai â phlant hŷn. Roedd ymrwymiadau yn y gwaith a'r cartref yn rhwystr mwy sylweddol i'r rhai â phlant hŷn. Mae diffyg amser ymysg yr ymatebwyr i'w roi i ddysgu neu i unrhyw orchwyl arall yn thema sy'n codi'n aml drwy gydol yr adroddiad hwn.

O ran yr ymatebwyr yn gwella'u gwybodaeth eu hunain neu'n dysgu sgil newydd i'w hunain, dim ond pedwar o bob deg (42%) oedd wedi gwneud hynny yn y pedair wythnos diwethaf. Y prif ffyrdd o ddysgu eu hunain oedd darllen deunydd printiedig fel llyfrau, cyfnodolion neu lawlyfrau (78%) neu drwy wybodaeth o'r Rhyngrwyd (51%).

# 5 CYFLEOEDD DYSGU YN Y GWAITH





## 5.1 Cyflwyniad

Yn y ddau gam, archwiliodd yr holiadur, ymysg ymatebwyr a oedd wedi'u cyflogi ar y pryd, agweddau tuag at eu cyflogwr a'r amgylchedd dysgu roeddent yn gweithio ynddo.
Mae'r adran hon yn ymchwilio i'r newidiadau mewn agweddau tuag at gyfleoedd dysgu yn y gweithle o'r naill flwyddyn i'r llall.

## 5.2 Canfyddiadau: 2005

Dangosodd canlyniadau arolwg 2005 fod y mwyafrif o ymatebwyr (67%) yn teimlo eu bod yn cael cymaint o hyfforddiant ag sydd ei angen i'w swydd bresennol. Teimlai bron i ddwy ran o dair fod eu cyflogwr yn eu gwerthfawrogi (66%) ac roedd ychydig yn llai yn cytuno (58%) bod ganddynt amrywiaeth eang o gyfleoedd i ddysgu. Fodd bynnag, roedd cyfran sylweddol o ymatebwyr a oedd yn anfodlon na châi eu potensial ei werthfawrogi (dywedodd 40% nad oedd eu swydd bresennol yn manteisio ar eu galluoedd a'u rhinweddau personol, ac roedd 33% yn cytuno na chânt gyfle i ddatblygu).
Dywedodd ychydig yn fwy na thri o bob deg o'r ymatebwyr (32%) na chaiff pobl yn eu swyddogaeth nhw gynnig llawer o hyfforddiant.

**Tabl 14: Cyfleoedd i ddysgu yn y gwaith (2005) % sy'n cytuno â'r datganiadau**

| | Cyfanswm |
|---|---|
| Sylfaen heb ei phwysoli: Pawb sy'n gweithio ac eithrio'r hunangyflogedig | 561 |
| Sylfaen wedi'i phwysoli: Pawb sy'n gweithio ac eithrio'r hunangyflogedig | 665 |
| | % |
| Rydw i'n derbyn cymaint o hyfforddiant ag sydd ei angen i'm swydd bresennol* | 67 |
| Rydw i'n teimlo bod fy nghyflogwr yn fy ngwerthfawrogi | 66 |
| Mae gen i amrywiaeth eang o gyfleoedd i ddysgu, nid yn unig rhai sy'n uniongyrchol berthnasol i'm swydd bresennol* | 58 |
| Rydw i'n teimlo nad yw fy swydd bresennol yn gwneud y gorau o'm galluoedd a'm rhinweddau personol | 40 |
| Dydy pobl yn fy swyddogaeth i ddim yn cael llawer o gyfle i ddatblygu | 33 |
| Dydy pobl yn fy swyddogaeth i ddim yn cael cynnig llawer o hyfforddiant | 32 |

Nodyn: Un ymateb (lefel cytundeb) i bob datganiad. Ni chynhwyswyd 'ddim yn gwybod' yn y tabl. * Holwyd pawb sy'n gweithio ynghylch y datganiadau hyn, gan gynnwys yr hunangyflogedig ond ac eithrio'r rhai ar gynllun hyfforddi llywodraeth leol (sylfaen wedi'i phwysoli 756)

Mae'n ddiddorol edrych ar y berthynas rhwng rhai o'r datganiadau uchod a thrwy ddadansoddi'r datganiadau ar y cyd, dangosir y bydd teimlad y caiff rhywun ei g/werthfawrogi gan gyflogwr, ar y cyfan, yn cyd-fynd ag agweddau cadarnhaol tuag at gyfleoedd dysgu a gyflwynir yn y gwaith. O'r rhai a gytunodd fod eu cyflogwr yn eu gwerthfawrogi, roedd cyfran uwch yn gadarnhaol ynghylch yr holl ddatganiadau eraill:

- Roedd chwech o bob deg (60%) o'r farn bod ganddynt amrywiaeth eang o gyfleoedd o'i gymharu â thros hanner (54%) y rhai nad oeddent yn teimlo y cânt eu gwerthfawrogi.
- Teimlai un o bob tri (34%) nad oedd eu swydd yn gwneud y gorau o'u galluoedd a'u rhinweddau personol, o'i gymharu â hanner (49%) y rhai nad oeddent yn teimlo y cânt eu gwerthfawrogi.
- Roedd dros chwarter (27%) yn cytuno nad oedd ganddynt gyfle i ddatblygu, o'i gymharu â bron i bedwar o bob deg (38%) o'r rhai nad oeddent yn teimlo y cânt eu gwerthfawrogi.
- Roedd dros chwarter (28%) yn cytuno na chânt lawer o hyfforddiant o'i gymharu â thros un o bob tri (35%) o'r rhai nad oeddent yn teimlo y cânt eu gwerthfawrogi.

**Tabl 15: Cysylltiadau rhwng teimlo y caiff rhywun eu gwerthfawrogi a chyfleoedd eraill yn y gwaith (2005) % sy'n cytuno â'r datganiadau.**

| | Rydw i'n teimlo bod fy nghyflogwr yn fy ngwerthfawrogi (cytuno) | Rydw i'n teimlo bod fy nghyflogwr yn fy ngwerthfawrogi (anghytuno) |
|---|---|---|
| Sylfaen wedi'i phwysoli: Pawb sy'n gweithio/hunangyflogedig | 438 | 185 |
| | % | % |
| Mae gen i amrywiaeth eang o gyfleoedd i ddysgu, nid yn unig rhai sy'n uniongyrchol berthnasol i'm swydd bresennol (cytuno) | 60 | 54 |
| Rydw i'n teimlo nad yw fy swydd bresennol yn gwneud y gorau o'm galluoedd a'm rhinweddau personol (cytuno) | 34 | 49 |
| Dydy pobl yn fy swyddogaeth i ddim yn cael llawer o gyfle i ddatblygu (cytuno) | 27 | 38 |
| Dydy pobl yn fy swyddogaeth i ddim yn cael cynnig llawer o hyfforddiant (cytuno) | 28 | 35 |

Nodyn: Un ymateb (lefel cytundeb) i bob datganiad. Nid yw 'ddim yn gwybod' wedi'i gynnwys yn y tabl.





Roedd agweddau'r ymatebwyr a oedd yn cytuno y cânt ddigon o hyfforddiant yn fwy tueddol o fod yn gadarnhaol tuag at gyfleoedd dysgu a gyflwynir yn y gwaith. O'r rhai a oedd yn cytuno y cânt ddigon o hyfforddiant, roedd cyfran uwch yn gadarnhaol ynghylch y datganiadau eraill:

- Roedd dau o bob tri (65%) o'r farn bod ganddynt amrywiaeth eang o gyfleoedd o'i gymharu ag ychydig o dan hanner (46%) o'r rhai na chânt ddigon o hyfforddiant.
- Teimlai un o bob tri (32%) nad oedd eu swydd yn gwneud y gorau o'u galluoedd a'u rhinweddau personol o'i gymharu â bron i ddau o bob tri (63%) o'r rhai na chânt ddigon o hyfforddiant.
- Roedd chwarter (25%) yn cytuno na chânt gyfle i ddatblygu, o'i gymharu â bron i chwech o bob deg (58%) o'r rhai na chânt ddigon o hyfforddiant.
- Roedd bron i ddau o bob deg (19%) yn cytuno na chânt lawer o hyfforddiant, o'i gymharu â dau o bob tri (66%) o'r rhai na chânt ddigon o hyfforddiant.

Wedi dweud hynny, mae'n bwysig nodi nad yw derbyn cymaint o hyfforddiant ag sydd ei angen am swydd bresennol bob tro'n golygu bod gweithwyr yn teimlo y cânt *ddigon* o hyfforddiant. Fel y nodwyd uchod, roedd un o bob pump (19%) o'r ymatebwyr yn teimlo y cânt gymaint o hyfforddiant ag sydd ei angen am eu swydd, ond roeddent *hefyd* yn cytuno nad oedd pobl yn eu swyddogaeth nhw yn cael llawer o hyfforddiant. Lleiafrif arwyddocaol yw'r rhain.

**Tabl 16: Cysylltiadau rhwng derbyn cymaint o hyfforddiant ag sydd ei angen a chyfleoedd eraill yn y gwaith (2005) % sy'n cytuno**

| | Rydw i'n derbyn cymaint o hyfforddiant ag sydd ei angen i'm swydd bresennol (cytuno) | Rydw i'n derbyn cymaint o hyfforddiant ag sydd ei angen i'm swydd bresennol (anghytuno) |
|---|---|---|
| Sylfaen wedi'i phwysoli: Pawb sy'n gweithio/hunangyflogedig | 453 | 133 |
| | % | % |
| Mae gen i amrywiaeth eang o gyfleoedd i ddysgu, nid yn unig rhai sy'n uniongyrchol berthnasol i'm swydd bresennol (cytuno) | 65 | 46 |
| Rydw i'n teimlo nad yw fy swydd bresennol yn gwneud y gorau o'm galluoedd a'm rhinweddau personol (cytuno) | 32 | 63 |
| Dydy pobl yn fy swyddogaeth i ddim yn cael llawer o gyfle i ddatblygu (cytuno) | 25 | 58 |
| Dydy pobl yn fy swyddogaeth i ddim yn cael cynnig llawer o hyfforddiant (cytuno) | 19 | 66 |

Nodyn: Un ymateb (lefel cytundeb) i bob datganiad. Nid yw 'ddim yn gwybod' wedi'i gynnwys yn y tabl.

Pan ddadansoddwyd y data yn ôl newidynnau demograffig allweddol roedd rhai gwahaniaethau arwyddocaol i dynnu sylw atynt:

- Roedd dynion yn arwyddocaol fwy tebygol na menywod o gytuno nad oedd eu swydd bresennol yn gwneud y gorau o'u galluoedd (46% o'i gymharu â 33%).
- Roedd bron i wyth o bob deg (77%) o'r rhai dan 24 oed yn cytuno eu bod yn cael cymaint o hyfforddiant ag sydd ei angen i'w swydd, ac roedd cyfran debyg (72%) yn teimlo bod eu cyflogwr yn eu gwerthfawrogi. Roedd bron i ddau o bob tri (65%) yn teimlo bod ganddynt amrywiaeth eang o gyfleoedd. Gydag ychydig yn fwy na hanner (51%) yn teimlo nad oedd y swydd yn gwneud y gorau o'u galluoedd, roedd yna graidd sylweddol a gredai nad oedd eu potensial llawn yn cael ei gyflawni.

Er bod yr ymatebwyr a oedd yn gyflogedig yn rhan-amser yn arwyddocaol fwy negyddol tuag at faint o hyfforddiant a gynigir yn y gwaith, mae'n ddiddorol nodi bod eu hymatebion yn debyg i'r rheiny a gyflogir yn amser llawn yn achos yr holl ddatganiadau eraill. Roedd grŵp dosbarth cymdeithasol DE yn debycach na'r holl grwpiau eraill o gytuno â sawl datganiad:

- rydw i'n teimlo nad yw fy swydd bresennol yn gwneud y gorau o'm galluoedd a'm rhinweddau personol
- dydy pobl yn fy swyddogaeth i ddim yn cael llawer o gyfle i ddatblygu
- dydy pobl yn fy swyddogaeth i ddim yn cael cynnig llawer o hyfforddiant

O edrych ar y data yn ôl galwedigaeth, ac eithrio'r lefel cytundeb uchel â'r datganiad 'Rydw i'n derbyn cymaint o hyfforddiant ag sydd ei angen i'm swydd bresennol', roedd gweithwyr lled-fedrus/gweithredwyr yn fwy negyddol yn eu hymatebion. Roedd y gwahaniaethau rhwng eu hymatebion nhw a grwpiau eraill fwyaf nodedig yn achos:

- Bod ag amrywiaeth eang o gyfleoedd (dim ond 52% a gytunodd â'r datganiad hwn o'i gymharu â 66% o'r grŵp proffesiynol).
- Teimlo nad oedd eu swydd yn gwneud y gorau o'u galluoedd (roedd 57% yn cytuno â'r datganiad hwn o'i gymharu â 29% o'r grŵp proffesiynol).
- Na chaiff pobl yn eu swyddogaeth nhw gynnig llawer o hyfforddiant (roedd 45% yn cytuno â hyn o'i gymharu â 26% yn y grŵp proffesiynol).

Yr ymatebwyr yn y categori ar gyfer gweithwyr lled-fedrus/gweithredwyr oedd yr unig ymatebwyr a roddodd lefel cytundeb gymharol isel i'r datganiad a oedd yn ymwneud â'r cyflogwr yn eu gwerthfawrogi (52% o'i gymharu ag o leiaf 63% ymysg yr holl grwpiau eraill).

### 5.2.1 Cymharu'r data: 2004 a 2005

Y datganiad ynglŷn â chyfleoedd i ddysgu yn y gwaith a gafodd ymateb mwy cadarnhaol eleni oedd 'mae fy nghyflogwr yn fy ngwerthfawrogi' (63% 2004 yn a 66% yn 2005).

Roedd yr ymatebwyr yn fwy tueddol (er nid yn arwyddocaol felly) o anghytuno â'r datganiadau negyddol.

Roedd y cwestiwn yn cynnwys cyfres o ddatganiadau cadarnhaol a negyddol. Pe bai'r sefyllfa'n gwella o'r naill flwyddyn i'r llall, byddai'r gyfran o ymatebwyr sy'n cytuno â'r datganiadau sy'n canmol y cyflogwr yn aros yr un peth neu'n cynyddu. Byddai'r gwrthwyneb yn wir am y datganiadau negyddol; pe bai'r sefyllfa yn y gwaith yn gwella, yna dylai'r gyfran o ymatebwyr sy'n cytuno â'r datganiadau hyn ostwng.

Yn achos y datganiadau cadarnhaol, roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr a oedd yn cytuno y llynedd yn dal i wneud:

- Roedd dau o bob tri o'r ymatebwyr (63%) yn cytuno bod eu cyflogwr yn eu gwerthfawrogi yn 2004 ac roedd cyfran debyg (66%) yn cytuno yn 2005.





## Tabl 17: Cyfleoedd dysgu yn y gwaith (2005) % sy'n cytuno yn ôl rhyw ac oedran

| Sylfaen: Pawb sy'n gweithio ac eithrio'r hunangyflogedig | Cyfanswm | Dynion | Menywod | Dan 24 | 25 – 34 | 35 – 44 | 45 – 54 | 55 + |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Sylfaen heb ei phwysoli | 561 | 275 | 286 | **72 | 110 | 179 | 134 | **81 |
| Sylfaen wedi'i phwysoli | 665 | 347 | 318 | 89 | 174 | 175 | 128 | 100 |
| | % | % | % | % | % | % | % | % |
| Rydw i'n derbyn cymaint o hyfforddiant ag sydd ei angen i'm swydd bresennol+ | 67 | 66 | 68 | 77 | 74 | 59 | 64 | 65 |
| Rydw i'n teimlo bod fy nghyflogwr yn fy ngwerthfawrogi | 66 | 66 | 66 | 72 | 63 | 65 | 61 | 72 |
| Mae gen i amrywiaeth eang o gyfleoedd i ddysgu, nid yn unig rhai sy'n uniongyrchol berthnasol i'm swydd bresennol+ | 58 | 56 | 60 | 65 | 62 | 51 | 57 | 57 |
| Rydw i'n teimlo nad yw fy swydd bresennol yn gwneud y gorau o'm galluoedd a'm rhinweddau personol | 40 | 46 | 33 | 51 | 29 | 47 | 38 | 38 |
| Dydy pobl yn fy swyddogaeth i ddim yn cael llawer o gyfle i ddatblygu | 33 | 36 | 30 | 37 | 24 | 33 | 38 | 39 |
| Dydy pobl yn fy swyddogaeth i ddim yn cael cynnig llawer o hyfforddiant | 32 | 33 | 31 | 36 | 24 | 38 | 32 | 32 |

Nodyn: Un ymateb (lefel cytundeb) i bob datganiad. Nid yw 'ddim yn gwybod' wedi'i gynnwys yn y tabl.
Mae ** yn dynodi sylfaen fach (sylfaen heb ei phwysoli yn llai na 100). * sylwch y gofynnwyd y datganiadau hyn i'r hunangyflogedig hefyd (sylfaen heb ei phwysoli yn 638 a'r sylfaen wedi'i phwysoli yn 756).

**Tabl 18: Cyfleoedd dysgu yn y gwaith (2005) % sy'n cytuno yn ôl cyflogaeth a dosbarth cymdeithasol (eithrio'r hunangyflogedig)**

| Sylfaen: Pawb sy'n gweithio ac eithrio'r hunangyflogedig | | Statws gwaith | | Dosbarth cymdeithasol | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cyfanswm | Mewn cyflogaeth amser llawn | Mewn cyflogaeth ran-amser | AB | C1 | C2 | DE |
| Sylfaen heb ei phwysoli | 561 | 406 | 147 | 122 | 156 | 157 | 126 |
| Sylfaen wedi'i phwysoli | 665 | 497 | 159 | 152 | 192 | 187 | 133 |
| | % | % | % | % | % | % | % |
| Rydw i'n teimlo bod fy nghyflogwr yn fy ngwerthfawrogi | 66 | 66 | 65 | 73 | 69 | 59 | 63 |
| Rydw i'n teimlo nad yw fy swydd bresennol yn gwneud y gorau o'm galluoedd a'm rhinweddau personol | 40 | 40 | 40 | 28 | 39 | 40 | 54 |
| Dydy pobl yn fy swyddogaeth i ddim yn cael llawer o gyfle i ddatblygu | 33 | 33 | 33 | 22 | 32 | 36 | 42 |
| Dydy pobl yn fy swyddogaeth i ddim yn cael cynnig llawer o hyfforddiant | 32 | 30 | 39 | 20 | 31 | 35 | 44 |

Nodyn: Un ymateb (lefel cytundeb) i bob datganiad. Nid yw 'ddim yn gwybod' wedi'i gynnwys yn y tabl.





**Table 19: Cyfleoedd dysgu yn y gwaith (2005) % sy'n cytuno yn ôl cyflogaeth a dosbarth cymdeithasol (yn cynnwys hunangyflogedig)**

| Sylfaen: Pawb sy'n gweithio | | Working status | | | Social class | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cyfanswm | Mewn cyflogaeth amser llawn | Mewn cyflogaeth ran-amser | Hunan-gyflogedig | AB | C1 | C2 | DE |
| Sylfaen heb ei phwysoli | 638 | 406 | 147 | **77 | 122 | 156 | 157 | 126 |
| Sylfaen wedi'i phwysoli | 756 | 497 | 159 | 91 | 152 | 192 | 187 | 133 |
| | % | % | % | % | % | % | % | % |
| Rydw i'n derbyn cymaint o hyfforddiant ag sydd ei angen i'm swydd bresennol | 67 | 69 | 66 | 59 | 57 | 72 | 71 | 65 |
| Mae gen i amrywiaeth eang o gyfleoedd i ddysgu, nid yn unig rhai sy'n uniongyrchol berthnasol i'm swydd bresennol | 58 | 58 | 59 | 56 | 64 | 60 | 49 | 59 |

Nodyn: Cwestiwn un ymateb. Nid yw 'ddim yn gwybod' wedi'i gynnwys yn y tabl. ** sylfaen fach (sylfaen heb ei phwysoli yn llai na 100).

- Roedd bron i ddau o bob tri (60%) o'r ymatebwyr yn cytuno bod amrywiaeth eang o gyfleoedd y llynedd ac roedd cyfran debyg (58%) yn cytuno yn 2005.
- Fodd bynnag, cytunodd bron i dri chwarter (73%) o'r ymatebwyr eu bod yn derbyn cymaint o hyfforddiant ag sydd ei angen i'w swydd bresennol yn 2004 ac roedd hyn wedi cwympo i fwy na dau o bob tri (67%) yn 2005.

  Mae Tabl 21 yn dangos y datganiadau wedi'u croesdablu â'r rhai a oedd yn cytuno â phob datganiad yn 2004. Roedd rhwng tri chwarter a dau o bob tri o'r rhai a oedd yn cytuno â'r datganiadau â geiriad cadarnhaol yn parhau i wneud hynny eleni (felly roedd hyd at draean o'r ymatebwyr ddim yn cytuno mwyach):

- Roedd bron i wyth o bob deg (78%) o'r ymatebwyr yn dal i gytuno bod eu cyflogwr yn eu gwerthfawrogi yn y cam hwn (felly roedd chwarter ddim yn cytuno mwyach).
- Roedd dros saith o bob deg (74%) o'r ymatebwyr yn dal i gytuno eu bod yn derbyn cymaint o hyfforddiant ag sydd ei angen i'w swydd bresennol (felly roedd dros chwarter ddim yn cytuno mwyach).
- Dim ond dau o bob tri (65%) oedd yn dal i gytuno bod ganddynt amrywiaeth eang o gyfleoedd i ddysgu, felly roedd traean ddim yn cytuno mwyach bod hyn yn wir.

  Mae rhwng hanner a dau o bob tri o'r ymatebwyr a oedd yn cytuno â phob datganiad negyddol y llynedd yn dal i wneud

## Tabl 20: Dysgu yn y gwaith (2005): % sy'n cytuno yn ôl galwedigaeth

| | Galwedigaeth | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Sylfaen: Pawb sy'n gweithio ac eithrio'r hunangyflogedig** | Cyfanswm | Proffesiynol | Rheolwyr/ galwedigaethau proffesiynol/ technegol cysylltiol | Gweinyddol/ysgrif enyddol | Crefftau medrus | Galwedigaethau gwasanaeth personol/gwerth | Lled-fedrus/ gweithredwyr |
| Sylfaen heb ei phwysoli | 561 | **92 | **93 | **74 | **64 | 105 | 105 |
| Sylfaen wedi'i phwysoli | 665 | 122 | 112 | 86 | 78 | 126 | 111 |
| | % | % | % | % | % | % | % |
| Rydw i'n derbyn cymaint o hyfforddiant ag sydd ei angen i'm swydd bresennol+ | 67 | 50 | 66 | 83 | 62 | 73 | 68 |
| Rydw i'n teimlo bod fy nghyflogwr yn fy ngwerthfawrogi | 66 | 68 | 67 | 78 | 63 | 67 | 52 |
| Mae gen i amrywiaeth eang o gyfleoedd i ddysgu, nid yn unig rhai sy'n uniongyrchol berthnasol i'm swydd bresennol+ | 58 | 66 | 54 | 60 | 54 | 61 | 52 |
| Rydw i'n teimlo nad yw fy swydd bresennol yn gwneud y gorau o'm galluoedd a'm rhinweddau personol | 40 | 29 | 32 | 43 | 42 | 38 | 57 |
| Dydy pobl yn fy swyddogaeth i ddim yn cael llawer o gyfle i ddatblygu | 33 | 27 | 32 | 30 | 37 | 30 | 43 |
| Dydy pobl yn fy swyddogaeth i ddim yn cael cynnig llawer o hyfforddiant | 32 | 26 | 28 | 28 | 25 | 35 | 45 |

Nodyn: Un ymateb (lefel cytundeb) i bob datganiad. Nid yw 'ddim yn gwybod' wedi'i gynnwys yn y tabl. Mae ** yn dynodi sylfaen fach (sylfaen heb ei phwysoli yn llai na 100). + sylwch y gofynnwyd y datganiadau hyn i'r hunangyflogedig hefyd (sylfaen heb ei phwysoli yn 638 a'r sylfaen wedi'i phwysoli yn 756).





## Tabl 21: Dysgu yn y gwaith 2004 a 2005: cytundeb â'r datganiadau

| Sylfaen: Pawb sy'n gweithio ac eithrio'r hunangyflogedig | 2004 | 2005 |
|---|---|---|
| | Cyfanswm | Cyfanswm |
| Sylfaen heb ei phwysoli | 576 | 561 |
| Sylfaen wedi'i phwysoli | 675 | 665 |
| | % | % |
| Rydw i'n derbyn cymaint o hyfforddiant ag sydd ei angen i 'm swydd bresennol$^{+}$ | 73 | 67 |
| Rydw i'n teimlo bod fy nghyflogwr yn fy ngwerthfawrogi | 63 | 66 |
| Mae gen i amrywiaeth eang o gyfleoedd i ddysgu, nid yn unig rhai sy'n uniongyrchol berthnasol i'm swydd bresennol$^{+}$ | 60 | 58 |
| Rydw i'n teimlo nad yw fy swydd bresennol yn gwneud y gorau o'm galluoedd a'm rhinweddau personol | 43 | 40 |
| Dydy pobl yn fy swyddogaeth i ddim yn cael llawer o gyfle i ddatblygu | 35 | 33 |
| Dydy pobl yn fy swyddogaeth i ddim yn cael cynnig llawer o hyfforddiant | 30 | 32 |

Nodyn: Un ymateb (lefel cytundeb) i bob datganiad. Nid yw 'ddim yn gwybod' wedi'i gynnwys yn y tabl. ^ sylwch y gofynnwyd y datganiadau hyn i'r hunangyflogedig hefyd (2004 – sylfaen heb ei phwysoli yn 635 a'r sylfaen wedi'i phwysoli yn 749 a 2005 – sylfaen heb ei phwysoli yn 638 a'r sylfaen wedi'i phwysoli yn 756).

eleni. Mae'r rhain yn ganfyddiadau cadarnhaol am fod hyd at hanner ddim yn teimlo bod y rhain yn broblemau iddyn nhw erbyn hyn.

- Roedd dros hanner (52%) yr ymatebwyr a oedd yn cytuno y llynedd nad oedd eu swydd yn gwneud y gorau o'u galluoedd yn dal i gytuno yn 2005. Mae hyn yn gadarnhaol ac yn golygu bod ychydig yn llai na hanner (48%) ddim yn teimlo mwyach bod hyn yn broblem.
- Roedd chwech o bob deg (57%) o'r ymatebwyr a oedd yn cytuno y llynedd na chaiff pobl yn eu swyddogaeth nhw gyfle i ddatblygu yn dal i gytuno yn 2005. Felly, roedd pedwar o bob deg (43%) ddim o'r farn mwyach na chânt gyfle i ddatblygu.
- Roedd chwech o bob deg (61%) a oedd yn cytuno y llynedd na chaiff pobl yn eu swyddogaeth nhw gynnig llawer o hyfforddiant yn dal i gytuno yn 2005. Felly, roedd pedwar o bob deg ddim yn cytuno mwyach bod hyn yn wir.

## Tabl 22: Cyfleoedd dysgu yn y gwaith 2004 a 2005: % sy'n cytuno

| | Pawb a gytunodd â'r datganiadau yn 2004 | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Sylfaen: Pawb sy'n gweithio ac eithrio'r hunangyflogedig** | Rydw i'n derbyn cymaint o hyfforddiant ag sydd ei angen i'm swydd bresennol (cytuno) | Rydw i'n teimlo bod fy nghyflogwr yn fy ngwerthfawrogi (cytuno | Mae gen i amrywiaeth eang o gyfleoedd i ddysgu (cytuno) | Rydw i'n teimlo nad yw fy swydd bresennol yn gwneud y gorau o'm galluoedd a'm rhinweddau personol (cytuno) | Dydy pobl yn fy swyddogaeth i ddim yn cael llawer o gyfle i ddatblygu (cytuno) | Dydy pobl yn fy swyddogaeth i ddim yn cael cynnig llawer o hyfforddiant (cytuno) |
| Sylfaen heb ei phwysoli | 405 | 312 | 332 | 199 | 176 | 136 |
| Wedi'i phwysoli | 486 | 369 | 400 | 227 | 202 | 161 |
| | % | % | % | % | % | % |
| Rydw i'n derbyn cymaint o hyfforddiant ag sydd ei angen i'm swydd bresennol (cytuno yn 2005) | 74 | | | | | |
| Rydw i'n teimlo bod fy nghyflogwr yn fy ngwerthfawrogi (cytuno yn 2005) | | 78 | | | | |
| Mae gen i amrywiaeth eang o gyfleoedd i ddysgu, nid yn unig rhai sy'n uniongyrchol berthnasol i'm swydd bresennol (cytuno yn 2005) | | | 65 | | | |
| Rydw i'n teimlo nad yw fy swydd bresennol yn gwneud y gorau o'm galluoedd a'm rhinweddau personol (cytuno yn 2005) | | | | 52 | | |
| Dydy pobl yn fy swyddogaeth i ddim yn cael llawer o gyfle i ddatblygu (cytuno yn 2005) | | | | | 57 | |
| Dydy pobl yn fy swyddogaeth i ddim yn cael cynnig llawer o hyfforddiant (cytuno yn 2005) | | | | | | 61 |

Nodyn: Un ymateb (lefel cytundeb) i bob datganiad. Nid yw 'ddim yn gwybod' wedi'i gynnwys yn y tabl.





## Tabl 23: Cyfleoedd dysgu yn y gwaith (2004 a 2005): % sy'n cytuno yn ôl rhyw

| Sylfaen: Pawb sy'n gweithio ac eithrio'r hunangyflogedig | Cyfanswm | | Dynion | | Menywod | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2004 | 2005 | 2004 | 2005 | 2004 | 2005 |
| Sylfaen heb ei phwysoli | 576 | 561 | 294 | 275 | 282 | 286 |
| Sylfaen wedi'i phwysoli | 675 | 665 | 351 | 347 | 324 | 318 |
| | % | % | % | % | % | % |
| Rydw i'n derbyn cymaint o hyfforddiant ag sydd ei angen i'm swydd bresennol+ | 73 | 67 | 74 | 66 | 71 | 68 |
| Rydw i'n teimlo bod fy nghyflogwr yn fy ngwerthfawrogi | 63 | 66 | 58 | 66 | 70 | 66 |
| Mae gen i amrywiaeth eang o gyfleoedd i ddysgu, nid yn unig rhai sy'n uniongyrchol berthnasol i'm swydd bresennol+ | 60 | 58 | 62 | 56 | 59 | 60 |
| Rydw i'n teimlo nad yw fy swydd bresennol yn gwneud y gorau o'm galluoedd a'm rhinweddau personol | 43 | 40 | 43 | 46 | 43 | 33 |
| Dydy pobl yn fy swyddogaeth i ddim yn cael llawer o gyfle i ddatblygu | 35 | 33 | 33 | 36 | 36 | 30 |
| Dydy pobl yn fy swyddogaeth i ddim yn cael cynnig llawer o hyfforddiant | 30 | 32 | 32 | 33 | 27 | 31 |

Nodyn: Un ymateb (lefel cytundeb) i bob datganiad. Nid yw 'ddim yn gwybod' wedi'i gynnwys yn y tabl. + gofynnwyd y datganiadau hyn i'r hunangyflogedig hefyd (2004 – sylfaen heb ei phwysoli yn 635 a'r sylfaen wedi'i phwysoli yn 749 a 2005 – sylfaen heb ei phwysoli yn 638 a'r sylfaen wedi'i phwysoli yn 756).

**Tabl 24: Cyfleoedd dysgu yn y gwaith (2004 a 2005): % sy'n cytuno yn ôl oedran**

| Sylfaen: Pawb sy'n gweithio ac eithrio'r hunangyflogedig | Cyfanswm | | Dan 24 oed | | 25 – 34 | | 35 – 44 | | 45 – 54 | | 55 + | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2004 | 2005 | 2004 | 2005 | 2004 | 2005 | 2004 | 2005 | 2004 | 2005 | 2004 | 2005 |
| Sylfaen heb ei phwysoli | 576 | 561 | **56 | **57 | 156 | 110 | 165 | 179 | 120 | 134 | **79 | **81 |
| Sylfaen wedi'i phwysoli | 675 | 665 | 70 | 89 | 202 | 174 | 175 | 175 | 125 | 128 | 102 | 100 |
| | % | % | % | % | % | % | % | % | % | % | % | % |
| Rydw i'n derbyn cymaint o hyfforddiant ag sydd ei angen i'm swydd bresennol+ | 73 | 67 | 82 | 77 | 74 | 74 | 69 | 59 | 75 | 64 | 68 | 65 |
| Rydw i'n teimlo bod fy nghyflogwr yn fy ngwerthfawrogi | 63 | 66 | 70 | 72 | 62 | 63 | 62 | 65 | 58 | 61 | 72 | 72 |
| Mae gen i amrywiaeth eang o gyfleoedd i ddysgu, nid yn unig rhai sy'n uniongyrchol berthnasol i'm swydd bresennol+ | 60 | 58 | 70 | 65 | 59 | 62 | 62 | 51 | 58 | 57 | 58 | 57 |
| Rydw i'n teimlo nad yw fy swydd bresennol yn gwneud y gorau o'm galluoedd a'm rhinweddau personol | 43 | 40 | 39 | 51 | 42 | 29 | 46 | 47 | 45 | 38 | 40 | 38 |
| Dydy pobl yn fy swyddogaeth i ddim yn cael llawer o gyfle i ddatblygu | 35 | 33 | 29 | 37 | 36 | 24 | 33 | 33 | 38 | 38 | 34 | 39 |
| Dydy pobl yn fy swyddogaeth i ddim yn cael cynnig llawer o hyfforddiant | 30 | 32 | 18 | 36 | 31 | 24 | 32 | 38 | 27 | 32 | 33 | 32 |

Nodyn: Un ymateb (lefel cytundeb) i bob datganiad. Nid yw 'ddim yn gwybod' wedi'i gynnwys yn y tabl. Mae ** yn dynodi sylfaen fach (sylfaen heb ei phwysoli yn llai na 100). + sylwch y gofynnwyd y datganiadau hyn i'r hunangyflogedig hefyd (2004 – sylfaen heb ei phwysoli yn 635 a'r sylfaen wedi'i phwysoli yn 749 a 2005 – sylfaen heb ei phwysoli yn 638 a'r sylfaen wedi'i phwysoli yn 756).



Bu rhai newidiadau diddorol mewn agweddau o'r naill flwyddyn i'r llall yn achos rhai grwpiau demograffig penodol:

- Dynion: Er eu bod yn llai cadarnhaol ynghylch faint o hyfforddiant a geir ac a oes ganddynt amrywiaeth eang o gyfleoedd, roedd mwy o ddynion yn cytuno eleni bod eu cyflogwr yn eu gwerthfawrogi (66% o'i gymharu â 58% y llynedd).
- Menywod: Ar y cyfan, roedden nhw ychydig yn fwy cadarnhaol ynghylch y mwyafrif o'r datganiadau o'i gymharu â'r llynedd. Y newid mwyaf arwyddocaol oedd bod llai yn teimlo nad oedd eu swydd yn gwneud y gorau o'u galluoedd (43% yn 2004 a 33% yn 2005).
- Pobl dan 24 oed: Roedd y grŵp hwn yn fwy negyddol nag oeddent flwyddyn yn ôl. Roedd llai yn cytuno eu bod yn derbyn cymaint o hyfforddiant ag sydd ei angen (77% eleni o'i gymharu ag 82% y llynedd). Roedd nifer sylweddol uwch yn cytuno â'r datganiadau nad oedd eu swydd bresennol yn gwneud y gorau o'u galluoedd (51% o'i gymharu â 38% y llynedd) ac nad oedd pobl yn eu swyddogaeth nhw'n cael llawer o hyfforddiant (36% o'i gymharu â 18% y llynedd).
- Pobl 25 – 34 oed: Dangosodd y grŵp hwn arwyddion o fod yn fwy cadarnhaol nag oeddent flwyddyn yn ôl. Roedd nifer sylweddol is yn cytuno nad oedd eu swydd bresennol yn gwneud y gorau o'u galluoedd (29% yn 2004 o'i gymharu â 42% yn 2004) ac roedd llai yn cytuno na chaiff pobl yn eu swyddogaeth nhw gyfle i ddatblygu (24% eleni o'i gymharu â 36% y llynedd).
- Pobl 35 – 44 oed: Roedd y grŵp hwn yn fwy negyddol o'i gymharu ag y llynedd. Roeddent yn arwyddocaol lai tebygol o gytuno y cânt gymaint o hyfforddiant ag sydd ei angen (59% eleni o'i gymharu â 69% y llynedd) ac yn llai tebygol o gytuno bod ganddynt amrywiaeth eang o gyfleoedd (51% o'i gymharu â 62%).

O ran newidynnau grwpiau cyflogaeth a dosbarth cymdeithasol:

- Mewn cyflogaeth ran-amser: Er y bu rhai newidiadau cadarnhaol a negyddol bychain yn y data am rai datganiadau, roedd y newid mwyaf trawiadol mewn agweddau yn un cadarnhaol. Roedd llawer llai o'r rhai mewn cyflogaeth ran-amser yn cytuno â'r datganiad 'Dydy pobl yn fy swyddogaeth i ddim yn cael llawer o gyfle i ddatblygu' (33% eleni o'i gymharu â 42% y llynedd).
- Grŵp dosbarth cymdeithasol AB: Er bod llai o ymatebwyr yn y categori hwn yn cytuno eu bod yn derbyn cymaint o hyfforddiant ag sydd ei angen, roedd y farn gyffredinol yn fwy cadarnhaol na blwyddyn yn ôl. Roedd mwy o ymatebwyr yn cytuno bod eu cyflogwr yn eu gwerthfawrogi (73% o'i gymharu â 58%) ac roedd llai yn cytuno nad oedd eu swydd yn gwneud y gorau o'u galluoedd (28% o'i gymharu â 39%) ac nad oedd yn rhoi cyfle iddynt ddatblygu (22% o'i gymharu â 32%).
- Grŵp dosbarth cymdeithasol C2: Roedd rhai arwyddion o agwedd fwy negyddol tuag at gyfleoedd dysgu yn y gwaith. Roedd lefelau cytundeb yn symud rhyw ychydig yn achos rhai datganiadau, ond roeddent yn gwneud hynny'n fwy arwyddocaol mewn perthynas â bod ag amrywiaeth eang o gyfleoedd yn y gwaith (49% o'i gymharu â 61% yn 2004).
- Roedd grŵp dosbarth cymdeithasol DE yn fwy cadarnhaol ynghylch cyfleoedd ehangach (59% o'i gymharu â 52% yn 2004) ond yn fwy negyddol wrth ymateb i'r datganiad am faint o hyfforddiant a gynigir (65% o'i gymharu â 76% yn 2004).

Sylwch na ellir cymharu yn ôl dosbarthiad galwedigaethol o'r naill flwyddyn i'r llall gan na chynhwyswyd y cwestiwn ynghylch galwedigaeth tan 2005.

**Tabl 25: Cyfleoedd dysgu yn y gwaith (2004 a 2005) % sy'n cytuno yn ôl cyflogaeth (eithrio'r hunangyflogedig)**

| Sylfaen: Pawb sy'n gweithio ac eithrio'r hunangyflogedig | Cyfanswm | | Mewn cyflogaeth amser llawn | | Mewn cyflogaeth ran-amser | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2004 | 2005 | 2004 | 2005 | 2004 | 2005 |
| Sylfaen heb ei phwysoli | 576 | 561 | 407 | 406 | 158 | 147 |
| Sylfaen wedi'i phwysoli | 675 | 665 | 490 | 497 | 175 | 160 |
| | % | % | % | % | % | % |
| Rydw i'n teimlo bod fy nghyflogwr yn fy ngwerthfawrogi | 63 | 66 | 60 | 66 | 73 | 65 |
| Rydw i'n teimlo nad yw fy swydd bresennol yn gwneud y gorau o'm galluoedd a'm rhinweddau personol | 43 | 40 | 43 | 40 | 44 | 40 |
| Dydy pobl yn fy swyddogaeth i ddim yn cael llawer o gyfle i ddatblygu | 35 | 33 | 33 | 34 | 42 | 33 |
| Dydy pobl yn fy swyddogaeth i ddim yn cael cynnig llawer o hyfforddiant | 30 | 32 | 29 | 30 | 32 | 39 |

Nodyn: Un ymateb (lefel cytundeb) i bob datganiad. Nid yw 'ddim yn gwybod' wedi'i gynnwys yn y tabl.





**Tabl 26: Cyfleoedd dysgu yn y gwaith (2004 a 2005) % sy'n cytuno yn ôl cyflogaeth (yn cynnwys hunangyflogedig)**

| Sylfaen: Pawb sy'n gweithio | Cyfanswm | | Mewn cyflogaeth amser llawn | | Mewn cyflogaeth ran-amser | | Hunan-gyflogedig | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2004 | 2005 | 2004 | 2005 | 2004 | 2005 | 2004 | 2005 |
| Sylfaen heb ei phwysoli | 635 | 638 | 407 | 406 | 158 | 147 | **59 | **77 |
| Sylfaen wedi'i phwysoli | 749 | 756 | 490 | 497 | 175 | 160 | 17 | 91 |
| | % | % | % | % | % | % | % | % |
| Rydw i'n derbyn cymaint o hyfforddiant ag sydd ei angen i'm swydd bresennol | 73 | 67 | 76 | 69 | 70 | 66 | 61 | 59 |
| Mae gen i amrywiaeth eang o gyfleoedd i ddysgu, nid yn unig rhai sy'n uniongyrchol berthnasol i'm swydd bresennol | 60 | 58 | 63 | 58 | 53 | 59 | 63 | 56 |

Nodyn: Cwestiwn un ymateb. Nid yw 'ddim yn gwybod' wedi'i gynnwys yn y tabl. ** sylfaen fach (sylfaen heb ei phwysoli yn llai na 100).

## 5.3 Crynodeb

At ei gilydd, ni fu llawer o newid o'r naill flwyddyn i'r llall yn y sefyllfa mewn perthynas â chyfleoedd i ddysgu yn y gwaith.

Mae'r data'n dangos mai'r agweddau mwyaf cyson a oedd gan yr ymatebwyr tuag at ddatganiadau cadarnhaol oedd:

- Bod eu cyflogwr yn eu gwerthfawrogi (roedd 78% o'r rhai a oedd yn cytuno â hyn y llynedd yn dal i wneud yn 2005).
- Bod yr ymatebwyr yn cael cymaint o hyfforddiant ag sydd ei angen i'w swydd (roedd 73% o'r rhai a oedd yn cytuno yn 2004 yn dal i wneud yn 2005).

Mae'r data hefyd yn dangos bod y cytundeb mwyaf cyson â datganiadau negyddol o'r naill flwyddyn i'r llall yn ymwneud â phobl nad ydynt yn cael cynnig llawer o hyfforddiant (roedd 75% o'r rhai a oedd yn cytuno â hyn y llynedd yn dal i wneud yn 2005).

Mae'n ddiddorol nodi nad oedd cael cynnig cymaint o hyfforddiant ag sydd ei angen, i rai ymatebwyr, yr un peth â chael cynnig digon o hyfforddiant.

Bu sawl newid yn achos rhai isgrwpiau tuag at fod yn fwy cadarnhaol, a sawl newid tuag at fod yn fwy negyddol. Mae'r tabl isod yn amlygu pob un. Mae Tabl 31 yn amlygu pob un ohonynt.

**Tabl 27: Cyfleoedd dysgu yn y gwaith (2004 a 2005) % sy'n cytuno yn ôl dosbarth cymdeithasol**

| Sylfaen: Pawb sy'n gweithio | Cyfanswm | | AB | | C1 | | C2 | | DE | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2004 | 2005 | 2004 | 2005 | 2004 | 2005 | 2004 | 2005 | 2004 | 2005 |
| Sylfaen heb ei phwysoli | 576 | 561 | 130 | 122 | 156 | 156 | 167 | 157 | 123 | 126 |
| Sylfaen wedi'i phwysoli | 675 | 665 | 167 | 173 | 183 | 226 | 201 | 218 | 124 | 138 |
| | % | % | % | % | % | % | % | % | % | % |
| Rydw i'n derbyn cymaint o hyfforddiant ag sydd ei angen i'm swydd bresennol+ | 73 | 67 | 71 | 57 | 70 | 72 | 75 | 71 | 76 | 65 |
| Rydw i'n teimlo bod fy nghyflogwr yn fy ngwerthfawrogi | 63 | 66 | 58 | 73 | 72 | 69 | 63 | 59 | 59 | 63 |
| Mae gen i amrywiaeth eang o gyfleoedd i ddysgu, nid yn unig rhai sy'n uniongyrchol berthnasol i'm swydd bresennol+ | 60 | 58 | 65 | 64 | 61 | 60 | 61 | 49 | 52 | 59 |
| Rydw i'n teimlo nad yw fy swydd bresennol yn gwneud y gorau o'm galluoedd a'm rhinweddau personol | 43 | 40 | 39 | 28 | 38 | 39 | 45 | 40 | 52 | 54 |
| Dydy pobl yn fy swyddogaeth i ddim yn cael llawer o gyfle i ddatblygu | 35 | 33 | 32 | 22 | 32 | 32 | 33 | 36 | 46 | 42 |
| Dydy pobl yn fy swyddogaeth i ddim yn cael cynnig llawer o hyfforddiant | 30 | 32 | 22 | 20 | 30 | 31 | 31 | 35 | 37 | 44 |

Nodyn: Un ymateb (lefel cytundeb) i bob datganiad. Nid yw 'ddim yn gwybod' wedi'i gynnwys yn y tabl. Mae ** yn dynodi sylfaen fach (sylfaen heb ei phwysoli yn llai na 100). + sylwch y gofynnwyd y datganiadau hyn i'r hunangyflogedig hefyd (2004 – sylfaen heb ei phwysoli yn 635 a'r sylfaen wedi'i phwysoli yn 749 a 2005 – sylfaen heb ei phwysoli yn 638 a'r sylfaen wedi'i phwysoli yn 756).





**Tabl 28: Crynodeb o'r newidiadau mewn agwedd tuag at gyfleoedd dysgu yn y gwaith**

| | Newid sylweddol tuag at gytuno'n fwy | Newid sylweddol tuag at lefel is o gytuno |
|---|---|---|
| Rydw i'n derbyn cymaint o hyfforddiant ag sydd ei angen i'm swydd bresennol | | Dynion<br>Dan 24 oed<br>35 – 44 oed<br>GDC DE |
| Rydw i'n teimlo bod fy nghyflogwr yn fy ngwerthfawrogi | Dynion<br>GDC AB | |
| Mae gen i amrywiaeth eang o gyfleoedd i ddysgu, nid yn unig rhai sy'n uniongyrchol berthnasol i'm swydd bresennol | GDC DE | Dynion<br>35 – 44 oed<br>GDC C2 |
| Rydw i'n teimlo nad yw fy swydd bresennol yn gwneud y gorau o'm galluoedd a'm rhinweddau personol[+] | Dan 24 oed | Menywod<br>25 – 34 oed<br>GDC AB |
| Dydy pobl yn fy swyddogaeth i ddim yn cael llawer o gyfle i ddatblygus[+] | Dan 24 oed | 25 – 34 oed<br>Mewn cyflogaeth ran-amser<br>GDC AB |
| Dydy pobl yn fy swyddogaeth i ddim yn cael cynnig llawer o hyfforddiant[+] | GDC DE | |

+ Datganiadau negyddol, felly mae newidiadau tuag at gytuno'n llai yn ganlyniad cadarnhaol

# 6 AGWEDDAU TUAG AT DDYSGU

## 6.1 Cyflwyniad

Gofynnwyd i’r ymatebwyr beth oedd lefel eu cytundeb â chyfres o ddatganiadau ynghylch dysgu. Lluniwyd y datganiadau i adlewyrchu agweddau tuag at gymryd cyfrifoldeb dros ddysgu a mwynhau dysgu. Gofynnwyd yr un cwestiwn yn 2004 ac yn 2005 er mwyn gallu mesur unrhyw symudiadau o’r cadarnhaol i’r negyddol ac i’r gwrthwyneb rhwng y ddwy flynedd.

Yn arolwg 2005, ychwanegom rai datganiadau eraill yn ymwneud ag i ba raddau y mae’r ymatebwyr yn croesawu heriau a chyfrifoldebau newydd. Am mai cwestiwn newydd yw hwn, nid oes cymhariaeth â 2004.

## 6.2 Agweddau tuag at ddysgu

### 6.2.1 Canfyddiadau: 2005

Mae’r adran hon yn archwilio canfyddiadau 2005. Mae’r paragraffau isod wedi rhannu’r datganiadau (a’r canfyddiadau) sy’n ymwneud ag agweddau yn themâu bras.

| Thema eang | Canfyddiadau 2005 |
|---|---|
| Mwynhad, hyder a chymhelliant | Roedd y mwyafrif o’r ymatebwyr yn teimlo bod dysgu yn bleserus ynddo’i hun (87%). Roedd y datganiad arall a gafodd lefel uchel o gytundeb yn ymwneud â hyder am ddysgu sgiliau newydd (roedd 77% yn cytuno â’r datganiad hwn i raddau). Fodd bynnag, roedd chwarter (25%) yn cytuno nad oeddent yn teimlo’n hyderus mewn amgylchedd dosbarth ac roedd tri o bob deg (30%) yn teimlo nad oes ganddynt y cymhelliant i ddilyn cwrs. |
| Cymryd cyfrifoldeb dros ddysgu/hyfforddiant sy’n gysylltiedig â swydd | Roedd teimlad bod llawer o’r ymatebwyr yn amharod i gymryd cyfrifoldeb dros ddysgu sy’n gysylltiedig â swydd (o ran amser ac arian); roedd 53% yn cytuno *na* ddylent orfod talu ac roedd 23% yn cytuno na ddylent orfod dysgu yn eu hamser eu hunain. |
| Cymorth a chyngor | Roedd rhyw dri o bob deg o’r ymatebwyr (28%) yn cytuno nad oedd digon o gymorth a chyngor ar gael am y gwahanol fathau o ddysgu y gall pobl ymgymryd â hwy. |
| Cysylltiad â phobl eraill yn yr amgylchedd dysgu | Er mai ychydig iawn o ymatebwyr (13%) oedd yn cytuno nad oedd gan weddill eu teulu ddiddordeb mewn dysgu, dywedodd pedwar o bob deg (38%) eu bod yn adnabod llawer o bobl yn eu hardal a oedd yn dysgu (mae ‘ardal’ yn cyfeirio at ardal ddaearyddol neu leol) |

Pan ddadansoddwyd y data yn ôl newidynnau demograffig allweddol roedd rhai gwahaniaethau arwyddocaol i dynnu sylw atynt:

- Roedd menywod yn cytuno’n llai y dylid cymryd cyfrifoldeb (o ran amser a chostau) dros ddysgu sy’n ymwneud â swydd neu yrfa. Roedd dynion yn cytuno’n fwy â’r elfen hon o ddysgu a hefyd yn fwy hyderus yn eu gallu i ddysgu sgiliau newydd
- Roedd menywod yn debycach na dynion o gytuno bod dysgu yn bleserus ynddo’i hun (91% o’i gymharu ag 84%), na ddylai pobl orfod dysgu sgiliau newydd ar gyfer eu gyrfaoedd yn eu hamser eu hunain (25% o’i gymharu ag 20%) ac na ddylai rhywun dalu am ddysgu sy’n ymwneud â swydd (54% o’i gymharu â 51%).
- Roedd dynion yn arwyddocaol debycach na menywod o gytuno eu bod yn hyderus





**Tabl 29: Agweddau at ddysgu (2005) % sy'n cytuno**

| Sylfaen: yr holl ymatebwyr | 2005 |
|---|---|
| | Cyfanswm |
| Sylfaen heb ei phwysoli | 1,309 |
| Sylfaen wedi'i phwysoli | 1,309 |
| | % |
| Mae dysgu yn bleserus ynddo'i hun | 87 |
| Rydw i'n hyderus am ddysgu sgiliau newydd | 77 |
| Wela i ddim pam ddylwn i dalu am ddysgu sy'n ymwneud â'm swydd neu fy ngyrfa+ | 53 |
| Rydw i'n adnabod llawer o bobl yn f'ardal i sy'n dysgu | 38 |
| Nid oes digon o gymorth a chyngor ar gael am y gwahanol fathau o ddysgu y gall pobl ymgymryd â hwy | 28 |
| Ni ddylid disgwyl i bobl ddysgu sgiliau newydd ar gyfer eu gyrfaoedd yn eu hamser eu hunain | 23 |
| Does gen i mo'r ysgogiad i ddilyn cwrs | 30 |
| Mi fyddwn yn teimlo'n chwithig mewn dosbarth | 25 |
| Does gan weddill fy nheulu fawr ddim diddordeb mewn dysgu | 13 |

Nodyn: Un ymateb (lefel cytundeb) i bob datganiad. Ni chynhwyswyd 'ddim yn gwybod' yn y tabl. + ni chynigiwyd y datganiad ond i ymatebwyr nad ydynt wedi ymddeol nac yn anabl i weithio (sylfaen wedi'i phwysoli 2005, 933).

ynghylch dysgu sgiliau newydd (83% o'i gymharu â 71%).

- Roedd menywod yn debycach o gredu nad oedd cymorth ar gael (roedd 30% yn cytuno â'r datganiad hwn o'i gymharu â 26% o ddynion) ac nad oedd ganddynt mo'r ysgogiad i ddilyn cwrs (32% o'i gymharu â 27% o ddynion).
- Er bod yr ymatebwyr 55 oed a throsodd yn arwyddocaol fwy tebygol na rhai o'r grwpiau iau o gytuno bod dysgu yn bleserus ynddo'i hun (91% o'i gymharu ag 82% o'r rhai 24 oed ac iau), nhw oedd leiaf tebygol o fod yn hyderus am ddysgu sgiliau newydd (59% o'i gymharu â 94% o'r grŵp ieuengaf o ymatebwyr).
- Roedd dysgwyr iau yn debycach o gytuno nad oes digon o gymorth a chyngor ar gael (34% a 35% yn achos y rhai dan 24 oed a 25 – 34 oed o'i gymharu â 23% o'r grŵp 55 oed a throsodd).

### O ran statws gwaith:

- Roedd y rhai a oedd wedi ymddeol a'r rhai a oedd yn gweithio'n rhan-amser yn arwyddocaol fwy tebygol na'r rhai nad oeddent yn gweithio a'r rhai a oedd yn gweithio'n amser llawn o gytuno bod dysgu

yn bleserus ynddo'i hun. Y rhai a oedd wedi ymddeol oedd leiaf tebygol o gytuno eu bod yn hyderus am ddysgu sgiliau newydd (55% o'i gymharu â 91% o'r ymatebwyr a oedd yn gweithio'n amser llawn).

- Roedd y rhai a oedd yn gweithio'n rhan-amser a'r rhai nad oeddent yn gweithio yn arwyddocaol lai tebygol na'r rhai a oedd yn gweithio'n amser llawn o gytuno eu bod yn hyderus am ddysgu sgiliau newydd (77% a 69% yn y drefn honno o'i gymharu â 91%).
- Roedd yr ymatebwyr nad oeddent yn gweithio yn fwy tebygol o gytuno nad oedd digon o gymorth a chyngor ar gael (41% o'i gymharu â 29% o'r ymatebwyr a oedd yn gweithio'n amser llawn).
- Yr ymatebwyr nad oeddent yn gweithio a'r rhai a oedd wedi ymddeol oedd leiaf tebygol o ddweud bod ganddynt yr ysgogiad i ymgymryd â dysgu (35% o'r rhai nad oeddent yn gweithio a 54% o'r rhai a oedd wedi ymddeol).

Roedd gwahaniaethau arwyddocaol yn amlwg yn ôl grŵp dosbarth cymdeithasol, gyda grŵp DE yn dueddol o fod â'r agweddau mwyaf negyddol am y mwyafrif o'r datganiadau. Yr eithriad, grŵp dosbarth cymdeithasol C2, oedd fwyaf tebygol o feddwl na ddylid disgwyl i bobl ddysgu sgiliau newydd ar gyfer eu gyrfaoedd yn eu hamser eu hunain (28% o'i gymharu â 25% neu lai yn yr holl grwpiau eraill) ac oedd leiaf tebygol o gytuno â'r datganiad 'Mae dysgu yn bleserus ynddo'i hun' (83% o'i gymharu ag 87% neu fwy).

Yn 2005, archwiliodd yr holiadur dri maes arall (ni ellir cymharu'r rhain â 2004); datganiadau oedd y rhain y gellid eu hystyried yn rhwystrau i ddysgu:

- Roedd ychydig dros un o bob pump (21%) yn cytuno eu bod yn betrus am ddysgu oherwydd safon y gwaith sydd ei angen. Roedd menywod a'r ymatebwyr hŷn yn llawer mwy tebygol nag eraill o gytuno â'r datganiad hwn.
- Dywedodd rhwng 33% a 38% o'r ymatebwyr fod ganddynt ormod o gyfrifoldebau yn y gwaith a/neu'r cartref i wneud mwy o ddysgu. Roedd cyfrifoldebau yn y gwaith yn effeithio ar ddynion a'r ymatebwyr a oedd yn gweithio'n amser llawn ac roedd cyfrifoldebau yn y cartref yn cael effaith lawer mwy ar fenywod ac ar weithwyr rhan-amser. O ran oedran, roedd cyfrifoldebau y tu allan i ddysgu yn effeithio ar nifer arwyddocaol lai o ymatebwyr o dan 24 oed. Yn ôl pob golwg, nid oedd lefel y cytundeb â datganiadau bod cyfrifoldebau yn y cartref a'r gwaith yn rhwystr i ddysgu wedi gostwng i'r grŵp 55 oed a throsodd.
- Roedd nifer arwyddocaol is o ymatebwyr AB yn betrus am ddysgu oherwydd safon y gwaith sydd ei angen (12% o'i gymharu â 19% neu fwy mewn grwpiau eraill). Nhw hefyd oedd y grŵp lleiaf tebygol o nodi bod cyfrifoldebau gartref yn rhwystr i ddysgu mwy (28% o'i gymharu â chyfartaledd o 41%).

### 6.2.2 Cymharu'r data: 2004 a 2005

Yr unig newidiadau arwyddocaol mewn agweddau o'r naill flwyddyn i'r llall oedd:

- bod nifer sylweddol lai o'r ymatebwyr yn cytuno nad oedd digon o gymorth a chyngor ar gael am y gwahanol fathau o ddysgu y gall pobl eu gwneud (o 37% yn 2004 i 28% yn 2005); a
- bod llai o ymatebwyr yn cytuno y dylid disgwyl i bobl ddysgu sgiliau newydd ar gyfer eu gyrfaoedd yn eu hamser eu hunain (27% yn 2004 i 23% yn 2005).

Bu rhai newidiadau hefyd mewn agweddau mewn achosion unigol ac ar lefel is-grŵp (gweler yn ddiweddarach yn yr adran hon).

Bu rhai newidiadau diddorol mewn agweddau yn ôl yr isgrwpiau:

Archwiliwyd agweddau o'r naill flwyddyn i'r llall ac mae'r dadansoddiad wedi dangos pa agweddau arhosodd yr un peth ar sail achosion unigol a pha agweddau sydd wedi newid mwy gydag amser.





## Tabl 30: Agweddau at ddysgu (2005) % sy'n cytuno yn ôl rhyw ac oedran

| Sylfaen: yr holl ymatebwyr | Cyfanswm | Dynion | Menywod | Dan 24 | 25 – 34 | 35 – 44 | 45 – 54 | 55 + |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Sylfaen heb ei phwysoli | 1,309 | 614 | 694 | 129 | 181 | 262 | 229 | 507 |
| Sylfaen wedi'i phwysoli | 1,309 | 658 | 650 | 162 | 242 | 237 | 195 | 471 |
| | % | % | % | % | % | % | % | % |
| Mae dysgu yn bleserus ynddo'i hun | 87 | 84 | 91 | 82 | 86 | 85 | 87 | 91 |
| Rydw i'n hyderus am ddysgu sgiliau newydd | 77 | 83 | 71 | 91 | 91 | 86 | 80 | 59 |
| Wela i ddim pam ddylwn i dalu am ddysgu sy'n ymwneud â'm swydd neu fy ngyrfa+ | 53 | 51 | 54 | 53 | 51 | 52 | 55 | 54 |
| Rydw i'n adnabod llawer o bobl yn f'ardal i sy'n dysgu | 38 | 38 | 37 | 54 | 27 | 39 | 39 | 37 |
| Nid oes digon o gymorth a chyngor ar gael am y gwahanol fathau o ddysgu y gall pobl ymgymryd â hwy | 28 | 26 | 30 | 34 | 35 | 28 | 25 | 23 |
| Ni ddylid disgwyl i bobl ddysgu sgiliau newydd ar gyfer eu gyrfaoedd yn eu hamser eu hunain | 23 | 20 | 25 | 22 | 28 | 23 | 27 | 19 |
| Does gen i mo'r ysgogiad i ddilyn cwrs | 30 | 27 | 32 | 9 | 18 | 21 | 23 | 51 |
| Mi fyddwn yn teimlo'n chwithig mewn dosbarth | 25 | 23 | 26 | 16 | 18 | 21 | 26 | 33 |
| Does gan weddill fy nheulu fawr ddim diddordeb mewn dysgu | 13 | 13 | 12 | 11 | 13 | 11 | 12 | 14 |

Nodyn: Un ymateb (lefel cytundeb) i bob datganiad. Ni chynhwyswyd 'ddim yn gwybod' yn y tabl. + ni chynigiwyd y datganiad ond i ymatebwyr nad ydynt wedi ymddeol nac yn anabl i weithio (sylfaen wedi'i phwysoli 2005, 933)

**Tabl 31: Agweddau at ddysgu (2005) % sy'n cytuno yn ôl statws gwaith a dosbarth cymdeithasol**

| Sylfaen: yr holl ymatebwyr | Cyfanswm | Employed full time | Employed part time | Not working | Retired | AB | C1 | C2 | DE |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Sylfaen heb ei phwysoli | 1,309 | 406 | 147 | 277 | 345 | 231 | 314 | 299 | 464 |
| Sylfaen wedi'i phwysoli | 1,309 | 497 | 159 | 203 | 300 | 264 | 347 | 313 | 384 |
| | % | % | % | % | % | % | % | % | % |
| Mae dysgu yn bleserus ynddo'i hun | 87 | 85 | 93 | 88 | 92 | 92 | 89 | 83 | 87 |
| Rydw i'n hyderus am ddysgu sgiliau newydd | 77 | 91 | 77 | 69 | 55 | 81 | 81 | 81 | 68 |
| Wela i ddim pam ddylwn i dalu am ddysgu sy'n ymwneud â'm swydd neu fy ngyrfa+ | 53 | 58 | 62 | 47 | na | 42 | 55 | 54 | 57 |
| Rydw i'n adnabod llawer o bobl yn f'ardal i sy'n dysgu | 38 | 38 | 39 | 27 | 36 | 47 | 38 | 36 | 32 |
| Nid oes digon o gymorth a chyngor ar gael am y gwahanol fathau o ddysgu y gall pobl ymgymryd â hwy | 28 | 29 | 26 | 41 | 22 | 18 | 22 | 33 | 35 |
| Ni ddylid disgwyl i bobl ddysgu sgiliau newydd ar gyfer eu gyrfaoedd yn eu hamser eu hunain | 23 | 26 | 29 | 25 | 19 | 15 | 22 | 28 | 25 |
| Does gen i mo'r ysgogiad i ddilyn cwrs | 30 | 17 | 24 | 35 | 54 | 23 | 26 | 29 | 39 |
| Mi fyddwn yn teimlo'n chwithig mewn dosbarth | 25 | 17 | 18 | 40 | 35 | 11 | 18 | 26 | 39 |
| Does gan weddill fy nheulu fawr ddim diddordeb mewn dysgu | 13 | 12 | 10 | 17 | 14 | 8 | 11 | 12 | 17 |

Nodyn: Un ymateb (lefel cytundeb) i bob datganiad. Ni chynhwyswyd 'ddim yn gwybod' yn y tabl. + ni chynigiwyd y datganiad ond i ymatebwyr nad ydynt wedi ymddeol nac yn anabl i weithio (sylfaen wedi'i phwysoli 2005, 933)





**Tabl 32: Cwestiwn newydd am agweddau at ddysgu (2005) % sy'n cytuno yn ôl rhyw ac oedran**

| Sylfaen: Pawb | Cyfa-swm | Dynion | Menywod | Dan 24 | 25 – 34 | 35 – 44 | 45 – 54 | 55+ |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Sylfaen heb ei phwysoli | 1,309 | 614 | 694 | 129 | 181 | 262 | 229 | 507 |
| Sylfaen wedi'i phwysoli | 1,309 | 658 | 650 | 162 | 242 | 237 | 195 | 471 |
| | % | % | % | % | % | % | % | % |
| Rydw i'n betrus am ddysgu oherwydd safon y gwaith sydd ei angen | 21 | 16 | 26 | 15 | 16 | 21 | 23 | 25 |
| Mae gen i ormod o gyfrifoldebau yn y gwaith i wneud mwy o ddysgu | 33 | 37 | 28 | 20 | 32 | 37 | 39 | 35 |
| Mae gen i ormod o gyfrifoldebau gartref i wneud mwy o ddysgu | 38 | 33 | 44 | 23 | 41 | 45 | 40 | 38 |

Nodyn: Un ymateb (lefel cytundeb) i bob datganiad.

Ymddengys mai'r gyfres fwyaf cyson o agweddau at ddysgu oedd:

- 'Mae dysgu yn bleserus ynddo'i hun', lle roedd naw o bob deg (90%) o'r rhai a oedd yn cytuno â hyn yn 2004 hefyd yn cytuno yn 2005; ac
- 'Rydw i'n hyderus am ddysgu sgiliau newydd', lle roedd bron i naw o bob deg (87%) o'r rhai a oedd yn cytuno â hyn yn 2004 hefyd yn cytuno yn 2005.

Roedd yr agweddau a newidiodd fwyaf o'r naill flwyddyn i'r llall yn adlewyrchu newid cadarnhaol; roeddent yn dangos bod llawer llai o ymatebwyr a gytunodd â datganiadau negyddol yn cytuno â nhw flwyddyn yn ddiweddarach:

- 'Nid oes digon o gymorth a chyngor ar gael', lle roedd bron i hanner (47%) y rhai a oedd yn cytuno nad oedd ar gael yn 2004 yn cytuno â hyn hefyd yn 2005; a
- 'Does gan weddill fy nheulu fawr ddim diddordeb mewn dysgu', lle roedd bron i draean (31%) y rhai a oedd yn cytuno â hyn yn 2004 yn cytuno yn 2005 hefyd.

## 6.3 Agweddau at heriau a chyfrifoldeb

Rhoddwyd set arall o ddatganiadau i'r ymatebwyr, a oedd yn ymwneud â sut roeddent yn croesawu heriau a chyfrifoldebau newydd a pha mor bwysig oedd eu hamser rhydd iddyn nhw. Amcan y cwestiwn hwn oedd archwilio pa mor sensitif oedd pobl i ymgymryd â chyfrifoldebau newydd yn gyffredinol.

**Tabl 33: Cwestiwn newydd am agweddau at ddysgu (2005) % sy'n cytuno yn ôl statws gwaith a dosbarth cymdeithasol**

| Sylfaen: yr holl ymatebwyr | Cyfanswm | Mewn cyflogaeth amser llawn | Mewn cyflogaeth ran-amse | Ddim yn gweithio | Wedi ymddeol | AB | C1 | C2 | DE |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Sylfaen heb ei phwysoli | 1,309 | 406 | 147 | 277 | 345 | 231 | 314 | 299 | 464 |
| Sylfaen wedi'i phwysoli | 1,309 | 497 | 159 | 203 | 300 | 264 | 347 | 314 | 382 |
| | % | % | % | % | % | % | % | % | % |
| Rydw i'n betrus am ddysgu oherwydd safon y gwaith sydd ei angen | 21 | 13 | 21 | 31 | 28 | 12 | 21 | 19 | 29 |
| Mae gen i ormod o gyfrifoldebau yn y gwaith i wneud mwy o ddysgu | 33 | 43 | 24 | 2 | – | 31 | 33 | 39 | 27 |
| Mae gen i ormod o gyfrifoldebau gartref i wneud mwy o ddysgu | 38 | 36 | 46 | 40 | 41 | 28 | 38 | 40 | 44 |

Nodyn: Un ymateb (lefel cytundeb) i bob datganiad. Ni chynhwyswyd 'ddim yn gwybod' yn y tabl.
Mae – yn dynodi sero

Roedd yr ymatebion i'r datganiadau'n gwrth-ddweud ei gilydd rhywfaint; er bod ychydig yn fwy na thri chwarter (76%) yn cytuno eu bod yn mwynhau her newydd, dywedodd chwech o bob deg (62%) eu bod yn hoffi cadw at drefn reolaidd. Mae'n rhaid bod cyfran o'r ymatebwyr hyn wedi gorgyffwrdd. Gallai hyn awgrymu, er bod ymatebwyr yn cytuno eu bod yn mwynhau her newydd, na ddylai effaith yr 'her' hon effeithio ar y drefn arferol. Dywedodd dau o bob pump o'r ymatebwyr na fyddent yn derbyn cyfrifoldebau newydd os nad oedd rhaid iddynt.

Roedd amser i ymlacio ac amser i'r plant (ymysg yr ymatebwyr a chanddynt deuluoedd) yn bwysig gydag ychydig dros hanner yn cytuno â'r datganiadau hyn. Roedd bron i dri o bob deg o ymatebwyr a oedd yn gweithio (29%) yn cael anhawster rheoli cyfrifoldebau rhwng y cartref a'r gwaith. Ymddengys bod y canfyddiadau hyn yn cadarnhau'r pwysau ar amser rhydd a sut i'w ddefnyddio mewn modd manteisiol i nifer sylweddol o ymatebwyr.

O ran dadansoddi yn ôl is-grŵp:

- Roedd menywod yn arwyddocaol fwy tebygol na dynion o gytuno â'r datganiad 'Fy mlaenoriaeth i o ran amser yw bod gyda'r plant' (63% o'i gymharu â 46%) ac roeddent yn cael anhawster i reoli cyfrifoldebau gwaith a chyfrifoldebau cartref (32% o'i gymharu â 26%). Roeddent yn llai tebygol o ddweud

## Tabl 34: Agweddau at ddysgu (2004 a 2005) % sy'n cytuno

| | 2004 | 2005 |
|---|---|---|
| | Cyfanswm | Cyfanswm |
| Sylfaen heb ei phwysoli: yr holl ymatebwyr | 1,309 | 1,309 |
| Sylfaen wedi'i phwysoli | 1,309 | 1,309 |
| | % | % |
| Mae dysgu yn bleserus ynddo'i hun | 87 | 87 |
| Rydw i'n hyderus am ddysgu sgiliau newydd | 78 | 77 |
| Wela i ddim pam ddylwn i dalu am ddysgu sy'n ymwneud â'm swydd neu fy ngyrfa[+1] | 51 | 53 |
| Rydw i'n adnabod llawer o bobl yn f'ardal i sy'n dysgu | 40 | 38 |
| Nid oes digon o gymorth a chyngor ar gael am y gwahanol fathau o ddysgu y gall pobl ymgymryd â hwy | 37 | 28 |
| Ni ddylid disgwyl i bobl ddysgu sgiliau newydd ar gyfer eu gyrfaoedd yn eu hamser eu hunain | 27 | 23 |
| Does gen i mo'r ysgogiad i ddilyn cwrs | 27 | 30 |
| Mi fyddwn yn teimlo'n chwithig mewn dosbarth | 23 | 25 |
| Does gan weddill fy nheulu fawr ddim diddordeb mewn dysgu | 16 | 13 |

Nodyn: Un ymateb (lefel cytundeb) i bob datganiad. Ni chynhwyswyd 'ddim yn gwybod' yn y tabl. + ni chynigiwyd y datganiad ond i ymatebwyr nad ydynt wedi ymddeol nac yn anabl i weithio (sylfaen wedi'i phwysoli 2005, 933).
[+1]Mae sylfaen y cwestiwn hwn yn wahanol ar gyfer 2004 a 2005; yn 2005 ni ofynnwyd y cwestiwn hwn i'r rhai a oedd wedi ymddeol neu'n anabl i weithio. Felly, dylid trin y cymariaethau gyda gofal.

eu bod yn mwynhau her newydd (70% o'i gymharu ag 81% o ddynion).

- Roedd y grwpiau oedran hŷn yn llai tebygol o gytuno eu bod yn blaenoriaethu eu holl amser i fod gyda'r plant (37% o'r grwpiau 44 – 55 oed a 39% o'r grŵp 55 oed a throsodd). Roedd y grŵp 55 oed a throsodd yn arwyddocaol fwy tebygol o ddweud na fyddent yn derbyn cyfrifoldebau newydd os nad oedd rhaid iddynt (54%). Mae'r canfyddiadau hyn yn adlewyrchu rhai'r ymatebwyr a oedd wedi ymddeol.
- Roedd y grŵp dan 24 oed yn arwyddocaol fwy tebygol o gytuno eu bod yn mwynhau her newydd (93% o'i gymharu â 62% o'r grŵp 55 oed a throsodd) a nhw oedd leiaf tebygol o gytuno na fyddent yn derbyn cyfrifoldebau newydd (24% o'i gymharu â 54% o'r grŵp 55 oed a throsodd).
- Ymddengys bod amser rhydd i ymlacio yn bwysig i'r holl grwpiau oedran a'r ddau grŵp rhyw.

| Thema eang | Cymharu canfyddiadau rhwng 2004 a 2005 |
|---|---|
| Mwynhad, hyder a chymhelliant | Mae hyder wedi cynyddu ymysg:<br>• Dosbarth cymdeithasol C2 (77% yn 2004 i 81% yn 2005)<br>Roedd menywod a'r rhai 55 oed a throsodd yn debycach o ddweud nad oedd ganddyn nhw yr ysgogiad i ddilyn cwrs (fel yr oedd y rhai a oedd wedi ymddeol):<br>• Menywod (26% yn 2004 i 32% yn 2005)<br>• 55 oed a throsodd (45% yn 2004 i 51% yn 2005) |
| Cymryd cyfrifoldeb dros ddysgu sy'n gysylltiedig â swydd/hyfforddiant | Darlun cymysg a ddaeth i'r amlwg am barodrwydd i dalu[+1] a threulio amser personol ar ddysgu sy'n gysylltiedig â swydd. Roedd mwy o ymatebwyr yn cytuno na ddylent orfod talu am ddysgu yn y grwpiau canlynol:<br>• Dynion (46% yn 2004 i 51% yn 2005)<br>• 35 – 44 (46% yn 2004 i 52% yn 2005)<br>• 55 oed a throsodd (45% yn 2004 i 54% yn 2005)<br>Dylid nodi bod y rhai dan 24 oed a'r rhai 25 – 34 oed yn llai tebygol o gytuno, sy'n golygu eu bod yn fwy cadarnhaol tuag at dalu am ddysgu. Roedd hyn yr un peth i ymatebwyr nad oeddent yn gweithio (58% yn 2004 i 47% yn 2005).<br>Roedd nifer arwyddocaol lai o ymatebwyr yn cytuno na ddylent orfod defnyddio'u hamser eu hunain ar gyfer dysgu sy'n gysylltiedig â swydd yn y grwpiau canlynol:<br>• Menywod (31% yn 2004 i 25% yn 2005)<br>• 17 – 24 (26% yn 2004 i 22% yn 2005)<br>• 55 oed a throsodd (26% 2004 i 19% yn 2005) |
| Cymorth a chyngor | Daeth patrwm cadarnhaol i'r amlwg wrth i nifer arwyddocaol is o ymatebwyr ym mhob is-grŵp bron gytuno nad oedd cymorth a chyngor ar gael. Efallai'n fwyaf nodedig, bu newid cadarnhaol mewn agweddau tuag at argaeledd cymorth ymysg y rhai nad ydynt yn gweithio (48% yn 2004 i 41% yn 2005). |
| Cysylltiad â phobl eraill yn yr amgylchedd dysgu | Yn y mwyafrif o'r isgrwpiau, roedd llai o ymatebwyr yn cytuno eu bod yn adnabod llawer o bobl sy'n dysgu:<br>• Menywod (41% yn 2004 i 37% yn 2005)<br>• 17 – 24 (61% yn 2004 i 54% yn 2005)<br>• 25 – 34 oed (38% yn 2004 i 27% yn 2005)<br>• Dosbarth cymdeithasol C1 (43% yn 2004 i 38% yn 2005) |

Nodyn: [+1] dim ond i'r rhai nad oeddent wedi ymddeol neu'n anabl i weithio y gofynnwyd y cwestiwn hwn



**Tabl 35: Agweddau at ddysgu (2004 a 2005) % sy'n cytuno yn ôl rhyw**

| Sylfaen: yr holl ymatebwyr | Cyfanswm | | Dynion | | Menywod | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2004 | 2005 | 2004 | 2005 | 2004 | 2005 |
| Sylfaen heb ei phwysoli | 1,309 | 1,309 | 614 | 614 | 694 | 694 |
| Sylfaen wedi'i phwysoli | 1,309 | 1,309 | 658 | 658 | 649 | 650 |
| | % | % | % | % | % | % |
| Mae dysgu yn bleserus ynddo'i hun | 87 | 87 | 85 | 84 | 89 | 91 |
| Rydw i'n hyderus am ddysgu sgiliau newydd | 78 | 77 | 83 | 83 | 73 | 71 |
| Wela i ddim pam ddylwn i dalu am ddysgu sy'n ymwneud â'm swydd neu fy ngyrfa+1 | 51 | 53 | 46 | 51 | 56 | 54 |
| Rydw i'n adnabod llawer o bobl yn f'ardal i sy'n dysgu | 40 | 38 | 39 | 38 | 41 | 37 |
| Nid oes digon o gymorth a chyngor ar gael am y gwahanol fathau o ddysgu y gall pobl ymgymryd â hwy | 37 | 28 | 37 | 26 | 36 | 30 |
| Ni ddylid disgwyl i bobl ddysgu sgiliau newydd ar gyfer eu gyrfaoedd yn eu hamser eu hunain | 27 | 23 | 24 | 20 | 31 | 25 |
| Does gen i mo'r ysgogiad i ddilyn cwrs | 27 | 30 | 29 | 27 | 26 | 32 |
| Mi fyddwn yn teimlo'n chwithig mewn dosbarth | 23 | 25 | 23 | 23 | 23 | 26 |
| Does gan weddill fy nheulu fawr ddim diddordeb mewn dysgu | 16 | 13 | 15 | 13 | 17 | 12 |

Nodyn: Un ymateb (lefel cytundeb) i bob datganiad. Ni chynhwyswyd 'ddim yn gwybod' yn y tabl. + ni chynigiwyd y datganiad ond i ymatebwyr nad ydynt wedi ymddeol nac yn anabl i weithio yn 2005 (sylfaen wedi'i phwysoli 2005, 933), felly nid oes modd cymharu'n uniongyrchol â 2004 a dylid trin y cymariaethau â gofal. +1 dim ond i'r rhai nad oeddent wedi ymddeol neu'n anabl i weithio y gofynnwyd y cwestiwn hwn

## Tabl 36: Agweddau at ddysgu (2004 a 2005) % sy'n cytuno yn ôl oedran

| Sylfaen: yr holl ymatebwyr | Cyfanswm | | Dan 24 | | 25 – 34 | | 35 – 44 | | 45 – 54 | | 55 + | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2004 | 2005 | 2004 | 2005 | 2004 | 2005 | 2004 | 2005 | 2004 | 2005 | 2004 | 2005 |
| Sylfaen heb ei phwysoli | 1,309 | 1,309 | 148 | 129 | 227 | 181 | 250 | 262 | 210 | 229 | 471 | 507 |
| Sylfaen wedi'i phwysoli: | 1,309 | 1,309 | 149 | 161 | 256 | 244 | 236 | 238 | 197 | 194 | 471 | 471 |
| | % | % | % | % | % | % | % | % | % | % | % | % |
| Mae dysgu yn bleserus ynddo'i hun | 87 | 87 | 78 | 82 | 87 | 86 | 86 | 85 | 86 | 87 | 90 | 91 |
| Rydw i'n hyderus am ddysgu sgiliau newydd | 78 | 77 | 96 | 91 | 89 | 91 | 87 | 86 | 79 | 80 | 61 | 59 |
| Wela i ddim pam ddylwn i dalu am ddysgu sy'n ymwneud â'm swydd neu fy ngyrfa+1 | 51 | 53 | 60 | 53 | 60 | 51 | 46 | 52 | 55 | 54 | 45 | 54 |
| Rydw i'n adnabod llawer o bobl yn f'ardal i sy'n dysgu | 40 | 38 | 61 | 54 | 38 | 27 | 37 | 39 | 40 | 39 | 36 | 37 |
| Nid oes digon o gymorth a chyngor ar gael am y gwahanol fathau o ddysgu y gall pobl ymgymryd â hwy | 37 | 28 | 47 | 34 | 39 | 35 | 38 | 28 | 36 | 25 | 31 | 23 |
| Ni ddylid disgwyl i bobl ddysgu sgiliau newydd ar gyfer eu gyrfaoedd yn eu hamser eu hunain | 27 | 23 | 25 | 22 | 30 | 28 | 28 | 23 | 28 | 27 | 26 | 19 |
| Does gen i mo'r ysgogiad i ddilyn cwrs | 27 | 30 | 9 | 9 | 13 | 18 | 24 | 21 | 22 | 23 | 45 | 51 |
| Mi fyddwn yn teimlo'n chwithig mewn dosbarth | 23 | 25 | 15 | 16 | 15 | 18 | 18 | 21 | 25 | 26 | 33 | 33 |
| Does gan weddill fy nheulu fawr ddim diddordeb mewn dysgu | 16 | 13 | 13 | 11 | 17 | 13 | 13 | 11 | 14 | 12 | 18 | 14 |

Nodyn: Un ymateb (lefel cytundeb) i bob datganiad. Ni chynhwyswyd 'ddim yn gwybod' yn y tabl + ni chynigiwyd y datganiad ond i ymatebwyr nad ydynt wedi ymddeol nac yn anabl i weithio yn 2005 (sylfaen wedi'i phwysoli 2005, 933), felly nid oes modd cymharu'n uniongyrchol â 2004 a dylid trin y cymariaethau â gofal. +1 dim ond i'r rhai nad oeddent wedi ymddeol neu'n anabl i weithio y gofynnwyd y cwestiwn hwn.

**Tabl 37: Agweddau at ddysgu (2004 a 2005) % sy'n cytuno yn ôl statws gwaith**

| Sylfaen: yr holl ymatebwyr | Cyfanswm | | Mewn full time | | Employed part time | | Ddim yn gweithio | | Wedi ymddeol | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2004 | 2005 | 2004 | 2005 | 2004 | 2005 | 2004 | 2005 | 2004 | 2005 |
| Sylfaen heb ei phwysoli | 1,309 | 1,309 | 407 | 406 | 158 | 147 | 291 | 277 | 328 | 345 |
| Sylfaen wedi'i phwysoli | 1,309 | 1,309 | 490 | 497 | 175 | 159 | 207 | 203 | 304 | 301 |
| | % | % | % | % | % | % | % | % | % | % |
| Mae dysgu yn bleserus ynddo'i hun | 87 | 87 | 86 | 85 | 89 | 93 | 83 | 88 | 90 | 92 |
| Rydw i'n hyderus am ddysgu sgiliau newydd | 78 | 77 | 90 | 91 | 78 | 77 | 71 | 69 | 59 | 55 |
| Wela i ddim pam ddylwn i dalu am ddysgu sy'n ymwneud â'm swydd neu fy ngyrfa[+1] | 51 | 53 | 54 | 58 | 61 | 62 | 58 | 47 | 39 | N/A |
| Rydw i'n adnabod llawer o bobl yn f'ardal i sy'n dysgu | 40 | 38 | 42 | 38 | 43 | 39 | 34 | 27 | 33 | 36 |
| Nid oes digon o gymorth a chyngor ar gael am y gwahanol fathau o ddysgu y gall pobl ymgymryd â hwy | 37 | 28 | 36 | 29 | 38 | 26 | 48 | 41 | 30 | 22 |
| Ni ddylid disgwyl i bobl ddysgu sgiliau newydd ar gyfer eu gyrfaoedd yn eu hamser eu hunain | 27 | 23 | 29 | 26 | 33 | 29 | 27 | 25 | 24 | 19 |
| Does gen i mo'r ysgogiad i ddilyn cwrs | 27 | 30 | 17 | 17 | 19 | 24 | 34 | 35 | 49 | 54 |
| Mi fyddwn yn teimlo'n chwithig mewn dosbarth | 23 | 25 | 16 | 17 | 13 | 18 | 34 | 40 | 35 | 35 |
| Does gan weddill fy nheulu fawr ddim diddordeb mewn dysgu | 16 | 13 | 14 | 12 | 15 | 10 | 21 | 17 | 18 | 14 |

Nodyn: Un ymateb (lefel cytundeb) i bob datganiad. Ni chynhwyswyd 'ddim yn gwybod' yn y tabl. + ni chynigiwyd y datganiad ond i ymatebwyr nad ydynt wedi ymddeol nac yn anabl i weithio yn 2005 (sylfaen wedi'i phwysoli 2005, 933), felly nid oes modd cymharu'n uniongyrchol â 2004 a dylid trin y cymariaethau â gofal. +1 dim ond i'r rhai nad oeddent wedi ymddeol neu'n anabl i weithio y gofynnwyd y cwestiwn hwn.

## Tabl 38: Agweddau at ddysgu (2004 a 2005) % sy'n cytuno yn ôl dosbarth cymdeithasol

| Sylfaen: yr holl ymatebwyr | Cyfanswm | | AB | | C1 | | C2 | | DE | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2004 | 2005 | 2004 | 2005 | 2004 | 2005 | 2004 | 2005 | 2004 | 2005 |
| Sylfaen heb ei phwysoli | 1,309 | 1,309 | 232 | 231 | 306 | 314 | 307 | 299 | 464 | 464 |
| Sylfaen wedi'i phwysoli | 1,309 | 1,309 | 271 | 264 | 335 | 348 | 320 | 314 | 383 | 384 |
| | % | % | % | % | % | % | % | % | % | % |
| Mae dysgu yn bleserus ynddo'i hun | 87 | 87 | 92 | 92 | 86 | 89 | 86 | 83 | 85 | 86 |
| Rydw i'n hyderus am ddysgu sgiliau newydd | 78 | 77 | 86 | 81 | 82 | 81 | 77 | 81 | 69 | 68 |
| Wela i ddim pam ddylwn i dalu am ddysgu sy'n ymwneud â'm swydd neu fy ngyrfa+1 | 51 | 53 | 40 | 43 | 54 | 55 | 48 | 53 | 59 | 58 |
| Rydw i'n adnabod llawer o bobl yn f'ardal i sy'n dysgu | 40 | 38 | 48 | 47 | 43 | 38 | 37 | 36 | 35 | 32 |
| Nid oes digon o gymorth a chyngor ar gael am y gwahanol fathau o ddysgu y gall pobl ymgymryd â hwy | 37 | 28 | 29 | 18 | 33 | 22 | 36 | 33 | 46 | 36 |
| Ni ddylid disgwyl i bobl ddysgu sgiliau newydd ar gyfer eu gyrfaoedd yn eu hamser eu hunain | 27 | 23 | 26 | 15 | 25 | 22 | 28 | 28 | 29 | 26 |
| Does gen i mo'r ysgogiad i ddilyn cwrs | 27 | 30 | 19 | 23 | 22 | 26 | 25 | 28 | 40 | 40 |
| Mi fyddwn yn teimlo'n chwithig mewn dosbarth | 23 | 25 | 9 | 11 | 18 | 18 | 21 | 26 | 40 | 39 |
| Does gan weddill fy nheulu fawr ddim diddordeb mewn dysgu | 16 | 13 | 8 | 8 | 14 | 11 | 15 | 12 | 23 | 17 |

Nodyn: Un ymateb (lefel cytundeb) i bob datganiad. Ni chynhwyswyd 'ddim yn gwybod' yn y tabl. + ni chynigiwyd y datganiad ond i ymatebwyr nad ydynt wedi ymddeol nac yn anabl i weithio yn 2005 (sylfaen wedi'i phwysoli 2005, 933), felly nid oes modd cymharu'n uniongyrchol â 2004 a dylid trin y cymariaethau â gofal. +1 dim ond i'r rhai nad oeddent wedi ymddeol neu'n anabl i weithio y gofynnwyd y cwestiwn hwn.





**Tabl 39: Agweddau at ddysgu yn ôl ymateb o'r naill flwyddyn i'r llall**

| | Cytundeb â'r datganiad yn 2004 | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Sylfaen: Pawb a gytunodd â'r datganiad yn 2004 | Mae dysgu yn bleserus ynddo'i hun | Rydw i'n hyderus am ddysgu sgiliau newydd | IWela i ddim pam ddylwn i dalu am ddysgu sy'n ymwneud â'm swydd neu fy ngyrfa+I | Rydw i'n adnabod llawer o bobl yn f'ardal i sy'n dysgu | Nid oes digon o gymorth a chyngor ar gael am y gwahanol fathau o ddysgu gall pobl ymgymryd â hwy | Ni ddylid disgwyl i bobl ddysgu sgiliau newydd ar gyfer eu gyrfaoedd yn eu hamser eu hunain | Does gen i mo'r ysgogiad i ddilyn cwrs | Mi fyddwn yn teimlo'n chwithig mewn dosbarth | Does gan weddill fy nheulu fawr ddim diddordeb mewn dysgu |
| Sylfaen wedi'i phwysoli | 1,130 | 1,030 | 510 | 528 | 483 | 360 | 341 | 299 | 205 |
| | % | % | % | % | % | % | % | % | % |
| % yn cytuno yn 2005 | 90 | 87 | 64 | 57 | 47 | 39 | 65 | 58 | 31 |
| % yn anghytuno yn 2005 | 4 | 6 | 16 | 30 | 40 | 45 | 25 | 36 | 52 |

Nodyn: Un ymateb (lefel cytundeb) i bob datganiad. Ni chynhwyswyd 'ddim yn gwybod' yn y tabl. + holwyd y rhai nad oeddent wedi ymddeol nac yn anabl i weithio yn 2005 ynghylch y datganiad. +I dim ond i'r rhai nad oeddent wedi ymddeol nac yn anabl i weithio y gofynnwyd y cwestiwn hwn.

- Y rhai a oedd yn gweithio'n amser llawn oedd leiaf tebygol o ddweud bod trefn reolaidd yn bwysig iddyn nhw (56% o'i gymharu â 62% o'r gweithwyr rhan-amser a 67% o'r rhai nad ydynt yn gweithio).
- Roedd grŵp dosbarth cymdeithasol DE yn arwyddocaol fwy tebygol na'r mwyafrif o grwpiau eraill o gytuno nad oeddent yn derbyn cyfrifoldebau newydd os nad oedd rhaid iddynt (56%) a'u bod yn hoffi cadw at drefn reolaidd (71%). Roeddent yn arwyddocaol lai tebygol o ddweud eu bod yn mwynhau her newydd (68%).

## 6.4 Crynodeb

At ei gilydd, ni fu llawer o newid o'r naill flwyddyn i'r llall yn y sefyllfa'n ymwneud ag agweddau tuag at ddysgu. Roedd y newidiadau mwyaf arwyddocaol mewn perthynas ag agweddau mwy cadarnhaol am faint o wybodaeth a chyngor a oedd ar gael, ac roedd cyfran lai yn cytuno na ddylent orfod defnyddio'u hamser eu hunain ar gyfer dysgu sy'n gysylltiedig â swydd.

Wrth archwilio agweddau o'r naill flwyddyn i'r llall, mae'r data'n dangos mai'r agweddau mwyaf cyson oedd:

- 'Mae dysgu yn bleserus ynddo'i hun' (roedd 90% o'r rhai a oedd yn cytuno â hyn y llynedd yn gwneud hynny eto yn 2005)
- 'Rydw i'n hyderus am ddysgu sgiliau newydd' (roedd 87% o'r rhai a oedd yn cytuno â hyn yn 2004 yn gwneud hynny eto yn 2005)

Ymddengys bod hyn yn awgrymu bod mwynhau dysgu a hyder wrth ymgymryd â dysgu yn aros yn gymharol gyson yn yr unigolyn, ar ôl eu hennyn i gychwyn.

Bu sawl symudiad mewn isgrwpiau penodol tua'r cadarnhaol a sawl un tua'r negyddol. Mae'r tabl isod yn amlygu'r rhain:

O'r datganiadau newydd a ychwanegwyd yn 2005, mae'r data'n dangos bod un o bob

### Tabl 40: Agweddau at heriau a chyfrifoldeb (2005) % sy'n cytuno yn ôl rhyw ac oedran

| Sylfaen: Pawb | Cyfa-swm | Dynion | Menywod | Dan 24 | 25 – 34 | 35 – 44 | 45 – 54 | 55 + |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Sylfaen heb ei phwysoli | 1,309 | 614 | 694 | 129 | 181 | 262 | 229 | 507 |
| Sylfaen wedi'i phwysoli | 1,309 | 658 | 650 | 162 | 242 | 237 | 195 | 471 |
| | % | % | % | % | % | % | % | % |
| Rydw i'r math o berson sy'n mwynhau her newydd | 76 | 81 | 70 | 93 | 82 | 83 | 77 | 62 |
| Rydw i'n hoffi cadw at drefn reolaidd | 62 | 60 | 64 | 58 | 60 | 59 | 60 | 66 |
| Rydw i'n hoffi digon o amser rhydd i ymlacio | 59 | 60 | 58 | 69 | 56 | 52 | 56 | 63 |
| Fy mlaenoriaeth i drwy'r amser yw bod gyda'r plant** | 55 | 46 | 63 | 59 | 65 | 55 | 37 | 39 |
| Dydw i ddim yn derbyn cyfrifoldebau newydd os nad oes rhaid i mi | 40 | 39 | 41 | 24 | 30 | 35 | 37 | 54 |
| Rydw i'n aml yn cael anhawster i reoli cyfrifoldebau gwaith a chyfrifoldebau cartref* | 29 | 26 | 32 | 23 | 31 | 30 | 38 | 24 |

Nodyn: Un ymateb (lefel cytundeb) i bob datganiad. Ni chynhwyswyd 'ddim yn gwybod' yn y tabl. * Ni chynigiwyd y datganiad hwn ond i ymatebwyr nad oeddent wedi ymddeol nac yn anabl i weithio (sylfaen wedi'i phwysoli 2005, 933); ** Ni chynigiwyd y datganiad hwn ond i ymatebwyr a chanddynt blant (sylfaen wedi'i phwysoli 2005, 508)

pump o'r ymatebwyr yn betrus oherwydd safon y gwaith sydd ei angen i ddysgu (yn debycach o fod yn fenywod ac yn ymatebwyr hŷn). Roedd gan ryw draean o'r ymatebwyr ormod o gyfrifoldebau yn y gwaith neu gartref i wneud mwy o ddysgu. Mae pwysau amser ar yr unigolyn yn thema sy'n codi drwy gydol yr adroddiad. Ymddengys bod angen mynd i'r afael â'r rhwystr canfyddedig neu wirioneddol hwn er mwyn denu mwy o bobl i ddysgu.

Er bod ychydig dros dri chwarter o'r ymatebwyr yn cytuno eu bod yn mwynhau her newydd, cawsom hefyd fod ychydig yn fwy na chwech o bob deg (62%) yn cytuno eu bod yn hoffi cadw at drefn reolaidd. Gan hynny (roedd y data'n gorgyffwrdd lle roedd yr ymatebwr o'r ddwy farn), mae'r data'n awgrymu bod angen i'r her newydd effeithio cyn lleied â phosibl ar y drefn reolaidd.





**Tabl 41: Agweddau at heriau a chyfrifoldeb (2005) % sy'n cytuno yn ôl statws gwaith a dosbarth cymdeithasol**

| Sylfaen wedi'i phwysoli | Cyfanswm | Mewn cyflogaeth amser llawn | Mewn cyflogaeth ran-amser | Ddim yn gweithio | Wedi ymddeol | AB | C1 | C2 | DE |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Sylfaen heb ei phwysoli | 1,309 | 406 | 147 | 277 | 345 | 231 | 314 | 299 | 464 |
| Sylfaen wedi'i phwysoli | 1,309 | 497 | 159 | 203 | 300 | 264 | 347 | 314 | 382 |
| | % | % | % | % | % | % | % | % | % |
| Rydw i'r math o berson sy'n mwynhau her newydd | 76 | 87 | 76 | 72 | 58 | 79 | 79 | 79 | 68 |
| Rydw i'n hoffi cadw at drefn reolaidd | 62 | 56 | 62 | 67 | 72 | 54 | 58 | 62 | 71 |
| Rydw i'n hoffi digon o amser rhydd i ymlacio | 59 | 57 | 57 | 60 | 64 | 55 | 63 | 53 | 63 |
| Fy mlaenoriaeth i drwy'r amser yw bod gyda'r plant** | 55 | 49 | 65 | 67 | 44 | 44 | 61 | 48 | 62 |
| Dydw i ddim yn derbyn cyfrifoldebau newydd os nad oes rhaid i mi | 40 | 27 | 37 | 50 | 62 | 28 | 32 | 38 | 56 |
| Rydw i'n aml yn cael anhawster i reoli cyfrifoldebau gwaith a chyfrifoldebau cartref* | 29 | 33 | 28 | 12 | N/A | 33 | 31 | 28 | 26 |

Nodyn: Un ymateb (lefel cytundeb) i bob datganiad. Ni chynhwyswyd 'ddim yn gwybod' yn y tabl. * Ni chynigiwyd y datganiad hwn ond i ymatebwyr nad oeddent wedi ymddeol nac yn anabl i weithio (sylfaen wedi'i phwysoli 2005, 933); ** Ni chynigiwyd y datganiad hwn ond i ymatebwyr a chanddynt blant (sylfaen wedi'i phwysoli 2005, 508)

Roedd amser i ymlacio yn bwysig (roedd chwech o bob deg yn cytuno bod angen llawer ohono arnynt). Yn achos pedwar o bob deg o ymatebwyr, ni fyddent yn derbyn cyfrifoldebau newydd os nad oedd rhaid iddynt.

Mae'r canfyddiadau hyn, unwaith eto, yn cysylltu ag unigolion sy'n amharod i ddefnyddio unrhyw amser rhydd sydd ganddynt am unrhyw beth sy'n ychwanegu mwy o gyfrifoldebau neu bwysau.

**Tabl 42: Crynodeb o'r newidiadau cadarnhaol a negyddol mewn agweddau at ddysgu**

| | Newid arwyddocaol tuag at gytuno'n fwy | Newid arwyddocaol tuag at lefel is o gytuno |
|---|---|---|
| Rydw i'n hyderus am ddysgu sgiliau newydd | GDC C2 | GDC AB |
| Wela i ddim pam ddylwn i dalu am ddysgu sy'n ymwneud â'm swydd neu fy ngyrfa+I* | 35 – 44<br>55 +<br>Dynion<br>Cyflogaeth llawn amser<br>GDC C2 | Dan 24<br>25 – 34<br>Ddim yn gweithio |
| Rydw i'n adnabod llawer o bobl yn f'ardal i sy'n dysgu | | Menywod<br>Dan 24<br>25 – 34<br>Ddim yn gweithio<br>GDC C1 |
| Nid oes digon o gymorth a chyngor ar gael am y gwahanol fathau o ddysgu y gall pobl ymgymryd â hwy* | | Newidiadau tuag at lefel is o gytuno ar draws pob grŵp |
| Ni ddylid disgwyl i bobl ddysgu sgiliau newydd ar gyfer eu gyrfaoedd yn eu hamser eu hunain* | | Menywod<br>55 +<br>35 – 44<br>Cyflogaeth rhan amser<br>Wedi ymddeol<br>GDC AB |
| Does gen i mo'r ysgogiad i ddilyn cwrs* | Menywod<br>25 – 34<br>55 +<br>Cyflogaeth rhan amser<br>Wedi ymddeol<br>GDC AB<br>GDC C1 | |

Nodyn: ni ofynnwyd ond i'r rhai nad oeddent wedi ymddeol neu'n anabl i weithio. * Datganiadau negyddol, felly mae newidiadau tuag at gytuno'n llai yn ganlyniad cadarnhaol. **I dim ond i'r rhai nad oeddent wedi ymddeol neu'n anabl i weithio y gofynnwyd y cwestiwn hwn.

# 7 CYMHELLION I DDYSGU AC EFFEITHIAU





## 7.1 Cyflwyniad

Yn 2004 a 2005, roedd yr holiadur yn cynnwys cwestiynau ynghylch pam roedd yr ymatebwyr yn dechrau ar gwrs dysgu. Gofynnwyd i'r ymatebwyr a gymerodd ran mewn unrhyw hyfforddiant neu ddysgu yn y flwyddyn ddiwethaf (ac eithrio'r rhai a gymerodd ran mewn cwrs cyffredinol yn y gweithle yn unig fel cwrs iechyd a diogelwch) beth oedd eu cymhellion i ddysgu o restr o resymau. Mae'r adran hon yn archwilio'r canfyddiadau i'r cwestiwn hwn ac yn trafod yr effaith y gallai amserlen ei chael ar y cymhelliant i ddilyn cwrs. Yn olaf, mae'n ystyried manteision dysgu i'r unigolyn.

## 7.2 Cymhellion i ddysgu

### 8.2.1 Canfyddiadau: 2005

Mae Tabl 46 yn dangos mai'r ddau reswm mwyaf cyffredin a roddwyd dros ddewis eu prif bwnc neu sgil oedd 'i'm helpu yn fy swydd bresennol' (33%) ac 'ennill cymhwyster cydnabyddedig' (9%).

Yr ymatebion eraill a enwyd gan rhwng 5% ac 8% oedd:

- i ddatblygu fy hun fel person (7%)
- i gael swydd (7%)
- mae gen i ddiddordeb yn y pwnc/diddordeb personol (7%)
- i newid y math o waith rydw i'n ei wneud (6%)
- rwy'n mwynhau dysgu/mae'n rhoi mwynhad i mi (5%)

Pan ddadansoddwyd y data yn ôl newidynnau demograffig allweddol roedd rhai gwahaniaethau arwyddocaol i dynnu sylw atynt:

- Roedd oedran yn ffactor, gyda chwarter (26%) y rhai dan 24 oed yn datgan eu bod wedi dewis dysgu i gael swydd a 10% yn datgan eu bod wedi dewis dysgu i'w helpu i gael mynediad i gwrs dysgu arall yn y dyfodol, o'i gymharu â'r rhai dros 25 oed (4% ac 1% yn y drefn honno).
- Roedd ymatebwyr 55 oed a throsodd yn debycach o fod yn dysgu am resymau personol; roedd un o bob saith (15%) yn cytuno â'r datganiad 'Rwy'n mwynhau dysgu/mae'n rhoi mwynhad i mi' ac un o bob chwech (18%) yn cytuno â'r datganiad 'Mae gen i ddiddordeb yn y pwnc/diddordeb personol', o'i gymharu â'r rhai dan 55 oed (3% a 4% yn y drefn honno).
- Roedd statws gwaith hefyd yn ddylanwadol, a nododd y rhai a oedd yn gweithio ar y pryd, naill ai'n amser llawn neu'n rhan-amser, eu bod yn dysgu i'w helpu yn eu swydd bresennol (43%).
- Roedd y rhai a oedd wedi ymddeol yn arbennig o debygol o nodi 'Rwy'n mwynhau dysgu/mae'n rhoi mwynhad i mi' (24%) ac 'Mae gen i ddiddordeb yn y pwnc/diddordeb personol' (30%).
- Roedd y rhai yng ngrŵpiau dosbarth cymdeithasol C2 a DE (14% a 10%) yn fwy tebygol na'r rhai yng ngrŵp AB (3%) o fod wedi dysgu i gael swydd. Roedd y rhai yn C2 yn fwy tebygol na'r holl grwpiau eraill o ddymuno codiad yn eu henillion (7% o'i gymharu â llai nag 1% mewn grwpiau dosbarth cymdeithasol eraill).

**Tabl 43: Y prif reswm dros gychwyn ar y prif weithgaredd dysgu/hyfforddi yn ôl rhyw (2005)**

| Sylfaen: Pawb a ddysgodd neu a hyfforddodd yn y flwyddyn ddiwethaf, ac eithrio'r rhai a oedd wedi bod ar gwrs cyffredinol yn y gweithle yn unig | Cyfanswm | Rhyw | |
|---|---|---|---|
| | | Dynion | Menywod |
| Heb ei phwysoli | 564 | 266 | 298 |
| Wedi'i phwysoli | 626 | 321 | 306 |
| | % | % | % |
| I'm cynorthwyo yn fy swydd bresennol | 33 | 33 | 32 |
| I gael swydd | 7 | 8 | 6 |
| I gael cymhwyster cydnabyddedig | 9 | 8 | 10 |
| Mae gen i ddiddordeb yn y pwnc/diddordeb personol | 7 | 7 | 7 |
| I hybu fy natblygiad fel person | 7 | 7 | 6 |
| I newid y math o waith rydw i'n ei wneud | 6 | 7 | 4 |
| Rwy'n mwynhau dysgu/mae'n rhoi pleser i mi | 5 | 5 | 6 |
| I gael dyrchafiad | 3 | 3 | 2 |
| I gael mwy o foddhad o'm gwaith | 3 | 2 | 4 |
| Nid fy newis i oedd mewn gwirionedd – cyflogwr yn mynnu | 4 | 3 | 5 |
| Nid fy newis i oedd mewn gwirionedd – gofyniad proffesiynol | 3 | 3 | 2 |
| I gael codiad cyflog | 2 | 3 | 1 |
| I gael swydd gyda chyflogwr gwahanol | 2 | 2 | 2 |
| I'm helpu i fynd ar gwrs dysgu yn y dyfodol | 3 | 1 | 4 |
| I hybu fy hunanhyder | 1 | 1 | 1 |
| I helpu, neu i gadw'i fyny â, fy mhlant/wyrion | 2 | 2 | 2 |
| Am fod ffrindiau/aelodau o'r teulu hefyd yn dysgu | * | * | – |

Nodyn: Cwestiwn amlymateb. Nid yw 'ddim yn gwybod' wedi'i gynnwys yn y tabl. Mae * yn dynodi llai na 0.5% ond mwy na sero





**Tabl 44: Y prif reswm dros gychwyn ar y prif weithgaredd dysgu/hyfforddi yn ôl oedran (2005)**

| | % | % | % | % | % | % | % | % | % | % |
| Prinder amser | 23 | 24 | 36 | 38 | 28 | 32 | 36 | 25 | 14 | 15 |
| Dyletswyddau teuluol/ gofal plant | 14 | 18 | 31 | 37 | 21 | 19 | 7 | 13 | 6 | 11 |
| Dim byd yn fy rhwystro | 14 | 17 | 13 | 12 | 11 | 15 | 13 | 24 | 16 | 18 |
| Pwysau gwaith/ oriau gwaith | 11 | 12 | 20 | 21 | 21 | 23 | 24 | 17 | 3 | 3 |
| Problemau iechyd/salwch/ wedi bod yn yr ysbyty | – | 11 | – | 8 | – | 6 | – | 12 | – | 14 |
| Yn teimlo mod i'n rhy hen | 10 | 9 | – | – | – | * | 3 | – | 20 | 18 |
| Methu â gweld y pwynt | 3 | 6 | * | * | 3 | 3 | 3 | 3 | 3 | 10 |

Nodyn: Cwestiwn amlymateb. Dangosir yr ymatebion a gafodd dros 6% yn arolwg 2005. Ni ddangosir y rhai dan 24 oed, mae sylfaen 2004 yn rhy fach i gymharu. Mae * yn dynodi llai na 0.5% ond mwy na sero. Mae – yn dynodi sero. Mae ** yn dynodi sylfaen fach (yn llai na 100)

dysgu yn y flwyddyn ddiwethaf, o'i gymharu â dim ond dau o bob deg (21%) yn 2004.

- Roedd ymatebwyr y nodwyd eu bod naill ai yng ngrŵp AB, C1 neu C2 ac a oedd heb wneud unrhyw ddysgu yn y flwyddyn ddiwethaf yn fwyfwy tebygol o fod wedi ystyried gwneud.

## 8.5 Pa mor agos a ddaethoch chi at fynd i ddysgu yn y flwyddyn ddiwethaf?

### 8.5.1 Canfyddiadau: 2005

Gofynnwyd i'r ymatebwyr a ystyriodd wneud unrhyw ddysgu yn y flwyddyn ddiwethaf yn y ddau gam pa mor agos ddaethon nhw at ymgymryd â'r dysgu.

Fel y dengys siart 5, ni wnaeth dros eu hanner (55%) fwy na meddwl am y peth. Roedd ychydig yn fwy na thri o bob deg (31%) wedi cymryd y cam nesaf a naill ai wedi ceisio cyngor am y pwnc (12%) neu ble dylent fynd i astudio cwrs penodol (19%). Roedd dau arall o bob deg (19%) wedi ceisio dod o hyd i rywle i wneud y cwrs. Fodd bynnag, roedd

### Tabl 58: Canran yr ymatebwyr sydd wedi ystyried dysgu yn y flwyddyn ddiwethaf, fesul amgylchiad aelwyd a chymwysterau

| Sylfaen: Pawb na wnaethant unrhyw fath o hyfforddiant neu ddysgu yn y flwyddyn ddiwethaf, gan gynnwys y rhai a wnaeth gwrs cyffredinol yn y gweithle yn unig | Cyfanswm | Sefyllfa'r cartref | | Lefel cymhwyster uchaf | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Rhywun yn gweithio | Neb yn gweithio | Dim cymwysterau | Lefel 1 | Lefel 2 | Lefel 3 | Lefel 4 & 5 | Arall |
| Sylfaen heb ei phwysoli | 745 | 411 | 334 | 207 | 117 | 125 | 42 | 120 | 134 |
| Sylfaen wedi'i phwysoli | 683 | 420 | 263 | 164 | 115 | 119 | **45 | 121 | 118 |
| | % | % | % | % | % | % | % | % | % |
| Do | 27 | 32 | 18 | 15 | 37 | 32 | 56 | 26 | 16 |
| Naddo | 72 | 66 | 82 | 85 | 61 | 67 | 44 | 71 | 83 |

Nodyn: Mae ** yn dynodi sylfaen heb ac wedi'i phwysoli yn llai na 100. Ddim yn gwybod heb ei gynnwys yn y tabl.

### Tabl 59: Canran yr ymatebwyr sydd wedi ystyried dysgu yn y flwyddyn ddiwethaf, fesul rhyw (2004 a 2005)

| Sylfaen: Pawb na wnaethant unrhyw ddysgu yn y flwyddyn ddiwethaf (gan gynnwys y rhai a wnaeth gwrs cyffredinol yn y gweithle yn unig) | Cyfanswm | | Rhyw | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Dynion | | Female | |
| | 2004 | 2005 | 2004 | 2005 | 2004 | 2005 |
| Sylfaen heb ei phwysoli | 715 | 745 | 339 | 348 | 375 | 396 |
| Sylfaen wedi'i phwysoli | 676 | 683 | 343 | 338 | 332 | 345 |
| | % | % | % | % | % | % |
| Do | 24 | 27 | 23 | 29 | 24 | 24 |
| Naddo | 76 | 72 | 77 | 70 | 75 | 74 |

Nodyn: Mae * yn dynodi llai na 0.5% ond mwy na sero. Ddim yn gwybod heb ei gynnwys yn y tabl.





**Tabl 60: Canran yr ymatebwyr sydd wedi ystyried dysgu yn y flwyddyn ddiwethaf, fesul oed (2004 a 2005)**

| Sylfaen: Pawb na wnaethant unrhyw ddysgu yn y flwyddyn ddiwethaf neu a wnaeth gwrs cyffredinol yn y gweithle yn unig | Cyfanswm | | oedran | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | 25 – 34 | | 35 – 44 | | 45 – 54 | | 55 + | |
| | 2004 | 2005 | 2004 | 2005 | 2004 | 2005 | 2004 | 2005 | 2004 | 2005 |
| Sylfaen heb ei phwysoli | 715 | 745 | **100 | **87 | 119 | 127 | 107 | 107 | 348 | 370 |
| Sylfaen wedi'i phwysoli | 676 | 683 | 104 | 104 | 105 | 109 | 96 | 85 | 332 | 322 |
| | % | % | % | % | % | % | % | % | % | % |
| Do | 24 | 27 | 44 | 37 | 21 | 41 | 23 | 26 | 16 | 15 |
| Naddo | 76 | 72 | 56 | 60 | 77 | 58 | 77 | 72 | 84 | 85 |

Nodyn: Ddim yn gwybod heb ei gynnwys yn y tabl. Mae – yn dynodi sero. Mae ** yn dynodi sylfaen fach (sylfaen heb ei phwysoli yn llai na 100). Ni ddangosir y data ar gyfer y rhai dan 24 oed am fod y sylfaen yn rhy fach i gymharu.

**Tabl 61: Canran yr ymatebwyr sydd wedi ystyried dysgu yn y flwyddyn ddiwethaf, fesul dosbarth cymdeithasol (2004 a 2005)**

| Sylfaen: Pawb na wnaethant unrhyw ddysgu yn y flwyddyn ddiwethaf neu a wnaeth gwrs cyffredinol yn y gweithle yn unig | Cyfanswm | | Dosbarth cymdeithasol | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | AB | | C1 | | C2 | | DE | |
| | 2004 | 2005 | 2004 | 2005 | 2004 | 2005 | 2004 | 2005 | 2004 | 2005 |
| Sylfaen heb ei phwysoli | 715 | 745 | **81 | **72 | 137 | 165 | 179 | 174 | 318 | 333 |
| Sylfaen wedi'i phwysoli | 676 | 683 | 89 | 77 | 141 | 172 | 180 | 166 | 266 | 267 |
| | % | % | % | % | % | % | % | % | % | % |
| Do | 24 | 27 | 25 | 33 | 25 | 29 | 21 | 26 | 24 | 24 |
| Naddo | 76 | 72 | 75 | 64 | 75 | 71 | 78 | 71 | 76 | 76 |

Nodyn: Ddim yn gwybod heb ei gynnwys yn y tabl.

cyfran fach o'r rhai a ystyriodd ddysgu wedi dod ar draws problemau, naill ai wrth geisio gwneud cais am gwrs (6%), gwnaethant gais am gwrs ond fe'i canslwyd ar ôl hynny (3%) neu cawsant broblemau a'u rhwystrodd rhag mynychu (4%). Aeth dau y cant i'r sesiwn gyntaf, ond wedyn ni aethant yn ôl. Nid oedd unrhyw wahaniaethau'n amlwg yn yr isgrwpiau.

### 8.5.2 Cymharu'r data: 2004 a 2005

Ychwanegwyd dau gategori ateb newydd at y cwestiwn hwn yn 2005; 'Ceisiais gyngor ar ba bwnc y dylwn ei astudio' a 'Ceisiais gyngor ar ba le y gallwn astudio pwnc arbennig'. Mae'n werth nodi y gallai ychwanegiad y ddau gategori ateb hwn fod wedi newid y broses benderfynu, ac felly ni allwn gymharu tebyg â thebyg.

Fodd bynnag, mae'r darlun cyffredinol yn debyg iawn i 2004, lle roedd llai na dau o bob deg wedi ymadael â'r broses benderfynu yn gynnar, cyn iddynt ystyried pa fath o ddysgu yr hoffent ei wneud hyd yn oed. Roedd dros draean (39% yn 2004 a 36% yn 2005) wedi ystyried astudio pwnc penodol ond heb wneud unrhyw beth pellach.

## 8.6 Lle cafwyd cyngor ynghylch beth i ddysgu neu ble i ddysgu (data 2005 yn unig)

Gofynnwyd i'r ymatebwyr a oedd naill ai wedi ceisio cyngor ynghylch pa bwnc i astudio neu ble i astudio o ble y cawsant gyngor. Ar y cyfan, dim ond 37 o bobl a nododd eu bod wedi ceisio cyngor ac felly dylid trin y ffigurau hyn gyda gofal.

Y brif ffynhonnell gyngor oedd swyddfa dderbyn y coleg (39%), ac wedyn y Rhyngrwyd (12%). Ymhlith y ffynonellau eraill roedd:

- papurau newydd a chylchgronau (9%)
- llyfrgell (7%)
- ymgynghorydd mewn canolfan wybodaeth ac arweiniad (5%)
- ymgynghorwyr yn Gyrfa Cymru (4%)

Roedd maint y sylfeini'n rhy fach i ganiatáu unrhyw ddadansoddiad o isgrwpiau.

## 8.7 Pam nad aethoch chi â'ch ystyriaeth i ddysgu ymhellach?

### 8.7.1 Canfyddiadau: 2005

Gofynnwyd yn y ddau gam i'r ymatebwyr a oedd wedi ystyried cyfranogi mewn dysgu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf pam nad oedden nhw wedi mynd â phethau ymhellach. Y prif reswm oedd am eu bod yn rhy brysur neu fod diffyg amser ganddynt (23%). Y rhesymau eraill a roddwyd gan dros 5% o'r ymatebwyr oedd:

- ymrwymiadau eraill (teulu, cartref, diddordebau ayb) (15%)
- ymrwymiadau yn y gwaith/oriau gwaith (9%)
- diffyg ysgogiad/apathi/dim diddordeb (7%)
- cynhaliwyd y cwrs ar amser anghyfleus (7%)
- problemau iechyd (7%)
- rhy ddrud (6%)
- ddim yn gwneud y cwrs roeddwn i ei eisiau/methu â dod o hyd i gwrs addas/cwrs yn llawn (5%)
- aros i glywed gan ddarparwr y cwrs/heb glywed dim ganddynt (5%)

### 8.7.2 Cymharu'r data: 2004 a 2005

Yn yr un modd â chanfyddiadau 2004, nododd ymatebwyr nad aethant â'u hystyriaeth i ddysgu ymhellach am nad oedd amser ganddynt neu am eu bod yn rhy brysur (22% yn 2004 a 23% yn 2005).

- ymrwymiadau teuluol/gartref (15% yn 2004 a 19% yn 2005)
- problemau iechyd (4% yn 2004 a 7% yn 2005)





## 8.8 Crynodeb


Ar y cyfan, ni fu newid ar hyd y ddau gam yn y rhwystrau i ddysgu a wynebai'r ymatebwyr. Fodd bynnag, daeth ymrwymiadau teuluol neu ofal plant yn fwyfwy o rwystr i ddysgu – roedd menywod yn arbennig o debygol o enwi hwn yn rhwystr.

Mae dynion wedi dod yn fwy tebygol o nodi nad oedd digon o amser ganddynt i ddysgu.

Fodd bynnag, ar hyd y ddau gam, daethant yn fwyfwy tebygol o fod wedi ystyried ymgymryd â dysgu yn y flwyddyn ddiwethaf.

Os edrychwn ar y cwestiwn 'Pa mor agos a ddaethoch chi at fynd i ddysgu?', arhosodd y ffigurau'n eithaf sefydlog eto.

**Siart 5: Canran y rhai nad oeddent yn dysgu ar wahanol gamau yn y broses benderfynu**




Sylfaen: Pawb nad oeddent yn dysgu a ystyriodd ddysgu ar unrhyw adeg yn y flwyddyn ddiwethaf (182 wedi'i bwysoli a 189 heb ei bwysoli)

# 9 CYNLLUNIAU AM Y DYFODOL

## 9.1 Cyflwyniad

Yn 2004 a 2005, archwiliodd yr holiadur nodau a dyheadau'r ymatebwyr am y flwyddyn ganlynol. Archwiliodd hefyd eu canfyddiadau am yr effaith a gafodd y dysgu ar eu helpu i gyrraedd y nodau hyn. Mae'r adran hon yn delio ag unrhyw newidiadau i'r tebygolrwydd a nododd yr ymatebwyr y byddant yn dysgu yn y dyfodol hefyd.

## 9.2 Dyheadau am y flwyddyn ganlynol

### 9.2.1 Canfyddiadau: 2005

Roedd y dyheadau am y flwyddyn ganlynol yn amrywio. Yr ymateb mwyaf cyffredin gan ychydig dros draean (36%) o'r ymatebwyr oedd codiad cyflog. Roedd gan yr ymatebwyr ddiddordeb mewn datblygiad personol, ac roedd rhyw draean am gyfarfod â phobl (33%), am ddatblygu eu hun fel person (32%), am ddysgu sgil newydd (30%), am helpu eu plant neu wyrion gyda'u dysgu neu eu gwaith cartref (28%) ac am wella'u hunanhyder (26%). At ei gilydd, soniodd llai nag un o bob wyth o'r ymatebwyr am ddyheadau a ymwnâi â datblygiad gyrfa – newid y math o waith rydw i'n ei wneud (13%), cael dyrchafiad (13%), cael swydd (9%) a chael swydd gyda chyflogwr gwahanol (7%).

Pan ddadansoddwyd y data yn ôl newidynnau demograffig allweddol roedd rhai gwahaniaethau arwyddocaol i dynnu sylw atynt:

- Roedd dynion yn llawer mwy tebygol na menywod o enwi agweddau sy'n gysylltiedig â swydd h.y. cael codiad cyflog (42% o'i gymharu â 30%), cael mwy o foddhad o'm gwaith (23% o'i gymharu â 15%), gwneud yn well yn fy swydd bresennol (21% o'i gymharu â 15%), newid y math o waith rydw i'n ei wneud (15% o'i gymharu â 10%) a chael dyrchafiad (16% o'i gymharu ag 11%).
- Roedd menywod yn arwyddocaol fwy tebygol na dynion o fod eisiau gwella'u hunanhyder (33% o'i gymharu â 18%).
- Roedd oedran yn dylanwadu ar ddyheadau, gyda bron i hanner (47%) o'r grŵp 25 i 44 oed am helpu eu plant gyda'u dysgu neu eu gwaith cartref. Roedd nifer debyg (46%) o'r rhai dan 24 oed am gael cymhwyster cydnabyddedig neu am gyfarfod â phobl newydd (44%).
- Nid oedd y mwyafrif o'r dyheadau yn benodol i ddosbarth cymdeithasol. Fodd bynnag, roedd y rhai yng ngrŵp AB (42%) yn arwyddocaol fwy tebygol o fod eisiau datblygu eu hun fel person nag oedd y rhai yng ngrwpiau C2 (29%) a DE (23%). Mewn cyferbyniad, roedd y rhai yng ngrŵp DE (7%) yn arwyddocaol lai tebygol o fod eisiau gwneud yn well yn eu swydd bresennol na'r rhai yn y grwpiau dosbarth cymdeithasol uwch (22%).
- Roedd ymatebwyr yn debycach o fod wedi datgan dyheadau os oeddent wedi ymgymryd â dysgu naill ai yn ystod y flwyddyn ddiwethaf neu'r tair blynedd diwethaf (o'i gymharu â'r rhai nad oeddent wedi dysgu). Nododd ychydig dros ddau o bob deg (22%) o'r rhai na wnaethant unrhyw ddysgu yn y tair blynedd diwethaf nad oedd ganddynt unrhyw un o'r dyheadau am y flwyddyn nesaf neu'n fuan wedyn.
- Yn yr un modd, y rhai a nododd eu bod yn annhebygol (28%) o ddysgu yn y dyfodol oedd fwyaf tebygol hefyd o beidio ag enwi unrhyw un o'r dyheadau ar y rhestr.





## Tabl 62: Dyheadau am y flwyddyn nesaf yn ôl rhyw ac oedran 2005

| Sylfaen: yr holl ymatebwyr | Cyfanswm | Rhyw | | Oedran | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Dynion | Menywod | Dan 24 | 25 – 34 | 35 – 44 | 45 – 54 | 55+ |
| Sylfaen heb ei phwysoli | 1,309 | 614 | 694 | 129 | 181 | 262 | 229 | 507 |
| Sylfaen wedi'i phwysoli | 1,309 | 658 | 649 | 162 | 242 | 237 | 195 | 471 |
| | % | % | % | % | % | % | % | % |
| Cael swydd | 9 | 9 | 9 | 28 | 14 | 6 | 8 | 2 |
| Cael swydd gyda chyflogwr gwahanol | 7 | 8 | 6 | 14 | 10 | 10 | 7 | 1 |
| Newid y math o waith rydw i'n ei wneud | 13 | 15 | 10 | 19 | 20 | 18 | 14 | 3 |
| Cael cymhwyster cydnabyddedig | 19 | 16 | 21 | 46 | 31 | 22 | 14 | 3 |
| Gwneud yn well yn fy ngwaith presennol | 18 | 21 | 15 | 17 | 30 | 27 | 20 | 6 |
| Cael dyrchafiad | 13 | 16 | 11 | 15 | 28 | 19 | 14 | 2 |
| Cael codiad cyflog | 36 | 42 | 30 | 44 | 56 | 53 | 45 | 11 |
| Cael mwy o foddhad o'm gwaith | 19 | 23 | 15 | 17 | 27 | 26 | 27 | 8 |
| Cael mynediad i gwrs dysgu arall yn y dyfodol | 17 | 17 | 18 | 32 | 25 | 18 | 11 | 11 |
| Datblygu fy hun fel person | 32 | 29 | 34 | 37 | 40 | 32 | 35 | 24 |
| Gwella fy hunanhyder | 26 | 18 | 33 | 30 | 32 | 26 | 26 | 30 |
| Cyfarfod pobl | 33 | 31 | 35 | 44 | 33 | 28 | 25 | 34 |
| Helpu fy mhlant gyda'u dysgu/gwaith cartref | 28 | 27 | 29 | 13 | 43 | 50 | 29 | 13 |
| Dysgu sgil newydd | 30 | 30 | 30 | 48 | 49 | 31 | 24 | 16 |
| Dim un o'r rhain | 12 | 12 | 11 | – | 1 | 2 | 9 | 27 |

Nodyn: Cwestiwn amlymateb. Ddim yn gwybod heb ei gynnwys yn y tabl.

**Tabl 63: Dyheadau am y flwyddyn nesaf yn ôl gweithgaredd dysgu yn 2004 a dosbarth cymdeithasol**

| Sylfaen: yr holl ymatebwyr | | Gweithgaredd dysgu diweddar | | | Dosbarth cymdeithasol | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cyfan-swm | Dysgu yn y flwyddyn ddiwethaf | Dysgu yn y gorffennol | Dim dysgu yn y 3 blynedd ddiwethaf | AB | C1 | C2 | DE |
| Sylfaen heb ei phwysoli | 1,309 | 634 | 767 | 542 | 231 | 314 | 299 | 464 |
| Sylfaen wedi'i phwysoli | 1,309 | 698 | 833 | 476 | 264 | 347 | 313 | 384 |
| | % | % | % | % | % | % | % | % |
| Cael swydd | 9 | 10 | 10 | 8 | 3 | 7 | 9 | 15 |
| Cael swydd gyda chyflogwr gwahanol | 7 | 10 | 9 | 4 | 7 | 8 | 9 | 5 |
| Newid y math o waith rydw i'n ei wneud | 13 | 16 | 15 | 9 | 14 | 11 | 16 | 10 |
| Cael cymhwyster cydnabyddedig | 19 | 26 | 24 | 9 | 11 | 20 | 25 | 17 |
| Gwneud yn well yn fy ngwaith presennol | 18 | 26 | 24 | 7 | 26 | 21 | 21 | 7 |
| Cael dyrchafiad | 13 | 17 | 18 | 5 | 15 | 16 | 15 | 9 |
| Cael codiad cyflog | 36 | 46 | 46 | 20 | 35 | 43 | 44 | 26 |
| Cael mwy o foddhad o'm gwaith | 19 | 27 | 25 | 7 | 27 | 21 | 20 | 10 |
| Cael mynediad i gwrs dysgu arall yn y dyfodol | 17 | 22 | 21 | 10 | 16 | 15 | 19 | 19 |
| Datblygu fy hun fel person | 32 | 40 | 38 | 21 | 42 | 34 | 29 | 23 |
| Gwella fy hunanhyder | 26 | 25 | 26 | 25 | 23 | 21 | 27 | 30 |
| Cyfarfod pobl | 33 | 35 | 35 | 29 | 35 | 38 | 28 | 31 |



**Tabl 63: Dyheadau am y flwyddyn nesaf yn ôl gweithgaredd dysgu yn 2004 a dosbarth cymdeithasol (Parhad)**

| Sylfaen: yr holl ymatebwyr | | Gweithgaredd dysgu diweddar | | | Dosbarth cymdeithasol | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cyfan-swm | Dysgu yn y flwyddyn ddiwethaf | Dysgu yn y gorffennol | Dim dysgu yn y 3 blynedd ddiwethaf | AB | C1 | C2 | DE |
| Sylfaen heb ei phwysoli | 1,309 | 634 | 767 | 542 | 231 | 314 | 299 | 464 |
| Sylfaen wedi'i phwysoli | 1,309 | 698 | 833 | 476 | 264 | 347 | 313 | 384 |
| | % | % | % | % | % | % | % | % |
| Helpu fy mhlant gyda'u dysgu/gwaith cartref | 28 | 28 | 29 | 25 | 25 | 28 | 30 | 27 |
| Dysgu sgil newydd | 30 | 38 | 37 | 18 | 33 | 28 | 35 | 26 |
| Dim un o'r rhain | 12 | 6 | 6 | 22 | 7 | 10 | 8 | 20 |

Nodyn: Cwestiwn amlymateb. Ddim yn gwybod heb ei gynnwys yn y tabl.

### 9.2.2 Cymharu'r data: 2004 a 2005

Efallai'n naturiol, pwysigrwydd incwm oedd amlycaf eto. Fodd bynnag, yn 2005, ymddengys bod incwm wedi dod ychydig yn bwysicach i aelodau'r panel, gyda chynnydd arwyddocaol yn y nifer a hoffai godiad cyflog (32% yn 2004 o'i gymharu â 36% yn 2005.

Fodd bynnag, roedd yn ddiddorol nodi bod dyheadau eraill a nodwyd amlaf gan aelodau'r panel yn gysylltiedig yn benodol â datblygiad personol yr unigolyn, yn hytrach nag â digwyddiadau sy'n gysylltiedig â dysgu neu gyflogaeth. Mae hefyd yn werth nodi y daeth y dyheadau hyn yn fwyfwy pwysig, gyda chodiadau arwyddocaol rhwng 2004 a 2005. Er enghraifft, roedd ychydig yn llai na chwarter (23%) o aelodau'r panel am gyfarfod â phobl newydd yn 2004, a chododd hyn i draean (33%) yn 2005. Yn yr un modd, roedd ychydig dros chwarter o aelodau'r panel (27%) am ddatblygu fel person yn 2004, a gododd eto i bron i draean (32%) yn 2005.

Yn gadarnhaol, mae aelodau'n panel wedi dod i ddyheu am fwy, gyda nifer arwyddocaol lai yn nodi nad oedd dim ar y rhestr yn berthnasol i'r hyn roeddent hwy am ei gyflawni yn y flwyddyn nesaf (18% yn 2004 o'i gymharu â 12% yn 2005).

Dangosodd y dadansoddiad:

- Nad oedd y twf mewn 'dyheadau' yn benodol i un rhyw. Fodd bynnag, mae aelodau gwrywaidd ein panel wedi canolbwyntio fwyfwy ar wneud yn well yn eu swydd bresennol (14% yn 2004 o'i gymharu ag 21% yn 2005) ac ar gael mwy o foddhad o'u gwaith (18% yn 2004 o'i gymharu â 23% yn 2005). Roedd menywod yn dal yn fwy tebygol na dynion o sôn am wella'u hunanhyder a bu cynnydd yn y dyhead hwn ymhlith menywod o'r naill flwyddyn i'r llall, o 29% yn 2004 i 33%

## Tabl 64: Dyheadau am y flwyddyn nesaf yn ôl blwyddyn o fewn rhyw

| Sylfaen: yr holl ymatebwyr | Cyfanswm | | Rhyw | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Dynion | | Menywod | |
| | 2004 | 2005 | 2004 | 2005 | 2004 | 2005 |
| Sylfaen heb ei phwysoli | 1,309 | 1,309 | 614 | 614 | 694 | 694 |
| Sylfaen wedi’i phwysoli | 1,309 | 1,309 | 658 | 658 | 649 | 650 |
| | % | % | % | % | % | % |
| Cael swydd | 9 | 9 | 10 | 9 | 9 | 9 |
| Cael swydd gyda chyflogwr gwahanol | 8 | 7 | 9 | 8 | 7 | 6 |
| Newid y math o waith rydw i’n ei wneud | 13 | 13 | 15 | 15 | 11 | 10 |
| Cael cymhwyster cydnabyddedig | 17 | 19 | 16 | 16 | 18 | 21 |
| Gwneud yn well yn fy ngwaith presennol | 14 | 18 | 14 | 21 | 14 | 15 |
| Cael dyrchafiad | 10 | 13 | 13 | 16 | 6 | 11 |
| Cael codiad cyflog | 32 | 36 | 38 | 42 | 26 | 30 |
| Cael mwy o foddhad o’m gwaith | 17 | 19 | 18 | 23 | 16 | 15 |
| Cael mynediad i gwrs dysgu arall yn y dyfodol | 20 | 17 | 19 | 17 | 21 | 18 |
| Datblygu fy hun fel person | 27 | 32 | 24 | 29 | 29 | 34 |
| Gwella fy hunanhyder | 23 | 26 | 16 | 18 | 29 | 33 |
| Cyfarfod pobl | 23 | 33 | 20 | 31 | 26 | 35 |
| Helpu fy mhlant gyda’u dysgu/ gwaith cartref | 25 | 28 | 24 | 27 | 26 | 29 |
| Dim un o’r rhain | 18 | 12 | 18 | 12 | 18 | 11 |

Nodyn: Cwestiwn amlymateb. Ddim yn gwybod heb ei gynnwys yn y tabl.





yn 2005.  Daeth cael codiad cyflog yn y flwyddyn nesaf yn fwyfwy pwysig i ddynion a menywod rhwng 2004 a 2005. Fodd bynnag, ar y cyfan, roedd dynion yn dal yn llawer tebycach o sôn am godiad cyflog (42% o'i gymharu â 30% o fenywod).

- Daeth yr ymatebwyr ieuaf (dan 24 oed) yn fwyfwy tebygol o ddymuno cyfarfod â phobl newydd (29% yn 2004 o'i gymharu â 44% yn 2005), datblygu eu hun fel person (30% yn 2004 o'i gymharu â 37% yn 2005) a chael swydd gyda chyflogwr gwahanol (9% yn 2004 o'i gymharu â 14% yn 2005). I'r gwrthwyneb, roeddent yn llai tebygol o fod am gael swydd (36% yn 2004 o'i gymharu ag 28% yn 2005).

Yn gadarnhaol, mae nifer yr ymatebwyr yn y grŵp 55 oed a throsodd a nododd nad oedd dim o'r rhestr o gyflawniadau yn berthnasol iddyn nhw wedi gostwng yn arwyddocaol ar hyd y ddau gam, o ychydig yn llai na phedwar o bob deg (38%) yn 2004 i dros chwarter (27%) yn 2005. Gan edrych ar y grŵp a oedd wedi ymddeol, mae'r ganran hon wedi gostwng hefyd, o dros bedwar o bob deg (44%) i draean (32%).

Yn yr un modd â'r cam cyntaf, cyfarfod â phobl newydd (39%) oedd yr unig gyflawniad am y flwyddyn nesaf a nodwyd gan bron i gynifer o ymatebwyr a oedd wedi ymddeol â'r cyfartaledd. Roedd hyn wedi codi'n arwyddocaol o chwarter (24%) a'i nododd yn 2004. Roeddent yn arwyddocaol lai tebygol o nodi unrhyw un o'r dyheadau a oedd yn gysylltiedig â 'datblygiad personol'. Fodd bynnag, roedd cynnydd arwyddocaol yn nifer yr ymatebwyr a oedd wedi ymddeol a nododd yr hoffent helpu eu plant gyda'u dysgu neu eu gwaith cartref (9% yn 2004 o'i gymharu ag 16% yn 2005).

Daeth aelodau'r panel a oedd yn gweithio'n amser llawn i ymddiddori fwyfwy mewn gwneud yn well yn eu swydd bresennol neu gael codiad cyflog yn y flwyddyn nesaf, rhwng 2004 a 2005 fel a ganlyn:

- cael codiad cyflog (57% o'i gymharu â 65%)
- gwneud yn well yn fy ngwaith presennol (25% o'i gymharu â 33%)

Mae datblygiad personol hefyd wedi dod yn fwyfwy pwysig i weithwyr amser llawn a rhan-amser, gyda chynnydd arwyddocaol rhwng 2004 (amser llawn, 28% a rhan-amser, 33%) a 2005 (amser llawn, 35% a rhan-amser, 43%).

Roedd gweithwyr rhan-amser yn fwyfwy tebygol o nodi yr hoffent, yn y flwyddyn nesaf, gyfarfod â phobl (2004 – 26%, 2005 – 35%), cael mwy o foddhad o'u gwaith (2004 – 22%, 2005 – 28%), cael cymhwyster cydnabyddedig (2004 – 20%, 2005 – 26%) a newid y math o waith maent yn ei wneud (2004 – 16%, 2005 – 22%).

Roedd aelodau'r panel nad oeddent yn gweithio yn debycach o fod am gael swydd yn y flwyddyn nesaf neu'n fuan wedyn (36% yn 2004 o'i gymharu â 41% yn 2005). Mae nifer gynyddol a hoffai gael cymhwyster cydnabyddedig hefyd (27% yn 2004 o'i gymharu â 34% yn 2005), neu ddatblygu eu hun fel person (27% yn 2004 o'i gymharu â 33% yn 2005).

Yn gadarnhaol, bu lleihad yn nifer yr ymatebwyr heb gymwysterau yn nodi na hoffent gyflawni unrhyw un o'r dyheadau (39% yn 2004 o'i gymharu â 31% yn 2005).

## 9.3 Effaith dysgu ar gyflawni dyheadau

### 9.3.1 Canfyddiadau: 2005

Gofynnwyd i'r holl unigolion na wnaethant unrhyw ddysgu yn y flwyddyn ddiwethaf a fyddai cwrs dysgu yn eu helpu i gyflawni pob un o'r dyheadau a nodwyd am y flwyddyn nesaf. Rhoddwyd graddfa sgorio iddynt. Roedd y grŵp hwn yn cynnwys unrhyw un nad oedd wedi dysgu neu unrhyw un a wnaeth gwrs cyffredinol yn y gweithle yn unig, a oedd wedi cael hyfforddiant dan oruchwyliaeth neu a oedd wedi treulio amser yn dysgu am y datblygiadau diweddaraf.

**Tabl 65: Dyheadau am y flwyddyn nesaf yn ôl blwyddyn o fewn oedran**

| Sylfaen: yr holl ymatebwyr | Cyfanswm | | Oedran | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Dan 24 | | 25 – 34 | | 35 – 44 | | 45 – 54 | | 55+ | |
| | 2004 | 2005 | 2004 | 2005 | 2004 | 2005 | 2004 | 2005 | 2004 | 2005 | 2004 | 2005 |
| Sylfaen heb ei phwysoli | 1,309 | 1,309 | 148 | 129 | 227 | 181 | 250 | 262 | 210 | 229 | 471 | 507 |
| Sylfaen wedi'i phwysoli | 1,309 | 1,309 | 149 | 162 | 256 | 242 | 236 | 237 | 197 | 195 | 471 | 471 |
| | % | % | % | % | % | % | % | % | % | % | % | % |
| Cael swydd | 9 | 9 | 36 | 28 | 10 | 14 | 7 | 6 | 6 | 8 | 2 | 2 |
| Cael swydd gyda chyflogwr gwahanol | 8 | 7 | 9 | 14 | 18 | 10 | 9 | 10 | 10 | 7 | 1 | 1 |
| Newid y math o waith rydw i'n ei wneud | 13 | 13 | 15 | 19 | 22 | 20 | 18 | 18 | 16 | 14 | 3 | 3 |
| Cael cymhwyster cydnabyddedig | 17 | 19 | 46 | 46 | 26 | 31 | 18 | 22 | 16 | 14 | 3 | 3 |
| Gwneud yn well yn fy ngwaith presennol | 14 | 18 | 14 | 17 | 26 | 30 | 18 | 27 | 18 | 20 | 4 | 6 |
| Cael dyrchafiad | 10 | 13 | 15 | 15 | 22 | 28 | 14 | 19 | 6 | 14 | * | 2 |
| Cael codiad cyflog | 32 | 36 | 40 | 44 | 50 | 56 | 49 | 53 | 32 | 45 | 11 | 11 |
| Cael mwy o foddhad o'm gwaithg | 17 | 19 | 16 | 17 | 27 | 27 | 24 | 26 | 23 | 27 | 5 | 8 |
| Cael mynediad i gwrs dysgu arall yn y dyfodol | 20 | 17 | 34 | 32 | 27 | 25 | 21 | 18 | 15 | 11 | 13 | 11 |
| Datblygu fy hun fel person | 27 | 32 | 30 | 37 | 37 | 40 | 28 | 32 | 25 | 35 | 20 | 24 |
| Gwella fy hunanhyder | 23 | 26 | 28 | 30 | 32 | 32 | 23 | 26 | 20 | 26 | 17 | 20 |
| Cyfarfod pobl | 23 | 33 | 29 | 44 | 30 | 33 | 13 | 28 | 17 | 25 | 25 | 34 |

**Tabl 65: Dyheadau am y flwyddyn nesaf yn ôl blwyddyn o fewn oedran (Parhad)**

| Sylfaen: yr holl ymatebwyr | Cyfanswm | | Oedran | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Dan 24 | | 25 – 34 | | 35 – 44 | | 45 – 54 | | 55+ | |
| | 2004 | 2005 | 2004 | 2005 | 2004 | 2005 | 2004 | 2005 | 2004 | 2005 | 2004 | 2005 |
| Sylfaen heb ei phwysoli | 1,309 | 1,309 | 148 | 129 | 227 | 181 | 250 | 262 | 210 | 229 | 471 | 507 |
| Sylfaen wedi'i phwysoli | 1,309 | 1,309 | 149 | 162 | 256 | 242 | 236 | 237 | 197 | 195 | 471 | 471 |
| | % | % | % | % | % | % | % | % | % | % | % | % |
| Helpu fy mhlant gyda'u dysgu/ gwaith cartref | 25 | 28 | 11 | 13 | 43 | 43 | 45 | 50 | 24 | 29 | 9 | 13 |
| Dim un o'r rhain | 18 | 12 | 5 | – | 3 | – | 5 | 2 | 13 | 9 | 38 | 27 |

Sylwer: Cwestiwn amlymateb – yn dangos sero. Ddim yn gwybod heb gael ei gynnwys yn y tabl

Ar y cyfan, teimlai'r ymatebwyr y gallai cwrs dysgu 'helpu llawer' ym mhob agwedd ar eu bywydau. Dywedodd dros saith o bob deg o'r ymatebwyr y gallai dysgu eu *helpu llawer* i:

- gael cymhwyster cydnabyddedig (87%)
- dysgu sgil newydd (84%)
- cael swydd (75%)
- cael swydd gyda chyflogwr gwahanol (74%)
- newid y math o waith rydw i'n ei wneud (72%)

Nododd tua hanner y gallai dysgu eu *helpu llawer* i:

- gael mynediad i gwrs dysgu arall yn y dyfodol (62%)
- cyfarfod â phobl (58%)
- datblygu fy hun fel person (55%)
- gwella fy hunanhyder (54%)
- cael codiad cyflog (48%)
- cael dyrchafiad (48%)
- cael mwy o foddhad o'm gwaith (47%)

Rhywbeth arall a nodwyd oedd mai un o'r meysydd lle credwyd bod dysgu'n helpu leiaf oedd helpu plant gyda'u dysgu/gwaith cartref. Er y dywedodd rhyw bedwar o bob deg (43%) y gallai naill ai helpu llawer neu helpu ychydig (37%), dywedodd un o bob chwech (16%) na fyddai'n helpu o gwbl.

### 9.3.2 Cymharu'r data: 2004 a 2005

Yn yr un modd â chanfyddiadau 2004, credwyd bod dysgu'n fwy tebygol o helpu gyda dyheadau sy'n gysylltiedig â gwaith. Fodd bynnag, ystyriwyd bod dysgu'n fwyfwy pwysig i ddatblygiad proffesiynol a phersonol.

O ran datblygiad proffesiynol, roedd pwysigrwydd dysgu wrth helpu i gyflawni nodau wedi cynyddu'n arwyddocaol yn achos yr agweddau canlynol.

**Tabl 66: Dyheadau am y flwyddyn nesaf yn ôl statws gwaith**

| Base: All respondents | Cyfanswm | | Statws gwaith | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Gweithio'n amser llawn | | Gweithio'n rhan-amser | | Hunan-gyflogedig | | dim yn gweithio | | Wedi ymddeol | |
| | 2004 | 2005 | 2004 | 2005 | 2004 | 2005 | 2004 | 2005 | 2004 | 2005 | 2004 | 2005 |
| Sylfaen heb ei phwysoli | 1,309 | 1,309 | 407 | 406 | 158 | 147 | **59 | **77 | 291 | 277 | 328 | 345 |
| Sylfaen wedi'i phwysoli | 1,309 | 1,309 | 490 | 497 | 175 | 159 | 74 | 91 | 207 | 203 | 304 | 300 |
| | % | % | % | % | % | % | % | % | % | % | % | % |
| Cael swydd | 9 | 9 | 1 | 1 | 4 | 5 | – | – | 36 | 41 | 2 | 1 |
| Cael swydd gyda chyflogwr gwahanol | 8 | 7 | 15 | 12 | 11 | 15 | 2 | 3 | 3 | 1 | * | – |
| Newid y math o waith rydw i'n ei wneud | 13 | 13 | 23 | 21 | 16 | 22 | 9 | 6 | 7 | 7 | – | 1 |
| Cael cymhwyster cydnabyddedig | 17 | 19 | 20 | 22 | 20 | 26 | 14 | 7 | 19 | 20 | 1 | 2 |
| Gwneud yn well yn fy ngwaith presennol | 14 | 18 | 25 | 33 | 22 | 19 | 21 | 23 | 1 | 3 | 1 | 1 |
| Cael dyrchafiad | 10 | 13 | 22 | 29 | 8 | 13 | – | 2 | 2 | 4 | * | – |
| Cael codiad cyflog | 32 | 36 | 57 | 65 | 43 | 44 | 35 | 40 | 10 | 8 | 2 | 3 |
| Cael mwy o foddhad o'm gwaith | 17 | 19 | 29 | 31 | 22 | 28 | 9 | 21 | 7 | 6 | 2 | 3 |
| Cael mynediad i gwrs dysgu arall yn y dyfodol | 20 | 17 | 22 | 19 | 27 | 19 | 11 | 16 | 21 | 23 | 12 | 8 |
| Datblygu fy hun fel person | 27 | 32 | 28 | 35 | 33 | 43 | 32 | 31 | 24 | 25 | 19 | 20 |
| Gwella fy hunanhyder | 23 | 26 | 20 | 23 | 31 | 33 | 17 | 14 | 31 | 33 | 15 | 20 |
| Cyfarfod pobl | 23 | 33 | 17 | 29 | 26 | 35 | 17 | 23 | 31 | 33 | 24 | 39 |





**Tabl 66: Dyheadau am y flwyddyn nesaf yn ôl statws gwaith (Parhad)**

| Base: All respondents | Cyfanswm | | Statws gwaith | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Gweithio'n amser llawn | | Gweithio'n rhan-amser | | Hunan-gyflogedig | | dim yn gweithio | | Wedi ymddeol | |
| | 2004 | 2005 | 2004 | 2005 | 2004 | 2005 | 2004 | 2005 | 2004 | 2005 | 2004 | 2005 |
| Sylfaen heb ei phwysoli | 1,309 | 1,309 | 407 | 406 | 158 | 147 | **59 | **77 | 291 | 277 | 328 | 345 |
| Sylfaen wedi'i phwysoli | 1,309 | 1,309 | 490 | 497 | 175 | 159 | 74 | 91 | 207 | 203 | 304 | 300 |
| | % | % | % | % | % | % | % | % | % | % | % | % |
| Helpu fy mhlant gyda'u dysgu/gwaith cartref | 25 | 28 | 30 | 30 | 38 | 34 | 22 | 32 | 31 | 36 | 9 | 16 |
| Dysgu sgil newydd | N/A | 30 | N/A | 38 | N/A | 30 | N/A | 21 | N/A | 37 | N/A | 13 |
| Dim un o'r rhain | 18 | 12 | 7 | 4 | 9 | 5 | 17 | 13 | 15 | 11 | 44 | 32 |

Nodyn: Cwestiwn amlymateb. Ddim yn gwybod heb gael ei gynnwys yn y tabl. Mae ** yn dynodi sylfaen fach (sylfaen heb ei phwysoli yn llai na 100).

- newid y math o waith a wneir (58% yn 2004 o'i gymharu â 72% yn 2005)
- cael swydd (65% yn 2004 o'i gymharu â 75% yn 2005)
- cael codiad cyflog (38% yn 2004 o'i gymharu â 48% yn 2005)

  Yn yr un modd, roedd cynnydd arwyddocaol rhwng 2004 a 2005 yn nifer yr ymatebwyr a nododd y gallai cwrs dysgu eu helpu llawer yn eu datblygiad personol.

- cael lle ar gwrs dysgu yn y dyfodol (50% yn 2004 o'i gymharu â 62% yn 2005)
- cyfarfod â phobl (48% yn 2004 o'i gymharu â 58% yn 2005)
- gwella fy hunan-hyder (44% yn 2004 o'i gymharu â 54% yn 2005)
- datblygu fy hun fel person (47% yn 2004 o'i gymharu â 55% yn 2005)

## 9.4 Y tebygolrwydd o ddysgu yn y tair blynedd nesaf

### 9.4.1 Canfyddiadau: 2005

Yn 2005, nododd ychydig dros chwech o bob deg (62%) o'r ymatebwyr y byddent naill ai'n debygol iawn (35%) neu'n eithaf tebygol (27%) o ymgymryd â dysgu yn y 3 blynedd nesaf. Y rhai 34 oed neu'n iau (86%) oedd debycaf o ddweud y byddent yn ymgymryd â dysgu, tra mai'r rhai 55+ (37%) oedd leiaf tebygol. Roedd yr ymatebwyr a oedd yn gweithio yn fwy tebygol o nodi y byddent yn ymgymryd â dysgu na'r rhai nad oeddent yn gweithio.

**Tabl 67: I ba raddau y byddai cwrs o ddysgu yn helpu i gyflawni'r nodau hyn**

| | Total (weighted) | Might help a lot | Might help a little | Wouldn't help | Don't know |
|---|---|---|---|---|---|
| Sylfaen: yr holl ymatebwyr na wnaethant unrhyw ddysgu yn y flwyddyn ddiwethaf* | | % | % | % | % |
| Cael cymhwyster cydnabyddedig | 117 | 87 | 10 | 3 | 1 |
| Dysgu sgil newydd | 197 | 84 | 14 | 1 | 1 |
| Cael swydd | **78 | 75 | 17 | 8 | – |
| Newid y math o waith rydw i'n ei wneud | **84 | 72 | 19 | 6 | 3 |
| Cael swydd gyda chyflogwr gwahanol | **41 | 74 | 26 | – | – |
| Cael mynediad i gwrs dysgu arall yn y dyfodol | 110 | 62 | 26 | 9 | 4 |
| Datblygu fy hun fel person | 193 | 55 | 40 | 3 | 2 |
| Cyfarfod pobl | 228 | 58 | 29 | 11 | 2 |
| Gwella fy hunan-hyder | 186 | 54 | 34 | 10 | 1 |
| Cael mwy o foddhad o'm gwaith | **112 | 47 | 36 | 15 | 2 |
| Cael dyrchafiad | **89 | 48 | 30 | 21 | 1 |
| Gwneud yn well yn fy ngwaith presennol | **102 | 51 | 29 | 18 | 2 |
| Helpu fy mhlant gyda'u dysgu/gwaith cartref | 215 | 43 | 37 | 16 | 4 |
| Cael codiad cyflog | 240 | 48 | 25 | 27 | 1 |

Nodyn: Cwestiwn amlymateb. * Mae'r sylfaen yn cynnwys y rhai nad oeddent yn dysgu neu unrhyw un a wnaeth gwrs cyffredinol yn y gweithle yn unig, a gafodd hyfforddiant dan oruchwyliaeth mewn swydd neu a dreuliodd amser yn dysgu am y datblygiadau diweddaraf. Mae ** yn dynodi sylfaen fach heb ei phwysoli yn llai na 100).

### 9.4.2 Cymharu'r data: 2004 a 2005

Mae'r tebygolrwydd cyffredinol yr ymgymerir â dysgu yn y tair blynedd nesaf wedi aros yn gymharol sefydlog ar hyd y ddau gam. Nododd rhyw chwech o bob deg (62% yn 2005 a 59% yn 2004) eu bod naill ai'n debygol iawn neu'n eithaf tebygol o ymgymryd â dysgu yn y 3 blynedd nesaf. Fodd bynnag, mae yna rai gwahaniaethau diddorol rhwng yr isgrwpiau o ymatebwyr.

I grynhoi'r rhai a oedd yn 'debygol iawn' neu'n 'eithaf tebygol' o ymgymryd â dysgu yn y 3 blynedd nesaf, dangosodd yr arolwg:





- fod y tebygolrwydd o ddysgu yn y tair blynedd nesaf ymysg menywod wedi cynyddu rhwng 2004 (59%) a 2005 (64%).
- Bod oedran yn symbylydd hefyd. Roedd y ganran o'r grŵp dan 24 oed a oedd yn 'debygol iawn' o ddysgu yn arwyddocaol fwy tebygol nag unrhyw grŵp oedran o fod wedi cynyddu ar hyd y ddau gam (59% yn 2004 a 65% yn 2005). Dylid nodi bod yr holl debygolrwydd (h.y. tebygol iawn ac eithaf tebygol) o ddysgu yn y 3 blynedd nesaf wedi cynyddu'n arwyddocaol ymysg y rhai 25 – 34 (79% yn 2004 o'i gymharu ag 83% yn 2005) a'r rhai 45 – 54 oed (62% yn 2004 o'i gymharu â 67% yn 2005).
- Yn yr un modd, roedd gweithwyr rhan-amser (75%) ar y cyfan yn debycach (h.y. naill ai'n debygol iawn neu'n eithaf tebygol) o ymgymryd â dysgu nag oeddent yn 2004 (70%).
- Mae'r ymatebwyr yng ngrwpiau dosbarth cymdeithasol AB ac C2 wedi gweld cynnydd arwyddocaol yn nifer yr ymatebwyr a nododd eu bod yn debygol o ddysgu o'i gymharu â 2004 (AB – 71% yn 2004 o'i gymharu â 75% yn 2005 ac C2 – 60% yn 2004 o'i gymharu â 64% yn 2005).

Nodwyd eisoes y gofynnwyd yr un cwestiwn i'r ymatebwyr ynghylch y tebygolrwydd o ddysgu yn y dyfodol yn y ddau gam. Os oedd y tebygolrwydd o ddysgu wedi newid rhwng y ddau gam, gofynnwyd i'r ymatebwr pam yr oedd naill ai wedi cynyddu neu wedi gostwng.


Y prif reswm dros gynnydd yn y tebygolrwydd o ddysgu oedd bod yr ymatebwr:

- 'am ddysgu rhywbeth (newydd)/rhywbeth roedd gen i ddiddordeb ynddo' (22%)
- angen dysgu sgiliau newydd ('ar gyfer fy swydd/dyrchafiad/i wneud cynnydd') (17%)
- â mwy o amser (15%).

Roedd y rhesymau y rhoddodd yr ymatebwyr dros ostyngiad yn y tebygolrwydd o ddysgu hefyd yn gysylltiedig ag ymrwymiadau teuluol ac yn y gwaith:

- ymrwymiadau teuluol (21%)
- ymrwymiadau yn y gwaith (19%)
- dim amser, yn rhy brysur (15%)
- rhesymau iechyd (12%)

**Siart 6: Y tebygolrwydd o ymgymryd â dysgu yn y tair blynedd nesaf**




Sylfaen: yr holl ymatebwyr (1,309)

**Tabl 68: Y tebygolrwydd o ymgymryd ag unrhyw ddysgu yn y tair blynedd nesaf yn ôl rhyw ac oedran**

| Sylfaen: yr holl ymatebwyr | Cyfan-swm | | Rhyw | | | | Oedran | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Dynion | | Menywod | | Dan 24 | | 25 – 34 | | 35 – 44 | | 45 – 54 | | 55+ | |
| | 2004 | 2005 | 2004 | 2005 | 2004 | 2005 | 2004 | 2005 | 2004 | 2005 | 2004 | 2005 | 2004 | 2005 | 2004 | 2005 |
| Sylfaen heb ei phwysoli | 1,30 | 1,30 | 614 | 614 | 694 | 694 | 129 | 129 | 227 | 181 | 250 | 262 | 210 | 229 | 471 | 507 |
| Sylfaen wedi'i phwysoli | 1,309 | 1,309 | 658 | 658 | 649 | 650 | 149 | 162 | 256 | 242 | 236 | 237 | 197 | 195 | 471 | 471 |
| | % | % | % | % | % | % | % | % | % | % | % | % | % | % | % | % |
| Tebygol iawn | 34 | 35 | 34 | 33 | 34 | 37 | 59 | 65 | 48 | 44 | 38 | 40 | 32 | 35 | 18 | 17 |
| Eithaf tebygol | 25 | 27 | 26 | 27 | 25 | 27 | 23 | 21 | 31 | 39 | 29 | 29 | 29 | 32 | 19 | 20 |
| Eithaf annhebygol | 12 | 12 | 13 | 14 | 11 | 11 | 6 | 9 | 14 | 7 | 15 | 13 | 15 | 11 | 10 | 16 |
| Annhebygol iawn | 25 | 21 | 23 | 22 | 27 | 21 | 7 | 4 | 4 | 6 | 14 | 11 | 19 | 17 | 50 | 42 |
| Ddim yn gwybod | 4 | 4 | 3 | 4 | 4 | 4 | 5 | 1 | 3 | 3 | 4 | 6 | 4 | 4 | 3 | 5 |
| Pob un sy'n debygol | 59 | 62 | 60 | 60 | 59 | 64 | 82 | 86 | 79 | 83 | 67 | 70 | 62 | 67 | 37 | 37 |
| Pob un sy'n annhebygol | 37 | 34 | 37 | 36 | 37 | 32 | 13 | 12 | 18 | 14 | 29 | 24 | 34 | 29 | 60 | 58 |

Nodyn: Cwestiwn un ymateb.

## 9.5 Crynodeb o'r canfyddiadau allweddol

Cynyddodd y dymuniad i gael codiad cyflog rhwng 2004 (32%) a 2005 (36%). Fodd bynnag, y tu hwnt i hyn, roedd y dyheadau, fel yn 2004, yn canolbwyntio ar ddatblygiad personol. Daeth yr ymatebwyr yn fwy tebygol o nodi yr hoffent, yn y flwyddyn nesaf, gyfarfod â phobl newydd (23% yn 2004 a 33% yn 2005) a datblygu eu hun fel person (27% yn 2004 a 32% yn 2005). Yn gadarnhaol, roedd nifer yr ymatebwyr a nododd nad oedd ganddynt unrhyw ddyheadau am y flwyddyn nesaf wedi gostwng (18% yn 2004 a 12% yn 2005).

Canfyddiad cadarnhaol arall oedd bod yr ymatebwyr a oedd â dyheadau am y flwyddyn nesaf na wnaethant unrhyw ddysgu yn y flwyddyn ddiwethaf yn fwyfwy tebygol o fod o'r farn bod dysgu'n bwysig er mwyn iddynt ddatblygu eu hunain yn broffesiynol ac yn bersonol.

Gan archwilio'r newid mewn dyheadau o'r naill flwyddyn i'r llall ymysg yr isgrwpiau, bu rhai codiadau arwyddocaol yn yr hyn yr hoffai ymatebwyr ei gyflawni. Dangosir y rhain yn Nhabl 74.

**Tabl 69: Y tebygolrwydd o ymgymryd ag unrhyw ddysgu yn y tair blynedd nesaf yn ôl statws gwaith**

| Sylfaen: yr holl ymatebwyr | Cyfanswm | | Statws gwaith | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Gweithio'n amser llawn | | Gweithio'n rhan-amser | | Hunan-gyflogedig | | Ddim yn gweithio | | Wedi ymddeol | |
| | 2004 | 2005 | 2004 | 2005 | 2004 | 2005 | 2004 | 2005 | 2004 | 2005 | 2004 | 2005 |
| Sylfaen heb ei phwysoli | 1,309 | 1,309 | 407 | 406 | 158 | 147 | **59 | **77 | 291 | 277 | 328 | 345 |
| Sylfaen wedi'i phwysoli | 1,309 | 1,309 | 490 | 497 | 175 | 159 | 74 | 91 | 207 | 203 | 304 | 300 |
| | % | % | % | % | % | % | % | % | % | % | % | % |
| Tebygol iawn | 34 | 35 | 43 | 46 | 42 | 44 | 30 | 18 | 29 | 29 | 15 | 13 |
| Eithaf tebygol | 25 | 27 | 30 | 30 | 28 | 31 | 37 | 42 | 26 | 28 | 15 | 18 |
| Eithaf annhebygol | 12 | 12 | 13 | 10 | 11 | 14 | 10 | 11 | 14 | 17 | 10 | 15 |
| Annhebygol iawn | 25 | 21 | 11 | 10 | 15 | 9 | 21 | 26 | 26 | 21 | 57 | 49 |
| Ddim yn gwybod | 4 | 4 | 3 | 5 | 5 | 2 | 2 | 3 | 6 | 5 | 3 | 5 |
| Pob un sy'n debygol | 59 | 62 | 73 | 75 | 69 | 75 | 67 | 60 | 54 | 57 | 30 | 31 |
| Pob un sy'n annhebygol | 37 | 34 | 24 | 20 | 26 | 23 | 31 | 37 | 40 | 38 | 67 | 64 |

Nodyn: Cwestiwn un ymateb. ** sylfaen fach (sylfaen heb ei phwysoli yn llai na 100)).

Yn yr un modd â'r llynedd, pan ofynnwyd iddynt faint, yn eu barn nhw, y byddai dysgu'n eu helpu i gyflawni dyheadau, roedd yr ymatebwyr yn fwy tebygol o ddweud y byddai'n 'helpu llawer' yn achos y dyheadau sy'n gysylltiedig â swydd/gyrfa. Fodd bynnag, yn bwysig, bu cynnydd o'r naill flwyddyn i'r llall yn y tebygolrwydd o ddweud y byddai dysgu'n helpu i gyflawni llawer o'r dyheadau a enwyd. Dengys Tabl 75 ble y bu cynnydd sylweddol mewn meysydd sydd â chysylltiad â swyddi/gyrfaoedd a datblygiad personol yn fras.

Mae'n ddiddorol nodi'r newid yn y gred y bydd dysgu'n helpu i gyflawni nodau penodol. Bydd gan hyn oblygiadau o ran sut mae dysgu'n cael ei farchnata.

Fodd bynnag, ar y cyfan, mae'r tebygolrwydd o ymgymryd â dysgu yn y 3 blynedd nesaf wedi aros yn sefydlog ar hyd y ddau gam. Mae'n werth nodi, serch hynny, bod rhai grwpiau, fel menywod, y rhai dan 24 oed, gweithwyr rhan-amser a'r rhai a ddosberthir fel AB neu C1 wedi dod yn fwy tebygol o ddweud naill ai eu bod yn debygol iawn neu'n eithaf tebygol o ymgymryd â dysgu yn y 3 blynedd nesaf.

**Tabl 70: Y tebygolrwydd o ymgymryd ag unrhyw ddysgu yn y tair blynedd nesaf yn ôl dosbarth cymdeithasol**

| Sylfaen: yr holl ymatebwyr | Cyfanswm | | Dosbarth Cymdeithasol | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | AB | | C1 | | C2 | | DE | |
| | 2004 | 2005 | 2004 | 2005 | 2004 | 2005 | 2004 | 2005 | 2004 | 2005 |
| Sylfaen heb ei phwysoli | 1,309 | 1,309 | 232 | 231 | 306 | 314 | 307 | 299 | 464 | 464 |
| Sylfaen wedi'i phwysoli | 1,309 | 1,309 | 271 | 264 | 335 | 347 | 320 | 313 | 383 | 384 |
| | % | % | % | % | % | % | % | % | % | % |
| Tebygol iawn | 34 | 35 | 52 | 44 | 37 | 36 | 31 | 38 | 23 | 26 |
| Eithaf tebygol | 25 | 27 | 19 | 31 | 28 | 29 | 29 | 26 | 24 | 23 |
| Eithaf annhebygol | 12 | 12 | 11 | 8 | 13 | 13 | 12 | 12 | 10 | 15 |
| Annhebygol iawn | 25 | 21 | 15 | 14 | 18 | 18 | 24 | 18 | 39 | 32 |
| Ddim yn gwybod | 4 | 4 | 2 | 3 | 4 | 4 | 4 | 5 | 4 | 5 |
| Pawb sy'n debygol | 59 | 62 | 71 | 75 | 65 | 65 | 60 | 64 | 47 | 49 |
| Pawb sy'n annhebygol | 37 | 34 | 27 | 22 | 31 | 31 | 36 | 31 | 50 | 47 |

Nodyn: Cwestiwn un ymateb. .





**Tabl 71: Crynodeb o’r grwpiau lle bu newid yn lefel y dyhead o’r naill flwyddyn i’r llall**

| Dyhead | Grwpiau lle bu cynnydd arwyddocaol yn y % a’i enwodd o’r naill flwyddyn i’r llall | | |
|---|---|---|---|
| Cael swydd | Ddim yn gweithio | | |
| Cael cymhwyster cydnabyddedig | Gweithio’n rhan-amser | | |
| Gwneud yn well yn fy ngwaith presennol | Dynion | Gweithio’n amser llawn | |
| Cael codiad cyflog | Dynion | Menywod | Gweithio’n amser llawn |
| Cael mwy o foddhad o’m gwaith | Dynion | | |
| Datblygu fy hun fel person | Gweithio’n amser llawn | Gweithio’n rhan-amser | |
| Gwella fy hunan-hyder | Menywod | | |
| Cyfarfod pobl | 17 – 24 | Wedi ymddeol | Gweithio’n rhan-amser |
| Helpu fy mhlant gyda’u dysgu/gwaith cartref | Wedi ymddeol | | |

**Tabl 72: Dyheadau lle bu cynnydd arwyddocaol o’r naill flwyddyn i’r llall yn yr ymatebwyr a nododd y byddai dysgu’n ‘helpu llawer’ wrth gyflawni’r nodau hyn**

| Dyheadau sy’n gysylltiedig â swydd/gyrfa | Dyheadau sy’n gysylltiedig â datblygiad personol |
|---|---|
| Newid y math o waith a wneir | Dechrau ar gwrs dysgu yn y dyfodol |
| Cael swydd newydd | Cyfarfod pobl |
| Cael codiad cyflog | Gwella fy hunan-hyder |
| | Datblygu fy hun fel person |

# ATODIAD A – GEIRFA

## Clwstwr

fel rhan o ddadansoddiad **Segmentu**, ceisiwn ddod o hyd i grwpiau o ymatebwyr sy’n dangos patrymau tebyg o ran y newidynnau a fesurir. Bydd y penderfyniad am ba newidynnau i’w defnyddio, a sawl un, yn effeithio ar ganlyniadau’r clystyrau. Egwyddor clystyru da yw y dylai fod pellter mawr rhwng y clystyrau, ond y dylai aelodau pob clwstwr fod yn agos at ei gilydd. Yn achos y Panel Unigolion, mae’r segmentu’n seiliedig ar agwedd yr unigolyn at ddysgu a datblygu.

## Segmentu

modd ystadegol o ddeall poblogaeth drwy archwilio’r gwahaniaethau mewn agweddau rhwng grwpiau yn y boblogaeth honno. Defnyddir y dechneg hon yn fynych er mwyn targedu negeseuon marchnata.

## Grŵp dosbarth cymdeithasol

Y system o ddosbarthiad cymdeithasol a ddefnyddiwyd ar gyfer yr arolwg hwn oedd codau dosbarth cymdeithasol ymchwil marchnad, a ddatblygwyd yn wreiddiol gan y diwydiant hysbysebu ac sydd bellach yn cael ei gynnal gan y Gymdeithas er Ymchwil i’r Farchnad. Mae’r dosbarthiad yn cyfeirio at gartrefi, ar sail galwedigaeth bresennol neu flaenorol y prif enillydd incwm yn y cartref. Y cyfwelydd sy’n pennu’r dosbarthiad ar ôl gofyn cwestiynau ynghylch teitl swydd, math o waith a wneir, cymhwyster y mae ei angen a chyfrifoldeb goruchwylio. Yn dechnegol, dosbarthiad chwephlyg ydyw, ond fel arfer caiff y ddau gategori eithaf ar bob pen eu cyfuno, sy’n rhoi’r dosbarthiadau canlynol: AB – Proffesiynol a rheoli, C1 – Gweinyddol, clericyddol a choler gwyn arall, C2 – Gweithwyr llaw medrus, DE – Gweithwyr llaw anfedrus a’r rhai sy’n ddibynnol ar fudd-daliadau’r wladwriaeth.

## Pwysoli – wedi pwysoli/heb bwysoli

Mae’r tablau yn yr adroddiad hwn yn dangos sylfeini heb eu pwysoli ac wedi’u pwysoli. Y sylfaen heb ei phwysoli yw gwir nifer y cyfweliadau a gynhaliwyd gyda’r grŵp hwn o ymatebwyr. Felly, mae’n well defnyddio’r sylfaen heb ei phwysoli os dyfynnir y ffigurau fel ‘nifer y cyfweliadau ar sail pawb a gymerodd ran mewn hyfforddiant neu ddysgu yn y flwyddyn ddiwethaf (ac eithrio’r rhai a fu ar gwrs cyffredinol yn unig)’.

Y sylfaen wedi’i phwysoli yw nifer y cyfweliadau wedi’i phwysoli i gyd-fynd â phroffil poblogaeth Cymru.

# ATODIAD B – ARCHWILIO SEGMENTIAD DYSGWYR YMHELLACH GAN DDEFNYDDIO'R PANEL UNIGOLION, CAM II





## A1 Cyflwyniad a chefndir y segmentu

Mae segmentu yn ffordd arbennig o effeithiol o ddeall poblogaeth drwy archwilio'r gwahaniaethau mewn agweddau rhwng grwpiau yn y boblogaeth honno. Grym segmentu yw y gall defnyddwyr y data greu golwg gyfannol ar eu poblogaeth ac oddi yno gallant dargedu marchnata am fentrau cyfredol a/neu greu mentrau neu gymhellion newydd.

Ar ôl cam cyntaf y Panel Unigolion (2004), lluniwyd dau fodel segmentu ar sail agweddau'r ymatebwyr tuag at ddysgu. Roedd y cyntaf yn ymwneud ag unigolion a oedd wedi'u categoreiddio fel rhai sy'n Ymatebol i Ddysgu, a'r llall i'r rhai a oedd wedi'u categoreiddio fel rhai sy'n Anymatebol i Ddysgu. Defnyddiwyd y diffiniadau canlynol:

Ymatebol i Ddysgu. Diffiniwyd y rhai sy'n Ymatebol i Ddysgu fel unigolion a fu'n ymwneud â hyfforddiant neu ddysgu yn y flwyddyn ddiwethaf. Roedd hefyd yn cynnwys unrhyw un a oedd yn debygol (yn eithaf neu'n debygol iawn) o ymgymryd â dysgu yn y tair blynedd nesaf ac unrhyw un a oedd yn meddwl y buasent efallai'n ceisio gwella'u gwybodaeth am unrhyw beth neu ddysgu sgiliau newydd yn y tair blynedd nesaf.

Anymatebol i Ddysgu. Diffiniwyd y rhai sy'n Anymatebol i Ddysgu fel unigolion na fu'n ymwneud â hyfforddiant neu ddysgu yn y flwyddyn ddiwethaf, nad oeddent yn debygol (yn eithaf neu'n annhebygol iawn) o ymgymryd â hyfforddiant yn y tair blynedd nesaf ac unrhyw un a oedd yn bendant na fyddent yn ceisio gwella'u gwybodaeth am unrhyw beth na dysgu sgiliau newydd yn y tair blynedd nesaf.

Mae'r adran hon yn edrych ar y canfyddiadau o ail gam y panel am bob un o'r clystyrau fel y'u diffiniwyd yn y cam cyntaf (dosbarthwyd pob ymatebydd i glwstwr yng Ngham I ac maent wedi aros yn y clwstwr hwnnw yng Ngham II). Bu'n ddefnyddiol gallu olrhain ymddygiad unigolion o fewn pob clwstwr dros amser oherwydd y gallwn adnabod ym mha glwstwr y mae'r ymddygiad dysgu mwyaf cyson. Rydym yn gwybod sut roedden nhw'n ymddwyn adeg y cam cyntaf, ond mae hyn yn rhoi cipolwg i ni o ba glystyrau sy'n fwy tebygol o newid y math o ddysgu maen nhw'n ei wneud mewn cyfnod cymharol fyr, neu ba rai yn y clwstwr Ymatebol i Ddysgu sydd fwyaf tebygol o ddewis peidio â dysgu am gyfnod (derbynnir na fydd pawb yn parhau i ddysgu drwy'r amser). Gallwn archwilio hefyd agweddau pwy tuag at ddysgu sydd fwyaf tebygol o newid dros amser.

Drwy adolygu'r data o'r ail gam yn erbyn y clystyrau gwreiddiol, cawn hefyd gyfle i ychwanegu mwy o wybodaeth amdanynt. Roedd un cwestiwn ychwanegol yn yr ail gam sy'n rhoi gwybodaeth ddefnyddiol iawn am agweddau o fewn y grwpiau. Roedd y cwestiwn hwn yn archwilio sut roedd unigolion yn blaenoriaethu eu hamser a'u parodrwydd i ysgwyddo heriau a chyfrifoldebau newydd.

Ni all y papur hwn archwilio segmentiad y rhai a oedd yn Anymatebol i Ddysgu yn fanylach nag o'r blaen. Mae hyn oherwydd bod poblogaeth y segmentiad hwn yn eithaf bach yn y cam cyntaf. Fe'i lleihawyd ymhellach yn yr ail gam yn sgil y ffaith bod yr arolwg yn un arhydol (aethom yn ôl i'r rhai a ddywedodd y byddai hynny'n iawn yn unig ac yn y maes ni allwn gyfweld ond â'r rhai a oedd yn fodlon).

## A2 Segmentiad y rhai Ymatebol i Ddysgu

Nodwyd chwe grŵp o'r rhai Ymatebol i Ddysgu, ar sail y data o Gam I y Panel Unigolion, fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Grŵp 1 | Dysgu er ei fwyn ei hun |
| Grŵp 2 | Ysgogiad i newid |
| Grŵp 3 | Dysgwyr anweithredol |
| Grŵp 4 | Uchelgeisiol yn y gwaith |
| Grŵp 5 | Chwilio am atgyfnerthiad |
| Grŵp 6 | Ceisio cym-wysterau |

### Grŵp 1: Dysgu er ei fwyn ei hun

Grŵp mwy aeddfed oedd hwn. O'r herwydd, o'i gymharu â grwpiau eraill, roeddent yn fwy tebygol o fod wedi ymddeol ac o beidio â chael plant yn y cartref. Roedd y dysgwyr hyn yn hyderus ac nid oedd datblygiad personol yn ysgogiad arbennig iddynt (h.y. gwella hunan-hyder a chyfarfod â phobl). Nid oedd ganddynt fawr o ddiddordeb mewn cymwysterau. Roeddent yn dysgu er eu diddordeb/mwynhad eu hun, ac er bod rhyw chwech o bob deg (64%) yn meddwl ei bod yn eithaf tebygol y byddent yn dysgu yn y tair blynedd nesaf, roedd hyn yn is na'r cyfartaledd i ddysgwyr yn gyffredinol (72%).

### Grŵp 2: Ysgogiad i newid

Roedd yn ymddangos bod yr unigolion yn y grŵp hwn yn gryf iawn eu meddyliau ac yn uchelgeisiol. Fe'u dadrithiwyd gan gyfleoedd i ddysgu yn y gwaith ac, o ganlyniad, roeddent yn awyddus i newid eu hamgylchiadau. Byddai'r grŵp hwn yn cynllunio newid y math o waith roeddent yn ei wneud a/neu ddod o hyd i waith gyda chyflogwr gwahanol. Roeddent yn debygol o fod yn dilyn cyrsiau a fyddai'n eu helpu yn hyn o beth (hunanddatblygiad, yn ymwneud â sgiliau ac i ennill cymwysterau). Roeddent yn ddysgwyr hyderus cryf eu cymhelliant, a oedd hefyd yn mwynhau dysgu er ei fwyn ei hun. Fodd bynnag, roeddent yn cytuno nad oedd cymorth a chyngor ar gael bob amser. Roeddent ychydig yn fwy tebygol na dysgwyr mewn grwpiau eraill o fod yn ddynion. Roeddent yn debygol iawn o fod rhwng 25 a 44 oed. Nhw oedd un o'r grwpiau mwyaf tebygol o fod wedi cychwyn teulu yn ddiweddar.

### Grŵp 3: Passive learners

Roedd y grŵp hwn wedi'u dadrithio.
Nid oeddent yn teimlo y dylai dysgwyr orfod talu am ddysgu a oedd yn gysylltiedig â gyrfa nac y dylent orfod dysgu yn eu hamser eu hunain, ac roeddent hefyd o'r farn nad oedd digon o gymorth a chyngor ar gael. Roedd nifer ohonynt heb fod yn ddysgwyr 'diweddar' (h.y. yn y flwyddyn ddiwethaf) ond roeddent yn debygol o ymgymryd â dysgu yn y tair blynedd nesaf. O ran cynlluniau i'r dyfodol a demograffeg, nid oedd dim byd arbennig iawn am y grŵp hwn, ac roedd yr ymatebion yn ddim ond adlewyrchiad o broffil cyffredinol dysgwyr.

### Grŵp 4: Uchelgeisiol yn y gwaith

Roedd y grŵp hwn yn uchelgeisiol iawn. Roeddent am gael dyrchafiad, cael codiad cyflog a/neu wneud yn well yn eu swydd bresennol. Yn wahanol i'r grŵp 'Ysgogiad i newid', nid oedd newid gyrfa neu newid cyflogwr ar frig eu hagenda. Roeddent wedi ymgymryd â llawer iawn o ddysgu, yn y gwaith ac allan o'r gwaith (roedd eu cyflogwyr wedi darparu llawer o hyn). Bu effaith y dysgu hwn yn gadarnhaol iawn ar eu cyflog a'u boddhad ar eu swyddogaeth. Roeddent yn debygol o fod yn ddynion (rhwng 25 a 44 oed) ac o fod â theulu gartref.





### Grŵp: Chwilio am atgyfnerthiad

Ysgogiad y grŵp hwn i ddysgu oedd gwella'u hunan-hyder, cyfarfod â phobl a datblygu fel person. Roedd dysgu blaenorol wedi cyflawni'r nodau hyn ac efallai o ganlyniad, roedd pedwar o bob deg (40%) yn debygol iawn o ddysgu eto yn y flwyddyn nesaf. O'i gymharu â'r holl grwpiau eraill, roeddent yn arwyddocaol fwy tebygol o fod yn fenywod, o fod yn gweithio'n rhan-amser neu o fod yn gofalu am y teulu/y cartref ac o fod yn gwirfoddoli.

### Grŵp: Ceisio cymwysterau

Roedd y grŵp hwn yn dueddol o fod yn dysgu fel rhan o'u bywyd bob dydd. Roedd cymwysterau a chael swydd yn eu hysgogi. Roedd dros chwech o bob deg (64%) o'r grŵp hwn yn ddi-waith ac yn chwilio am waith, yn derbyn addysg amser llawn a/neu yn gofalu am y teulu/y cartref. Roedd cyfrannau'r ddau ryw yn hafal. Nhw oedd y grŵp ieuaf, gyda thros ddau o bob deg (22%) yn 16 – 18 oed a bron i dri o bob deg (29%) yn 19 – 24 oed.

## A3 Dysgu Ffurfiol

### Cyfrannau'r unigolion sy'n dysgu

Y llynedd, daeth yr adroddiad i'r casgliad fod dau o bob tri(64%) o'r holl ymatebwyr a oedd yn Ymatebol i Ddysgu wedi cymryd rhan mewn un ffurf o leiaf ar ddysgu neu hyfforddiant yn ystod y 12 mis diwethaf. Pan ystyriwn ddata Cam II, ymddengys bod bron i chwech o bob deg (58%) o'r ymatebwyr a oedd yn Ymatebol i Ddysgu wedi cymryd rhan mewn rhyw fath o ddysgu a nodwyd yn y cwestiwn (gostyngiad o 64% o'r flwyddyn flaenorol).

Yn 2005, gofynnwyd i'r holl ymatebwyr a gymerodd ran mewn dysgu ffurfiol ym mis Rhagfyr 2004 a oeddent yn dal i gymryd rhan yn y dysgu hwn. Roedd ychydig dros bedwar o bob deg  (43%) o'r rhai Ymatebol i Ddysgu yn dal ar yr un cwrs roeddent wedi'i nodi yn arolwg 2004. Roedd mynychu cyrsiau a oedd yn para dros flwyddyn (ers eu cyfweld y tro cyntaf) ar ei uchaf ymysg y grŵp Uchelgeisiol yn y gwaith (51%) ac ar ei isaf ymysg y grwpiau Ysgogiad i newid (31%) a Chwilio am atgyfnerthiad (30%).

**Tabl A1: Os yw'r ymatebwr yn dal i ddilyn yr un cwrs ag yn 2003**

| Sylfaen: Pawb Ymatebol i Ddysgu | Cyfanswm Ymatebol i Ddysgu | Dysgu er ei fwyn ei hun | Ysgogiad i newid | Dysgwyr anweithredol | Uchelgeisiol yn y gwaith | Chwilio am atgyfnerthiad | Ceisio cymwysterau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Sylfaen heb ei phwysoli | 484 | 123 | 57 | 86 | 72 | 76 | 70 |
| Sylfaen wedi'i phwysoli | 537 | 126 | 72 | 89 | 92 | 74 | 84 |
| | % | % | % | % | % | % | % |
| Ydw | 40 | 43 | 31 | 41 | 51 | 30 | 39 |
| Nac ydw | 60 | 57 | 69 | 59 | 49 | 70 | 61 |

Cwestiwn un ymateb

## Math o ddysgu

Y llynedd, crynhowyd y prif wahaniaethau rhwng y grwpiau a'r mathau o ddysgu a wnaed, fel a ganlyn:

- Roedd y grŵp Ysgogiad i newid yn debycach na'r cyfartaledd o fod yn ymgymryd â dysgu a oedd yn gysylltiedig â'u gwaith neu eu gyrfa. Er enghraifft, roedd tri o bob deg (30%) wedi bod ar gwrs a addysgir a luniwyd i'w helpu i ddatblygu sgiliau i'w defnyddio mewn swydd (o'i gymharu â chyfartaledd y dysgwyr, sef 26%), roedd pedwar o bob deg (41%) wedi bod ar gyrsiau cyffredinol yn y gwaith (o'i gymharu â chyfartaledd y dysgwyr, sef 27%), roedd tri o bob deg (29%) wedi derbyn hyfforddiant dan arolygiaeth wrth wneud eu swydd, ac roedd dros draean (36%) wedi treulio amser yn dysgu am ddatblygiadau yn eu maes.
- Hefyd, roedd y grŵp Uchelgeisiol yn y gwaith yn debycach o fod wedi ymgymryd â mathau ffurfiol o ddysgu sy'n gysylltiedig â'u gwaith neu eu gyrfa. Roedd dau o bob pump (41%) wedi bod ar gyrsiau a addysgir a luniwyd i'w helpu i ddatblygu sgiliau i'w defnyddio mewn swydd, roedd ychydig o dan hanner (46%) wedi bod ar gyrsiau cyffredinol yn y gwaith, roedd tri o bob deg (31%) wedi cael hyfforddiant dan arolygiaeth wrth wneud eu swydd, ac roedd bron i hanner (45%) wedi treulio amser yn dysgu am y datblygiadau yn eu maes.
- Nid yw'n syndod mai'r grŵp Ceisio cymwysterau a oedd fwyaf tebygol o ddweud eu bod wedi bod ar gwrs a addysgir a luniwyd i arwain at gymhwyster (38% o'i gymharu â chyfartaledd y dysgwyr, sef 23%). Roeddent yn llai tebygol na chyfartaledd y dysgwyr o fod wedi ymgymryd â chyrsiau cyffredinol yn y gwaith.
- Yn fras, roedd y grŵp Chwilio am atgyfnerthiad yn cyd-fynd â phroffil dysgwyr yn gyffredinol.
- Roedd y Dysgwyr anweithredol yn llai tebygol na chyfartaledd y dysgwyr o fod wedi ymgymryd ag unrhyw fath o ddysgu ffurfiol (roedd 45% heb wneud unrhyw ddysgu ffurfiol o'i gymharu â chyfartaledd o 36% ymysg yr holl ddysgwyr).
- Roedd y grŵp Dysgu er ei fwyn ei hun yn llai tebygol na'r cyfartaledd o fod wedi ymgymryd ag unrhyw un o'r mathau ffurfiol o ddysgu, ac eithrio 'Unrhyw gwrs neu hyfforddiant arall a addysgir' (17% o'i gymharu â chyfartaledd o 13% i'r holl ddysgwyr). O ystyried oedran/statws gwaith y grŵp hwn, nid yw hyn yn syndod – roedd llawer yn ymgymryd â dysgu er mwynhad ac i lenwi eu hamser.

Yn 2005, roedd rhai grwpiau yn llai gweithgar mewn meysydd penodol nag oeddent o'r blaen, sef:

- *Ysgogiad i newid:* Gostyngiad cymharol fawr mewn mynychu cyrsiau cyffredinol yn y gwaith (o 41% yn 2004 i 23% yn 2005), mewn hyfforddiant dan arolygiaeth (29% i 18%) ac mewn treulio amser yn dysgu am y datblygiadau yn eu maes (36% i 24%).
- *Uchelgeisiol yn y gwaith:* Gostyngiad mewn mynychu cyrsiau a addysgir sy'n arwain at gymwysterau (27% yn 2004 i 17% yn 2005), mynychu cyrsiau cyffredinol yn y gwaith (46% i 31%) a threulio amser yn dysgu am ddatblygiadau yn eu maes (45% i 35%).
- *Chwilio am atgyfnerthiad:* Gostyngiad mewn mynychu cyrsiau cyffredinol yn y gwaith (24% i 12%) a threulio amser yn dysgu am ddatblygiadau yn eu maes (24% i 14%).





**Tabl A2: Y mathau o ddysgu y bu ymatebwyr yn cymryd rhan ynddynt yn ystod y deuddeng mis diwethaf**

| Sylfaen: Pawb Ymatebol i Ddysgu | Cyfanswm Ymatebol i Ddysgu | | Dysgu er ei fwyn ei hun | | Ysgogiad i newid | | Dysgwyr anweithredol | | Uchelgeisiol yn y gwaith | | Chwilio am atgyfnerthiad | | Ceisio cymwysterau | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2004 | 2005 | 2004 | 2005 | 2004 | 2005 | 2004 | 2005 | 2004 | 2005 | 2004 | 2005 | 2004 | 2005 |
| Sylfaen heb ei phwysoli | 1,529 | 1,03 | 406 | 293 | 179 | 111 | 342 | 221 | 182 | 128 | 226 | 151 | 197 | 133 |
| Sylfaen wedi'i phwysoli | 1,581 | 1,083 | 435 | 302 | 213 | 138 | 340 | 208 | 219 | 154 | 209 | 138 | 165 | 144 |
| | % | % | % | % | % | % | % | % | % | % | % | % | % | % |
| Wedi bod ar gyrsiau a addysgwyd oedd i fod i arwain at gymwysterau | 23 | 22 | 17 | 16 | 25 | 19 | 19 | 19 | 27 | 28 | 23 | 20 | 38 | 36 |
| Wedi bod ar gyrsiau a addysgwyd a luniwyd i'ch helpu i ddatblygu sgiliau y gallech eu defnyddio mewn swydd efallai | 26 | 28 | 19 | 21 | 30 | 44 | 22 | 22 | 41 | 46 | 24 | 23 | 28 | 22 |
| Wedi bod ar unrhyw gyrsiau cyffredinol yn y gwaith, e.e. sefydlu, iechyd a diogelwch | 27 | 17 | 19 | 10 | 41 | 23 | 23 | 14 | 46 | 31 | 24 | 12 | 20 | 22 |
| Wedi bod ar unrhyw gwrs arall a addysgir, neu hyfforddiant | 13 | 11 | 17 | 18 | 7 | 6 | 9 | 7 | 11 | 11 | 18 | 14 | 10 | 6 |
| Wedi astudio ar gyfer cymwysterau heb fod ar gwrs a addysgwyd | 5 | 3 | 4 | 4 | 6 | 3 | 5 | 4 | 9 | 4 | 5 | 1 | 6 | 4 |
| Wedi derbyn hyfforddiant dan arolygiaeth tra mewn swydd | 19 | 14 | 12 | 8 | 29 | 18 | 17 | 16 | 31 | 25 | 16 | 9 | 16 | 17 |
| Wedi treulio amser yn dysgu am y datblygiadau yn eich maes | 25 | 20 | 19 | 22 | 36 | 24 | 18 | 13 | 45 | 35 | 24 | 14 | 14 | 9 |

**Tabl A2:Y mathau o ddysgu y bu ymatebwyr yn cymryd rhan ynddynt yn ystod y deuddeng mis diwethaf (Parhad)**

| Sylfaen: Pawb Ymatebol i Ddysgu | Cyfanswm Ymatebol i Ddysgu | | Dysgu er ei fwyn ei hun | | Ysgogiad i newid | | Dysgwyr anweithredol | | Uchelgeisiol yn y gwaith | | Chwilio am atgyfnerthiad | | Ceisio cymwysterau | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2004 | 2005 | 2004 | 2005 | 2004 | 2005 | 2004 | 2005 | 2004 | 2005 | 2004 | 2005 | 2004 | 2005 |
| Sylfaen heb ei phwysoli | 1,529 | 1,03 | 406 | 293 | 179 | 111 | 342 | 221 | 182 | 128 | 226 | 151 | 197 | 133 |
| Sylfaen wedi’i phwysoli | 1,581 | 1,083 | 435 | 302 | 213 | 138 | 340 | 208 | 219 | 154 | 209 | 138 | 165 | 144 |
| | % | % | % | % | % | % | % | % | % | % | % | % | % | % |
| Unrhyw gwrs neu hyfforddiant arall nas addysgwyd | 6 | 6 | 5 | 7 | 5 | 6 | 2 | 7 | 11 | 8 | 7 | 4 | 4 | 3 |
| Wedi cael credyd/cam tuag at gymhwyster | 7 | 5 | 6 | 4 | 7 | 8 | 5 | 4 | 14 | 6 | 5 | 4 | 6 | 4 |
| Dim un o’r rhain | 36 | 42 | 45 | 50 | 24 | 37 | 45 | 46 | 21 | 26 | 36 | 44 | 32 | 39 |

Cwestiwn amlymateb. Ni ddangosir ‘ddim yn gwybod’ yn y tabl

## Agweddau tuag at ddysgu

Roedd casgliadau’r adroddiad segmentu (a oedd yn ymwneud â data’r Panel Unigolion yn y cam cyntaf) fel a ganlyn:

*Dysgu er ei fwyn ei hun:* Nid oedd y grŵp hwn yn amlwg wedi’u hysgogi gan uchelgais neu ddatblygiad personol. Roeddent yn grŵp hŷn ac felly’n dueddol o deimlo bod dysgu’n bleserus ynddo’i hun (94% o’i gymharu ag 89% o’r dysgwyr yn gyffredinol). Ychydig a deimlai’n chwithig yn y dosbarth, mae’n debyg oherwydd eu bod yn hyderus ynghylch dysgu sgiliau newydd (84% o’i gymharu ag 86% o’r holl ddysgwyr a 76% o’r holl ymatebwyr).

*Ysgogiad i newid:* Roedd y grŵp hwn yn mwynhau dysgu er ei fwyn ei hun (roedd 87% yn cytuno â’r datganiad hwn) ac roeddent yn hyderus ynghylch dysgu (90% yn cytuno). Oherwydd eu bod yn bwriadu newid eu hamgylchiadau (roedd 78% am newid y math o waith maent yn ei wneud, tra bo chwech o bob deg (61%) yn bwriadu cael swydd gyda chyflogwr gwahanol), roedd ganddynt ysgogiad i ddysgu. Efallai bod angen rhywfaint o gymorth a chyngor arnynt am ba gwrs i’w ddilyn (roedd 53% yn cytuno nad oes digon o gymorth a chyngor ar gael o’i gymharu â 38% o ddysgwyr a 38% o’r holl ymatebwyr).

*Dysgwyr anweithredol:* Y prif ysgogiad i ddysgu oedd helpu yn eu swydd bresennol, ac roedd effeithiau dysgu yn canolbwyntio ar gynyddu gallu yn y swydd. Roeddent yn mwynhau dysgu er ei fwyn ei hun (roedd 28% yn cytuno’n gryf o’i gymharu ag 21% i ddysgwyr yn gyffredinol) ond gwnaethant ddangos diffyg ymrwymiad i ddysgu am unrhyw reswm arall. Roedd nifer arwyddocaol uwch yn y grŵp hwn yn teimlo:





- Na ddylid disgwyl i ddysgwyr ddysgu sgiliau newydd yn eu hamser eu hunain (roedd 61% yn cytuno o'i gymharu â 28% o'r holl ymatebwyr)
- Nad oedd digon o gymorth a chyngor ar gael (roedd 60% yn cytuno o'i gymharu â 38% o'r holl ymatebwyr)
- Na ddylai dysgwyr orfod talu am gyrsiau sy'n gysylltiedig â'u swydd/gyrfa (roedd 83% yn cytuno o'i gymharu â 52% o'r holl ymatebwyr)

*Uchelgeisiol yn y gwaith:* Roedd y grŵp hwn yn hyderus iawn ynghylch dysgu sgiliau newydd (roedd 95% yn cytuno i ryw raddau â'r datganiad hwn), roeddent yn hapus i ddysgu sgiliau newydd yn eu hamser eu hunain ac roeddent yn cael bod cymorth a chyngor ar gael. Roeddent hefyd yn gryf eu cymhelliant: roedd bron i naw o bob deg (87%) yn anghytuno â'r datganiad 'Does gen i mo'r ysgogiad i ddilyn cwrs'

*Chwilio am atgyfnerthiad:* Roeddent yn teimlo nad oedd digon o gyngor/cymorth ar gael (43%). Roedd hyn yn gymharol uchel o'i gymharu â'r grwpiau eraill (roedd 38% o'r holl ddysgwyr yn cytuno) ac yn awgrymu bod rhai wedi cael profiad negyddol. Roeddent yn teimlo'n chwithig yn y dosbarth, roedd 24% yn cytuno â'r datganiad hwn, a dyma'r uchaf o'r holl grwpiau Ymatebol i Ddysgu.

*Ceisio cymwysterau:* Roedd yr ymatebion i lawer o'r datganiadau a oedd yn ymwneud ag agweddau tuag at ddysgu yn cyd-fynd â chyfartaledd yr holl ymatebwyr. Fodd bynnag, roedd y grŵp hwn yn fwy tebygol na llawer lleill o gytuno na ddylent orfod talu am ddysgu. Roeddent wedi'u hysgogi (roedd 75% yn anghytuno â'r datganiad 'Does gen i mo'r ysgogiad i ddilyn cwrs' o'i gymharu â 63% o'r holl ymatebwyr) ac roeddent yn adnabod llawer o bobl yn eu hardal a oedd yn dysgu (57% o'i gymharu â 40% o'r holl ymatebwyr).

Y prif grŵp a ddangosodd rai newidiadau arwyddocaol mewn barn dros y flwyddyn ddiwethaf oedd y grŵp Dysgwyr anweithredol. Daethant yn fwy cadarnhaol ynghylch talu am ddysgu, ymgymryd â dysgu sy'n gysylltiedig â swydd/gyrfa yn eich amser eich hun a hefyd yn fwy cadarnhaol am gyngor a chymorth sydd ar gael am gyfleoedd dysgu:

- Yn 2005, roedd un o bob wyth (12%) yn cytuno nad oeddent yn gweld pam dylai rhywun dalu am ddysgu sy'n gysylltiedig â swydd neu yrfa, o'i gymharu ag ychydig dros ddau o bob deg (22%) yn 2004.
- Yn 2005, roedd un o bob dau ar bymtheg (6%) yn cytuno na ddylid disgwyl i rywun ymgymryd â dysgu sy'n gysylltiedig â swydd/gyrfa yn eu hamser eu hunain, o'i gymharu ag ychydig dros un o bob deg (11%) yn 2004.
- Yn 2005, roedd un o bob pump ar hugain (4%) yn cytuno nad oes digon o gyngor a chymorth ar gael am gyfleoedd dysgu, o'i gymharu â thros un o bob deg (13%) yn 2004.
- Roedd y grŵp hwn hefyd yn llai tebygol o gytuno bod dysgu yn bleserus ynddo'i hun (16% yn 2005 o'i gymharu ag 28% yn 2004).

Newidiadau eraill mewn agweddau i'w nodi yw:

- Bod unigolion yn y grŵp Dysgu er ei fwyn ei hun a'r grŵp Uchelgeisiol yn y gwaith yn llai hyderus ynghylch dysgu sgiliau newydd (17% yn 2005 o'i gymharu â 24% yn 2004 a 15% yn 2005 a 23% yn 2004 yn y drefn honno).
- Roedd y grŵp Ceisio cymwysterau yn llai tebygol o adnabod llawer o bobl a oedd yn dysgu (5% yn 2005 o'i gymharu â 12% yn 2004).

Yn arolwg 2005, ymgorfforwyd rhag-god ychwanegol i'r cwestiwn hwn, a oedd yn archwilio pa mor betrus oedd pobl ynghylch safon y gwaith a ddisgwylid ganddynt a'r graddau roedd hyn yn eu rhwystro rhag dysgu'n gyfan gwbl. Roedd ychydig o dan un o

## Tabl A3: Agweddau at ddysgu (% yn cytuno'n gryf â datganiadau)

| Sylfaen: Pawb Ymatebol i Ddysgu | Cyfanswm Ymatebol i Ddysgu | | Dysgu er ei fwyn ei hun | | Ysgogiad i newid | | Dysgwyr anweithredol | | Uchelgeisiol yn y gwaith | | Chwilio am atgyfnerthiad | | Ceisio cymwysterau | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2004 | 2005 | 2004 | 2005 | 2004 | 2005 | 2004 | 2005 | 2004 | 2005 | 2004 | 2005 | 2004 | 2005 |
| Sylfaen heb ei phwysoli | 1,529 | 1,037 | 403 | 293 | 179 | 111 | 342 | 221 | 182 | 128 | 226 | 151 | 197 | 133 |
| Sylfaen wedi'i phwysoli | 1,581 | 1,083 | 435 | 302 | 213 | 138 | 340 | 208 | 219 | 154 | 209 | 138 | 165 | 144 |
| | % | % | % | % | % | % | % | % | % | % | % | % | % | % |
| Mae dysgu yn bleserus ynddo'i hun | 21 | 17 | 28 | 26 | 9 | 8 | 28 | 16 | 15 | 13 | 24 | 21 | 9 | 11 |
| Rydw i'n hyderus am ddysgu sgiliau newydd | 24 | 19 | 24 | 17 | 25 | 28 | 24 | 19 | 23 | 15 | 21 | 16 | 26 | 22 |
| Wela i ddim pam ddylwn i dalu am ddysgu sy'n ymwneud â'm swydd neu fy ngyrfa | 10 | 10 | 3 | 6 | 10 | 10 | 22 | 12 | 10 | 11 | 8 | 8 | 10 | 14 |
| Nid oes digon o gymorth a chyngor ar gael am y gwahanol fathau o ddysgu y gall pobl ymgymryd â hwy | 6 | 4 | 1 | 2 | 8 | 2 | 13 | 4 | 5 | 3 | 6 | 5 | 9 | 9 |
| Mi fyddwn yn teimlo'n chwithig mewn dosbarth | 4 | 3 | 4 | 3 | 2 | – | 7 | 6 | 1 | 3 | 5 | 3 | 3 | 3 |
| Does gen i mo'r ysgogiad i ddilyn cwrs | 3 | 4 | 5 | 4 | * | 2 | 5 | 4 | * | 1 | 2 | 3 | 2 | 7 |
| Ni ddylid disgwyl i bobl ddysgu sgiliau newydd ar gyfer eu gyrfaoedd yn eu hamser eu hunain | 4 | 3 | 1 | 3 | 3 | 3 | 11 | 6 | 4 | 2 | 2 | 2 | 1 | 3 |
| Rydw i'n adnabod llawer o bobl yn f'ardal i sy'n dysgu | 5 | 4 | 5 | 6 | 1 | 1 | 4 | 3 | 6 | 3 | 5 | 5 | 12 | 5 |
| Does gan weddill fy nheulu fawr ddim diddordeb mewn dysgu | 2 | 1 | * | 2 | 2 | – | 2 | – | 1 | – | 2 | 1 | 3 | 2 |

Un ymateb (graddfa sgorio) fesul cwestiwn. Mae'r tabl yn dangos % sy'n cytuno'n gryf. Mae * yn dynodi llai na 0.5%, mwy na sero

**Tabl A4: Petrus am ddysgu oherwydd safon y gwaith sydd ei angen (% sy'n cytuno'n gyffredinol)**

| Sylfaen: Pawb na ddysgodd yn y flwyddyn ddiwethaf | Cyfanswm Ymatebol i Ddysgu | Dysgu er ei fwyn ei hun | Ysgogiad i newid | Dysgwyr anweithredol | Uchelgeisiol yn y gwaith | Chwilio am atgyfnerthiad | Ceisio cymwysterau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Sylfaen heb ei phwysoli | 507 | 155 | **47 | 116 | **46 | **76 | **67 |
| Sylfaen wedi'i phwysoli | 489 | 155 | 55 | 103 | 50 | 65 | 62 |
| | % | % | % | % | % | % | % |
| Rydw i'n betrus am ddysgu oherwydd sa-fon y gwaith sydd ei angen | 17 | 13 | 16 | 22 | 10 | 29 | 19 |

Un ymateb (graddfa sgorio) fesul cwestiwn. Mae ** yn dynodi sylfaen fach (sylfaen heb ei phwysoli yn llai na 100).

bob pump (17%) o'r holl unigolion Ymatebol i Ddysgu yn cytuno i ryw raddau eu bod yn betrus ynghylch dysgu oherwydd safon y gwaith a ddisgwylid ganddynt. Roedd yr ymateb hwn yn arwyddocaol uwch yn y grŵp Chwilio am atgyfnerthiad (29%) a hefyd yn uwch na'r cyfartaledd ymysg y Dysgwyr anweithredol (22%). Ychydig iawn o'r grŵp Uchelgeisiol yn y gwaith (10%) oedd yn cytuno â'r datganiad hwn, a ddangosai fod eu lefelau hyder yn llawer uwch.

## Cynlluniau ar gyfer y dyfodol

Roedd casgliadau'r adroddiad segmentu (a oedd yn ymwneud â data'r Panel Unigolion yn y cam cyntaf) fel a ganlyn:

*Dysgu er ei fwyn ei hun:* Wrth ymateb i gynlluniau ar gyfer y dyfodol, dywedodd bron i chwarter (23%) y grŵp hwn nad oedd y rhestr yn yr holiadur yn berthnasol iddyn nhw. Y datganiadau oedd fwyaf tebygol o fod yn berthnasol oedd: cael codiad cyflog (25%), datblygu fy hun fel person (19%), helpu fy mhlant/wyrion (15%) a chyfarfod â phobl newydd (14%). Dim ond 7% o'r grŵp hwn oedd yn bwriadu gwneud unrhyw beth i wella'u hunan-hyder.

*Ysgogiad i newid:* Roedd y grŵp hwn yn arwyddocaol fwy tebygol na'r mwyafrif o'r grwpiau eraill o fod yn bwriadu cael swydd newydd gyda chyflogwr gwahanol, newid y math o waith a wnânt, cael cymhwyster, cael codiad cyflog a gwneud eu gwaith yn fwy boddhaol.

*Dysgwyr anweithredol:* Dywedodd un o bob pump (20%) o'r grŵp hwn nad oedd yr un o'r opsiynau ynghylch yr hyn yr hoffent ei wneud yn y flwyddyn nesaf yn berthnasol (o'i gymharu ag 11% o'r holl ddysgwyr). Oherwydd bod y rhestr a oedd wedi'i rhag-godio yn cwmpasu llawer o ddyheadau amrywiol, byddai hyn yn awgrymu nad oedd ganddynt lawer o ddyheadau i newid yn y flwyddyn nesaf. Ni ddylid ystyried bod hyn yn negyddol, gallai awgrymu bod eu hymrwymiadau presennol yn eu bodloni.

*Ychydig iawn o’r grŵp* Uchelgeisiol yn y gwaith oedd am newid swydd neu gyflogwyr yn y flwyddyn nesaf. Roeddent yn bwriadu gwneud yn well yn eu gwaith, cael dyrchafiad, cael codiad cyflog arall a chynyddu eu boddhad yn eu gwaith. Roedd hanner yn debygol iawn o ddysgu yn ystod y tair blynedd nesaf.

Roedd y grŵp Chwilio am atgyfnerthiad yn fwy tebygol na rhai o’r grwpiau eraill o ddweud y byddent yn cael swydd a/neu gymhwyster yn y flwyddyn nesaf ond roeddent yn canolbwyntio’n fwy arwyddocaol na’r holl grwpiau eraill ar y canlynol:

- Datblygu fy hun fel person (81% o’i gymharu â 31% o’r dysgwyr a 26% o’r holl ymatebwyr)
- Gwella fy hunan-hyder (89% o’i gymharu â 24% o’r dysgwyr ac 21% o’r holl ymatebwyr)
- Cyfarfod â phobl (70% o’i gymharu â 25% o’r dysgwyr a 22% o’r holl ymatebwyr)
- Helpu fy mhlant gyda’u dysgu/gwaith cartref (48% o’i gymharu â 26% o’r dysgwyr a 23% o’r holl ymatebwyr)

Roedd gan lawer o’r grŵp Ceisio cymwysterau ddyheadau am y flwyddyn nesaf:

- Roedd dau o bob tri (66%) o’r grŵp hwn am gael swydd yn y flwyddyn nesaf, o’i gymharu â bron i un o bob deg (9%) o’r holl ymatebwyr
- Roedd chwech o bob deg (59%) am gael cymhwyster, o’i gymharu ag un o bob chwech (16%) o’r holl ymatebwyr
- Roedd dros bedwar o bob deg (42%) am gael mynediad at gwrs yn y dyfodol, o’i gymharu â dau o bob deg (19%) o’r holl ymatebwyr

Mae dyheadau llawer o’r grwpiau wedi newid yn y flwyddyn ddiwethaf. Mae’r tabl isod yn dangos y grwpiau y mae eu dyheadau mewn maes arbennig wedi gostwng a lle maent wedi cynyddu hefyd. Mae’n dangos yn glir:

- Y bu cynnydd, i lawer o’r grwpiau, mewn diddordeb mewn datblygu fel person, cael codiad cyflog a chyfarfod â phobl.
- Mae gan y grŵp Chwilio am atgyfnerthiad fwy o ddiddordeb mewn datblygu fel person na mewn cyfarfod â phobl a gwella’u hunan-hyder
- Mae’r Dysgwyr anweithredol wedi cynyddu’r tebygolrwydd o sôn am lawer o’r dyheadau
- Mae’r grŵp Ysgogiad i newid yn llai tebygol o sôn am newid cyflogaeth ac yn fwy tebygol o enwi gwneud yn well yn eu swydd bresennol a/neu gael dyrchafiad.

Ni fu newid yn y tebygolrwydd o ddysgu yn y tair blynedd nesaf i’r mwyafrif o’r grwpiau. Nid yw’r unig newid sy’n werth ei nodi yn arwyddocaol ac mae’n ymwneud â gostyngiad yn y gyfran o unigolion yn y grŵp Chwilio am atgyfnerthiad a’r grŵp Ceisio cymwysterau a ddywedodd eu bod yn debygol iawn o ddychwelyd i ddysgu.

## Rheoli amser (data newydd i segmentu)

Ychwanegwyd cwestiwn at arolwg 2005 a archwiliai’r modd roedd yr ymatebwyr yn rheoli eu hamser a hefyd sut roeddent yn hoff o ddefnyddio’r amser hwn. O ran defnyddio’u hamser, roedd y cwestiwn yn benodol yn ceisio archwilio a oedd yr ymatebwyr yn hoff o drefn reolaidd, a oeddent yn hoffi ymlacio a pha mor agored oedden nhw i dderbyn cyfrifoldebau neu heriau newydd. Ni ddangosodd y grŵp cyntaf, Dysgu er ei fwyn ei hun, unrhyw agweddau nac ymddygiad a oedd yn wahanol i gyfartaledd y rhai Ymatebol i Ddysgu. Fodd bynnag, roedd rhai dangosyddion cryf yn y grwpiau eraill ynghylch sut roeddent yn hoffi treulio’u hamser:

- *Ysgogiad i newid:* Roedd y grŵp hwn yn un o’r clystyrau a oedd fwyaf tebygol o ddweud bod angen llawer o amser arnynt i ymlacio (62% o’i gymharu â 58% o’r holl rai Ymatebol i Ddysgu). Mae’n ddiddorol nodi, er bod hyn yn wir, nad oeddent yn rhwym wrth drefn reolaidd; roedd hanner (49%) yn cytuno eu bod yn hoffi cadw at drefn reolaidd (o’i gymharu â 59% o’r cyfanswm).





**Tabl A5: Newid mewn dyheadau a nodwyd yn ôl segmentiad**

| | **Grwpiau y cynyddodd eu dyheadau yn y maes hwn** | **Grwpiau y gostyngodd eu dyheadau yn y maes hwn** |
|---|---|---|
| Cael codiad cyflog | Dysgwyr anweithredol<br>Chwilio am atgyfnerthiad<br>Ceisio cymwysterau | Uchelgeisiol yn y gwaith |
| Datblygu fy hun fel person | Dysgu er ei fwyn ei hun<br>Dysgwyr anweithredol<br>Ceisio cymwysterau | Chwilio am atgyfnerthiad |
| Helpu fy mhlant gyda'u dysgu/gwaith cartref | Ceisio cymwysterau | |
| Cyfarfod pobl | Dysgu er ei fwyn ei hun<br>Dysgwyr anweithredol<br>Uchelgeisiol yn y gwaith<br>Ceisio cymwysterau | Chwilio am atgyfnerthiad |
| Gwella fy hunan-hyder | Dysgwyr anweithredol | Chwilio am atgyfnerthiad |
| Cael mynediad i gwrs dysgu arall yn y dyfodol | | Ceisio cymwysterau |
| Cael cymhwyster cydnabyddedig | Dysgwyr anweithredol | Ceisio cymwysterau |
| Gwneud yn well yn fy ngwaith presennol | | Ysgogiad i newid |
| To be better at my current job | Ysgogiad i newid<br>Ceisio cymwysterau | Uchelgeisiol yn y gwaith |
| Cael dyrchafiad | Ysgogiad i newid | Uchelgeisiol yn y gwaith |
| Cael swydd | | Ceisio cymwysterau |
| Cael swydd gyda chyflogwr gwahanol | Ysgogiad i newid | |

- *Dysgwyr anweithredol:* Roedd cryn dipyn o ganfyddiadau arwyddocaol am y grŵp hwn o'u cymharu â'r holl grwpiau Ymatebol i Ddysgu eraill. Roeddent yn arwyddocaol fwy tebygol na'r cyfartaledd o ddweud bod ganddynt ormod o ymrwymiadau yn y cartref i ymgymryd â dysgu ychwanegol (42% o'i gymharu â 36%), o ddweud mai eu blaenoriaeth drwy'r amser yw bod gyda'u plant (64% o'i gymharu â 55%) ac o deimlo nad oeddent am dderbyn cyfrifoldebau ychwanegol onid oedd rhaid (42% o'i gymharu â 36%).
- *Uchelgeisiol yn y gwaith:* Y grŵp hwn oedd leiaf tebygol o gytuno eu bod yn blaenoriaethu eu hamser i fod gyda'r plant (43%) ac ychydig

## Tabl A6: Cynlluniau yn y dyfodol

| Sylfaen: Pawb sy'n Ymatebol i Ddysgu | Cyfanswm pawb sy'n ymatebol i ddysgu | | Dysgu er ei fwyn ei hun | | Ysgogiad i newid | | Dysgwyr anweithredol | | Uchelgeisiol yn y gwaith | | Chwilio am atgyfnerthiad | | Ceisio cymwysterau | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2004 | 2005 | 2004 | 2005 | 2004 | 2005 | 2004 | 2005 | 2004 | 2005 | 2004 | 2005 | 2004 | 2005 | 2004 | 2005 |
| Sylfaen heb ei phwysoli | 1,529 | 1,037 | 403 | 293 | 179 | 111 | 342 | 221 | 182 | 128 | 226 | 151 | 197 | 133 |
| Sylfaen wedi'i phwysoli | 1,581 | 1,083 | 435 | 302 | 213 | 138 | 340 | 208 | 219 | 154 | 209 | 138 | 165 | 144 |
| | % | % | % | % | % | % | % | % | % | % | % | % | % | % | % | % |
| Nodau/dyheadau am y flwyddyn nesaf? | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Cael codiad cyflog | 36 | 40 | 25 | 23 | 53 | 61 | 24 | 37 | 87 | 73 | 20 | 34 | 21 | 31 |
| Datblygu fy hun fel person | 31 | 36 | 19 | 30 | 30 | 32 | 16 | 29 | 40 | 38 | 81 | 57 | 22 | 35 |
| Helpu fy mhlant gyda'u dysgu/gwaith cartref | 26 | 29 | 15 | 22 | 22 | 26 | 20 | 25 | 50 | 47 | 48 | 39 | 14 | 25 |
| Cyfarfod pobl | 25 | 34 | 14 | 30 | 28 | 31 | 10 | 27 | 22 | 32 | 70 | 50 | 25 | 44 |
| Gwella fy hunan-hyder | 24 | 26 | 7 | 13 | 26 | 28 | 8 | 22 | 19 | 24 | 89 | 54 | 22 | 33 |
| Cael mynediad i gwrs dysgu arall yn y dyfodol | 24 | 20 | 15 | 13 | 31 | 24 | 16 | 16 | 24 | 20 | 34 | 26 | 42 | 29 |
| Cael mwy o foddhad o'm gwaith | 20 | 22 | 8 | 13 | 47 | 36 | 8 | 16 | 40 | 39 | 23 | 26 | 10 | 13 |
| Cael cymhwyster cydnabyddedig | 20 | 22 | 7 | 14 | 28 | 27 | 7 | 17 | 29 | 22 | 19 | 23 | 59 | 43 |
| Newid y math o waith rydw i'n ei wneud | 16 | 14 | 4 | 5 | 78 | 34 | 7 | 16 | 5 | 16 | 8 | 10 | 11 | 12 |
| Gwneud yn well yn fy ngwaith presennol | 16 | 20 | 7 | 15 | 9 | 21 | 10 | 16 | 62 | 44 | 16 | 17 | 2 | 14 |
| Cael dyrchafiad | 12 | 15 | 1 | 8 | 12 | 21 | 4 | 8 | 62 | 48 | 2 | 7 | 1 | 10 |





**Tabl A6: Cynlluniau yn y dyfodol (Parhad)**

| Sylfaen: Pawb sy'n Ymatebol i Ddysgu | Cyfanswm pawb sy'n ymatebol i ddysgu | | Dysgu er ei fwyn ei hun | | Ysgogiad i newid | | Dysgwyr anweithredol | | Uchelgeisiol yn y gwaith | | Chwilio am atgyfnerthiad | | Ceisio cymwysterau | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2004 | 2005 | 2004 | 2005 | 2004 | 2005 | 2004 | 2005 | 2004 | 2005 | 2004 | 2005 | 2004 | 2005 |
| Sylfaen heb ei phwysoli | 1,529 | 1,037 | 403 | 293 | 179 | 111 | 342 | 221 | 182 | 128 | 226 | 151 | 197 | 133 |
| Sylfaen wedi'i phwysoli | 1,581 | 1,083 | 435 | 302 | 213 | 138 | 340 | 208 | 219 | 154 | 209 | 138 | 165 | 144 |
| | % | % | % | % | % | % | % | % | % | % | % | % | % | % |
| Cael swydd | 11 | 10 | 1 | 3 | 3 | 7 | 4 | 8 | 4 | 7 | 12 | 13 | 66 | 32 |
| Cael swydd gyda chyflogwr gwahanol | 9 | 8 | * | 2 | 61 | 21 | – | 6 | 3 | 9 | 1 | 9 | 1 | 8 |
| Dim un o'r uchod | 11 | 9 | 23 | 16 | – | 7 | 20 | 11 | – | – | – | 7 | 3 | 3 |
| Tebygolrwydd o ddysgu yn y 3 blynedd nesaf? | | | | | | | | | | | | | | |
| Tebygol iawn | 41 | 41 | 33 | 33 | 47 | 47 | 33 | 35 | 50 | 52 | 45 | 40 | 58 | 52 |
| Eithaf tebygol | 31 | 30 | 31 | 29 | 36 | 34 | 29 | 26 | 33 | 31 | 34 | 38 | 25 | 27 |

iawn a gytunai eu bod yn osgoi derbyn cyfrifoldebau newydd (22%). Dywedodd bron i bawb (92%) yn y grŵp hwn eu bod nhw'r math o berson a oedd yn mwynhau her newydd.

- *Chwilio am atgyfnerthiad:* Awgrymodd y grŵp hwn eu bod yn cael trafferth i reoli'r ymrwymiadau a oedd ganddynt eisoes. Dywedodd ychydig dros draean (35%) eu bod yn aml yn cael bod rheoli ymrwymiadau yn y gwaith a'r cartref yn broblem. Nhw oedd y grŵp a oedd fwyaf tebygol o ddweud mai eu blaenoriaeth nhw drwy'r amser oedd bod gyda'r plant (67% o'i gymharu â 55% yn gyffredinol) a'r mwyaf tebygol o ddweud nad oeddent yn derbyn cyfrifoldebau ychwanegol onid oedd rhaid (47% o'i gymharu â 34% yn gyffredinol).
- *Ceisio cymwysterau:* Y grŵp hwn oedd fwyaf tebygol o ddweud eu bod yn hoffi llawer o amser rhydd i ymlacio (63% o'i gymharu â 59% yn gyffredinol).

## Goblygiadau a chasgliadau

Mae'r ymarfer hwn yn bendant wedi ychwanegu at y wybodaeth sydd gennym eisoes am y segmentau. Yn benodol, trafodwyd peth data pwysig iawn ynghylch pa mor hyblyg mae pob un o'r grwpiau o ran yr ymrwymiad amser a'r cyfrifoldeb posibl a allai fod ynghlwm wrth fynychu cwrs. Roedd y datganiadau ynghylch cymryd cyfrifoldebau newydd a bod â gormod o gyfrifoldebau ar hyn y bryd yn ddadlennol iawn:

- *Ysgogiad i newid:* mae angen llawer o amser i ymlacio arnynt, ond nid oeddent yn rhwym wrth drefn reolaidd. Mae angen i negeseuon posibl i'r grŵp hwn ymwneud â dysgu hyblyg/y gall dysgu fod yn bleserus ac nad oes rhaid iddo achosi gormod o straen.
- *Dysgwyr anweithredol:* Yn arwyddocaol fwy tebygol na'r cyfartaledd o ddweud bod ganddynt ormod o ymrwymiadau yn y cartref i ymgymryd â dysgu ychwanegol (42% o'i gymharu â 36%), o ddweud mai eu blaenoriaeth drwy'r amser oedd bod gyda'u plant (64% o'i gymharu â 55%) ac o deimlo nad oeddent am ysgwyddo cyfrifoldebau ychwanegol onid oedd rhaid (42% o'i gymharu â 34%). Ychydig iawn o amser sydd ganddynt.
- *Uchelgeisiol yn y gwaith:* Maent yn croesawu cyfrifoldebau a heriau. Mae angen i'r negeseuon i'r grŵp hwn fod yn eithaf dynamig.
- *Chwilio am atgyfnerthiad:* Problemau wrth reoli'r ymrwymiadau sydd ganddynt eisoes a'u blaenoriaeth drwy'r amser oedd bod gyda'u plant. Nhw oedd fwyaf tebygol o ddweud nad oeddent yn derbyn cyfrifoldebau ychwanegol onid oedd rhaid. Bydd angen perswadio'r grŵp hwn am ddatblygiad personol ac y gellir osgoi gorlwytho ymrwymiadau.
- Bod mynychder y grŵp hwn mewn dysgu, at ei gilydd, wedi gostwng. Disgwylir amrywiadau dros amser. Bu rhai newidiadau mewn agweddau, ond mae hyn yn naturiol oherwydd wrth i un cwrs ddod i ben ni fydd yr unigolyn o reidrwydd yn cychwyn ar brofiad dysgu arall ar unwaith.
- Mae agweddau ymysg y Dysgwyr anweithredol wedi newid yn sylweddol (tua'r cadarnhaol), a gallai hyn awgrymu eu bod, fel grŵp, yn fwy agored nag eraill i negeseuon marchnata/mwy o wybodaeth.
- Cynlluniau ar gyfer y dyfodol – er bod y data'n dangos bod dyheadau yn newid dros amser yn achos rhai grwpiau, ni ddylid tanamcangyfrif pwysigrwydd negeseuon sy'n cyrraedd at ddyheadau a chynlluniau a sut gall dysgu helpu. Byddem yn dadlau mai'r hyn y mae'r papur hwn yn ei ddangos yw:
- Mai dyheadau sy'n gysylltiedig â gwaith/gyrfa yw'r meysydd allweddol lle bu'r newid mwyaf yn achos rhai grwpiau. Datganwyd yn yr adroddiad blaenorol bod angen targedu'r negeseuon hyn ymysg y rhai Uchelgeisiol yn y gwaith. Bydd hyn bob amser yn wir, ond mae'r papur hwn yn awgrymu nad yw defnyddio negeseuon sy'n ymwneud â'r berthynas â dysgu a gwneud cynnydd yn y gwaith yn gwbl amhriodol i'r grwpiau eraill rywbryd neu'i gilydd (er enghraifft, Chwilio am atgyfnerthiad).
- I lawer o'r grwpiau, bu cynnydd mewn diddordeb i ddatblygu fel person, cael codiad cyflog a chyfarfod â phobl, a dylid ystyried defnyddio hyn fel neges eilaidd wrth farchnata a hyrwyddo i'r holl grwpiau hefyd (y brif neges yw'r un sy'n "gweddu orau" i'r grŵp o ddata Cam I).





## Tabl A7: I ba raddau ydych chi'n cytuno â'r datganiad canlynol (datganiadau'n ymwneud â rheoli amser) % sy'n cytuno

| Sylfaen: Pawb Ymatebol i Ddysgu | Cyfanswm Ymatebol i Ddysgu | Dysgu er ei fwyn ei hun | Ysgogiad i newid | Dysgwyr anweithredol | Uchelgeisiol yn y gwaith | Chwilio am atgyfnerthiad | Ceisio cymwysterau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Sylfaen heb ei phwysoli | 1,037 | 293 | 111 | 221 | 128 | 151 | 133 |
| Sylfaen wedi'i phwysoli | 1,083 | 302 | 138 | 208 | 154 | 138 | 144 |
| | % | % | % | % | % | % | % |
| Mae gen i ormod o gyfrifoldebau yn y gwaith i wneud mwy o ddysgu* | 31 | 35 | 31 | 36 | 34 | 18 | 28 |
| Mae gen i ormod o gyfrifoldebau gartref i wneud mwy o ddysgu | 36 | 33 | 38 | 42 | 37 | 35 | 30 |
| Fy mlaenoriaeth i drwy'r amser yw bod gyda'r plant* | 55 | 53 | 47 | 64 | 43 | 67 | 59 |
| Dydw i ddim yn derbyn cyfrifoldebau newydd os nad oes rhaid i mi | 34 | 34 | 26 | 42 | 22 | 47 | 31 |
| Rydw i'r math o berson sy'n mwynhau her newydd | 81 | 78 | 85 | 77 | 92 | 76 | 82 |
| Rydw i'n aml yn cael anhawster i reoli cyfrifoldebau gwaith a chyfrifoldebau cartref | 29 | 27 | 30 | 27 | 32 | 35 | 24 |
| Rydw i'n hoffi digon o amser rhydd i ymlacio | 58 | 55 | 62 | 57 | 54 | 59 | 63 |
| Rydw i'n hoffi cadw at drefn reolaidd | 59 | 57 | 49 | 63 | 60 | 63 | 60 |

Un ymateb (graddfa sgorio) fesul cwestiwn. * ni ofynnwyd am y datganiad hwn ond i'r rhai a chanddynt blant * Ni ofynnwyd y cwestiwn hwn ond i'r rhai nad oeddent wedi ymddeol neu'n anabl i weithio.